# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b. DYDD IAU, 16EG GORFFENNAF, 2026**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd cyfarfod briffio i aelodau am 10:00yb**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 9 Gorffennaf 2026)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Berwyn Parry Jones
Geraint Wyn Parry

Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Sian Williams
Elin Walker Jones
Beca Roberts

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
Wendy Cleaver

Anwen J. Davies
Angela Russell

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 27

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 29 Ionawr a 4 Mehefin 2026, fel rhai cywir.

**5. GWASANAETH GOFAL DYDD** 28 - 50

Er mwyn craffu darpariaeth Gofal Dydd fel rhan o Cynllun y Cyngor – Gwynedd Ofalgar

**6. ADRODDIAD GRWP TASG A GORFFEN CWYNION ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** 51 - 57

Cylfwyno canfyddiadau ac argymhellion y Grwp Tasg a Gorffen

**7. LLECHEN LAN** 58 - 100

Angen sylwadau'r pwyllgor ar ddiweddariad i'r data, a'r diweddariad i'r rhaglen waith Llechen Lân.

**8. COMPACT TRYDYDD SECTOR** 101 - 114

Ystyried a yw'r Compact diwygiedig yn darparu sail gadarn ar gyfer perthynas fwy cyson, effeithiol a chydweithredol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector.

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2026/27** 115 - 118

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 29 IONAWR 2026**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**

Elwyn Jones, Jina Gwyrfai, Menna Baines, Elin Walker Jones, Sian Williams, Meryl Roberts, Berwyn Parry Jones, Eryl Jones-Williams, Einir Williams, Rheinallt Puw, Angela Russell, Geraint Wyn Parry, Gareth Coj Parry, Beth Lawton, Gwynfor Owen

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Sharron Williams Carter (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Gwenan Medi Hughes (Rheolwr Trobwynt) Sue Layton, (Arweinydd Tim Cefnogi Teulu) Caren Brown (Rheolydd Tîm o Amgylch y Teulu)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Stephen Wood (Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd) Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Linda Morgan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025, fel rhai cywir.

## 5. STRATEGAETH CADW TEULUOEDD GYDA’I GILYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd. Eglurwyd bod y gwaith hwn yn canolbwyntio ar roi cymorth amserol a penodol er mwyn cefnogi teuluoedd a’u cadw gyda’i gilydd ac yn ddiogel. Nodwyd bod strategaeth yr Adran yn seiliedig ar egwyddor glir, i gadw teuluoedd gyda’i gilydd cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng ac atal plant a phobl ifanc rhag mynd i ofal. Nodwyd mai prif nod yr Adran ydi cadw plant a phobl ifanc gyda’i teuluoedd os yw’n saff i wneud hynny a lleihau’r angen am ymyrraeth statudol. Nodwyd bod y strategaeth yn dwyn ynghyd ystod o wasanaethau ataliol o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, gan gynnwys:

- Teuluoedd yn gyntaf
- Tîm o amgylch y teulu
- Tîm Cefnogi’r Teulu
- Trobwynt
- Derwen
- Hafan y Sêr

Pwysleisiwyd bod cydweithio aml asiantaeth yn greiddiol i’r dull hwn gyda phartneriaid megis iechyd, addysg, tai a'r trydydd sector yn cyfrannu at gefnogi teuluoedd. Amlygwyd bod yr adroddiad yn amlinellu’r galw cynyddol ar y gwasanaethau hyn, y cymhlethdod cynyddol o ran anghenion teuluoedd a’r pwysau ar adnoddau, gan gynnwys dibyniaeth ar gyllid grant. Tynnwyd sylw at y cynnwys sydd yn dangos bod y gwaith ataliol hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, wrth helpu sefydlu teuluoedd a lleihau'r angen i blant ddod i ofal. Nodwyd bod yr hybiau cymunedol hefyd yn helpu hybu gwybodaeth ar gyfer y teuluoedd.

Diolchwyd am yr adroddiad a chanmolwyd y gwaith sydd yn mynd rhagddo yn yr Adran wrth warchod teuluoedd mwyaf bregus Gwynedd. Cydnabuwyd bod y gwasanaeth yn gymhleth ac aml haenog a chanmolwyd ymroddiad y staff i gefnogi a diogelu plant a phobl ifanc y sir.

Yn ystod y drafodaeth, cododd y sylwadau a chwestiynau a ganlyn;

Wrth gyfeirio at ran 4.16 yn yr adroddiad, holwyd os yw’r niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn aros am asesiad ASD/ADHD yn cynnwys asesiadau awtistiaeth hefyd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y nifer o blant a phobl ifanc cyfeiriwyd at yn yr adroddiad yn cynnwys amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc sydd yn niwro wahanol, gan gynnwys awtistiaeth, dyspracsia, dyslecsia ayyb.

Cyfeiriwyd at cyfarfod diweddar o’r Panel Rhiantu Corfforaethol lle bu gynrychiolydd o’r Bwrdd Iechyd yn mynychu, gan nodi bod y rhestrau aros am y cyflyrau yma yn cynyddu. Mynegwyd siom am hyn a nodwyd bod diagnosis am y cyflyrau yma gan seicolegydd yn holl bwysig er iechyd a lles unigolion. Hyderwyd bod y Bwrdd Iechyd bellach yn buddsoddi yn y gwaith hyn er mwyn sicrhau bod y rhestrau aros yn dod i lawr er mwyn cyfarch y galw cynyddol a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn aros mwy na 3 blynedd am asesiad. Gobeithiwyd bydd 2 flynedd yn fwy cyffredin o ran amser

aros cyn bo hir. Atgyfnerthwyd bod gwaith y Tîm Awtistiaeth yng Ngwynedd yn cefnogi'r gwaith a'r strategaeth hwn wrth gynnig arbenigedd hanfodol a chynhwysfawr. Nodwyd eu bod yn cydweithio'n agos iawn efo'r Tîm Niwroddatblygiadol o fewn y Bwrdd Iechyd i gefnogi plant a phobl ifanc tra eu bod yn aros am ddiagnosis. Nodwyd eu bod yn cefnogi unigolion er mwyn ceisio lleihau'r pwysau a chryfhau'r darpariaeth sydd ar gael gan y Cyngor er budd y teuluoedd.

Wrth amlygu bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am wasanaethau dros y ddwy flynedd diwethaf, holwyd beth yw'r achos mwyaf am y cynnydd yn y galw am wasanaethau teuluoedd yn gyntaf. Mewn ymateb, cydnabuwyd mai tasg heriol yw pennu rheswm penodol am y cynnydd oherwydd natur cymhleth y mater. Cydnabuwyd bod llawer o resymau amrywiol yn cyfrannu at y cynnydd yn y galw, gan nodi bod cynnydd ymwybyddiaeth teuluoedd hefyd yn eu hannog i gyflwyno eu plant am gyfeiriad a holi am gefnogaeth. Mynegwyd bod y sylw cynyddol ar les plant yn ffactor, yn ogystal â'r cynnydd yn y sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn awtistiaeth ac achosion niwro amrywiol, sydd yn annog teuluoedd i gael diagnosis cywir ar gyfer eu plant.

Amlygwyd bod newid sicr wedi bod mewn ymddygiad ac anghenion plant ers cyfnod COVID. Tynnwyd sylw at effeithiau tlodi yng Nghymru, a phwysleisiwyd yr angen i gefnogi plant a sicrhau bod teuluoedd yn aros efo'i gilydd ar draws y sir. Nodwyd rhwystredigaeth nad oedd y data ar gael gan y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod o'r Panel Rhiantu yn ddiweddar a ymrwymwyd i ddod i'r afael ar y data yma yn fuan.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth Trobwynt. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod llawer o fodelau a rhaglenni yn cael eu defnyddio ar hyn o'r bryd i gefnogi rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc. Rhoddwyd enghreifftiau, gan nodi bod y gefnogaeth yn seiliedig ar a dymuniadau'r teulu perthnasol. Eglurwyd bod y gwasanaeth trobwynt yn canolbwyntio ar gyfuniad o bedwar elfen wahanol, a bod y modelau a strategaethau yn amrywio o ran dwysedd ac wedi eu llunio yn arbennig i weddu anghenion unigol. Manylwyd ar yr ymyrraeth, gan nodi bod y lefel yn amrywio, o ymyriadau dwys o 10 awr yr wythnos, hyd at flwyddyn gyda theuluoedd. Nodwyd bod yr ymyriadau hyn yn helpu cryfhau perthnasau, gwella lles emosiynol a chreu cartrefi mwy diogel a maethlon. Manylwyd ar y rhaglenni ar gael, megis siarad therapiwtig, cefnogi rhieni wrth chwarae efo'u plant a dysgu sgiliau amrywiol. Eglurwyd bod rhaglenni gwahanol ar gael i ferched a dynion ifanc sydd wedi dioddef trais a chefnogaeth gyson ar gael iddynt. Pwysleisiwyd bod anghenion teuluoedd Gwynedd yn hynod amrywiol, felly mae'r angen i fod yn hyblyg ac i deilwra cefnogaeth benodol yn hanfodol ar draws y sir.

Cyfeiriwyd at yr heriau ariannol yn ymwneud ar waith hyn, gan nodi bod cyfnodau mamolaeth o fewn staff yn arwain at drosiant staff uchel ac anawsterau o ran pa gefnogaeth benodol sydd ar gael a phryd. Mewn ymateb i hyn, gofynnwyd beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau nad yw darpariaeth gwasanaethau yn cael eu crebachu neu eu heffeithio yn negyddol oherwydd cyfnodau mamolaeth. Cydnabuwyd bod cyfarch anghenion y gwasanaeth yma yn heriol am amryw o resymau, gan gynnwys y ffaith ei fod yn heriol recriwtio staff a chymwysterau penodol ac arbenigol am gyfnod dros dro. Sicrhawyd bod y Cyngor yn y broses o geisio ymafael ar hyn, wrth gynnig cytundebau swyddi am gyfnod penodol i geisio hybu'r swydd a'i wneud yn fwy deniadol. Nodwyd bod yr adran hefyd yn hysbysebu ac yn creu swyddi a chytundeb

parhaol i unigolion a chynnig hyfforddiant iddynt wrth ganolbwyntio ar fanteision hunanddatblygiad.

Mewn ymateb i bryderon aelodau ynghylch darpariaeth a chefnogaeth i'r gymdeithas cefn gwlad y sir, cadarnhawyd bod y tîm yn gweithredu ar draws Gwynedd, gyda swyddfeydd ledled y sir. Amlygwyd bod swyddfeydd wedi eu lleoli yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli yn ogystal â Chaernarfon er mwyn gallu adnabod beth sydd ar gael yn y cymunedau a beth yw'r anghenion ymhob ardal. Nodwyd bod cydweithio ar draws y timau yn greiddiol i'r strategaethau, gan nodi bod amryw o sefydliadau cefnogaeth wedi eu lleoli yn Neiniolen, Bethesda, Hyfi a Talsarn.

Holodd Aelod pa fath o gydweithio sydd yn mynd rhagddi efo'r Adran Addysg i gefnogi plant a theuluoedd. Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai plant methu mynychu'r ysgol oherwydd amryw o resymau gwahanol, a holwyd pa fath o gydweithio a chefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd sydd yn wynebu heriau. Holwyd os yw'r Adran Plant yn cael mewnbwn i achosion penodol a pha fath o gymorth sydd ar gael, er enghraifft, i achosion gwaharddiadau. Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhawyd bod cydweithio agos yn digwydd rhwng yr adrannau, ar lefelau achosion unigol a strategaethau. Manylwyd ar yr ymdrechion i wella presenoldeb mewn ysgolion, gan nodi bod panel penodol yn edrych ar yr elfen 'drws cywir' i ymafael ar heriau. Nodwyd bod hyn yn cynnwys yr adrannau addysg, iechyd a phlant. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn mynd ymlaen wrth fynd trwy restrau plant sydd ddim yn mynychu'r ysgol, i weld pa achosion sydd yn berthnasol a fydd yn gallu derbyn cefnogaeth gan dimau o fewn yr adran plant yn ei gyfanrwydd. Ceisiwyd darganfod pa fath o gefnogaeth benodol sydd ei angen, er mwyn gallu cyfeirio achosion at y timau cywir, sydd yna yn cydweithio gydag asiantaethau pellach, megis y Bwrdd Iechyd.

Holwyd os oes gwaith penodol yn mynd rhagddi i osgoi plant yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Cadarnhawyd bod gwaith ymyrraeth yn mynd rhagddi ar lefelau gwahanol er mwyn taclo'r heriau penodol, ond cydnabuwyd bod llawer o waith i wneud i gefnogi plant a phobl ifanc er mwyn eu cadw yn yr ysgol. Ymhelaethwyd ar hyn, gan nodi bod yr adran yn cydweithio yn agos iawn efo'r Adran Addysg, wrth gydweithio ar nifer o baneli diogelu ac ysgolion. Nodwyd bod ymdrechion i gynnal cyfarfodydd rhwng swyddogion a rhai ysgolion. Sicrhawyd bod perthynas trawsadrannol da o fewn y Cyngor, sydd yn cryfhau ac yn gwella ar raddfa dda.

Wrth drafod y cydweithio sydd yn mynd rhagddi rhwng yr adrannau, holwyd pa fath o waith sydd yn mynd ymlaen a sut mae'r tîm plant yn cydweithio efo tîm iechyd meddwl y Cyngor. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at yr amrywiaeth helaeth o heriau sydd gan deuluoedd efo iechyd meddwl, yn sgil amryw o resymau ar draws y sir. Cydnabuwyd bod llawer o rheini yn dioddef gydag iechyd meddwl gwael. Eglurwyd bod y Tîm Oedolion a chymunedol yn cydweithio efo'r adran plant a theuluoedd yn yr achosion hyn, yn ogystal â chydweithio ag asiantaethau megis y Bwrdd Iechyd hefyd. Ymhelaethwyd bod y Tîm Iechyd Meddwl newydd y Cyngor yn cydlynu'r a chefnogi'r gwaith yma.

Cyfeiriwyd at y gwasanaeth ataliol Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, sydd yn rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, gweithgarwch atal a chynnig cymorth ar gyfer teuluoedd cyfan. Nodwyd bod y rhaglen yn hyrwyddo gwaith amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cyd-gysylltiedig pan fydd angen. Amlygwyd rhai

esiamplau o sefyllfaoedd sydd yn codi efo perthnasau yn dirywio o fewn teuluoedd, lle bu'r rhaglen yn cynnig gwasanaethau cymodi. Eglurwyd bod cydweithio yn digwydd efo'r Tîm ôl 16 i gyflawni hyn a nodwyd bod hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Holwyd beth yw effaith dibyniaeth y Strategaeth Cadw Teuluoedd efo'i gilydd ar gyllid grant, a sut mae hyn yn effeithio'r gwasanaeth ar hyn o'r bryd. Mewn ymateb, cydnabuwyd mai hyn yw un o brif risgiau'r rhaglen a chydnabuwyd yr ansicrwydd ar gyfer y dyfodol. Amlygwyd yr heriau sydd yn codi trwy hyn, gyda chynllunio, staffio a'r gweithlu. Er hyn, cadarnhawyd bod y cynllun yn gweithredu o fewn y grant yn sefydlog am gyfnod penodol. Eglurwyd bod y grantiau wedi bod ar gael i'r gwaith yma ers blynyddoedd, ac felly mae'r adran wedi esblygu i gynnal y ddarpariaeth o fewn cyfyngiadau'r arian grant. Pwysleisiwyd fod yr adran yn ddibynnol ar y grantiau yma i ffynnu, a bod pwysau cynyddol ar y galw yn cryfhau'r angen amdanynt. Holwyd beth fyddai'n bosib i aelodau'r Cyngor ei wneud i sicrhau mwy o gyllid ar gyfer y gwaith yma yn y Cyngor. Cydnabuwyd bod bosibilrwydd o lywodraeth newydd ddod i rym am dymor newydd, a fydd hyn yn cael effaith ar y gyllideb ar gael. Eglurwyd bod yr adran yn creu cynlluniau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, felly mae'r cynlluniau yn parhau am gyfnod cytundebau amrywiol. Eglurwyd bod angen cynllunio'r ddarpariaeth ar gael i deuluoedd Gwynedd o fewn y cyllid penodol sydd ar gael bob blwyddyn.

Wrth gyfeirio at y nifer o achosion sydd yn cau yn llwyddiannus gan Gydlynwyr Tîm o Amgylch y Teulu, holwyd beth yw'r rheswm am y lleihad mewn achosion yn cau dros y 2 flynedd diwethaf. Eglurwyd bod natur y cyfeiriadau wedi dwysau, felly mae achosion yn debygol o barhau am gyfnodau llawer hirach, oherwydd yr angen a'r amser ychwanegol sydd yn cael eu treulio efo'r teuluoedd. Nodwyd hefyd bod diffyg adnoddau hefyd yn ffactor, gan fod y tîm sydd yn gweithio ar hyn yn dîm bach iawn - sydd yn cael effaith ar y niferoedd o achosion sydd yn cael eu cyflawni yn effeithlon. Sylwyd bod cyfnodau mamolaeth hefyd yn creu heriau, wrth i'r nifer o staff gweld hi'n anodd ymdopi efo'r llwydd gwaith, gyda rhai aelodau'r tîm i ffwrdd am gyfnodau. Nodwyd bod rhestr aros am gefnogaeth yn fyw, sydd yn pwysleisio'r nifer o deuluoedd yng Ngwynedd yn aros am gymorth.

Gofynnwyd beth mae'r adran yn ei wneud i gydweithio efo asiantaethau i hybu iechyd a llesiant, yn enwedig iechyd meddwl. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cydweithio yn digwydd yn gyson trwy Adrannau'r Cyngor a'r trydydd sector. Nodwyd bod amryw o sesiynau hwyl ar gael dros fisoedd yr haf i deuluoedd ar draws y sir. Nodwyd mai'r prif ffocws yw mwynhau amser cadarnhaol efo'r teulu a chyfle i fynychu llefydd braf a chyfarfod pobl newydd a chymdeithasu fel teulu. Eglurwyd bod gwasanaethau a gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a trwy wybodaeth i deuluoedd. Nodwyd bod y digwyddiadau a sesiynau yn digwydd ar draws y sir, mewn canolfannau amrywiol a safleoedd Byw yn Iach.
Mewn ymateb i ymholiad, ymhelaethwyd ar yr hybiau cymunedol sydd wedi eu sefydlu yng Ngwynedd, sydd yn fodd o rannu gwybodaeth ar gyfer teuluoedd iddynt wybod pa fath o gefnogaeth sydd yn cael iddynt ac er mwyn gallu cyfeirio unigolion at wasanaethau cywir. Nodwyd bod hyn yn atgyfnerthu'r cyd-weithio amlasiantaethol rhwng gwasanaethau statudol, ataliol a'r trydydd sector. Cyfeiriwyd at Hwb Dinas Bangor, sydd yn cydweithio yn agos gyda Gwasanaethau Plant a nodwyd eu bod yn y broses o sefydlu hwb plant a phobl ifanc ar gyfer Bangor fydd yn cyd-fynd a Hwb Dinas Bangor. Nodwyd bod yr adran yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y teuluoedd yn gwybod bod lleoliad pendant i fynychu. Amlygwyd bod cyrsiau rhiantu a sesiynau 'drop

in’ ar gael yno i rieni a phlant mynychu am unrhyw gyngor. Maent yn annog y teuluoedd i helpu eu hunain a dewis a dethol o’r cymorth sydd ar gael yn annibynnol, wrth addysgu teuluoedd ar sut i fagu plant yn ddiogel, a chyfreithlon. Nodwyd bod tîm Cefnogi Teulu Dechrau’n Deg wedi rhoi sesiynau rhiant a babi yn Hwb yr Orsaf, Penygroes a bod cydweithio gyda nifer o dimau plant, awtistiaeth a chefnogi teuluoedd yn digwydd yn Hwb Porthi Dre, Caernarfon. Croesawyd sgwrs bellach gyda’r aelodau am y ddarpariaeth arfaethedig sydd ar gael i deuluoedd Gwynedd.

Holwyd sut mae’r nifer cynyddol o achosion Derwen a Hafan y Sêr yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y galw ar wasanaethau Hafan y Sêr a Derwen yn heriol. Nodwyd eu bod yn ceisio cadw’r galw am y gwasanaethau i lawr cyn lleied ag sydd yn bosib, trwy gynnig cefnogaeth amrywiol i deuluoedd trwy’r broses ymyrraeth gynnar. Nodwyd ei fod yn anodd rheoli’r nifer o gyfeiriadau sydd yn cael eu derbyn gan Derwen, yn enwedig, oherwydd natur cymhleth y cyfeiriadau. Nodwyd bod yr ystod o anghenion sydd yn bodoli yno yn uchel, felly mae’r adran yn ymdrechu i roi cymorth trwy weithgareddau grŵp drwy ddarpariaeth cyllid grant. Nodwyd bod ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a chanolfannau Byw yn Iach hefyd yn darparu gweithgareddau amrywiol, fel rhan o’r ymdrech trawsadrannol i fod yn hyblyg a datblygu o fewn cyfyngiadau ymarferol ac ariannol. Ymhelaethwyd bod 2 adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o’r bryd, sydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd darpariaeth yr adran addysg a gwasanaethau plant a chymdeithasol. Gobeithiwyd dod ac adroddiad ymlaen i’r Cabinet ym misoedd y Gwanwyn. Disgwylir cael yr adroddiad, sydd wedi ei gomisiynu ar y cyd efo Ynys Môn i adolygu gwasanaethau Derwen, erbyn diwedd mis Chwefror.

Holwyd am fwy o wybodaeth am yr Academi Gofal, ac os yw’r adran plant a chefnogi teuluoedd yn gallu manteisio ar y rhaglen wrth gyflogi prentisiaid. Nodwyd bod yr adran wedi cyflogi prentisiaid ar rhai adegau ac wedi manteisio ar gyfleoedd sydd yn codi pan mae sefyllfa gwasanaethau yn addas. Nodwyd bod yr Academi Gofal yn ased i’r Cyngor a diolchwyd am y gwaith da sydd yn mynd rhagddo.

Yn ystod y drafodaeth, anogwyd swyddogion i amlygu’r ffaith bod darpariaeth Cymraeg a Saesneg ar gael i blant a theuluoedd ar draws Gwynedd yn yr adroddiadau. Cydnabuwyd hyn a chytunwyd i dynnu sylw at y ddarpariaeth hon yn y dyfodol. Gofynnodd aelod a yw’n bosib i’r adroddiadau bod yn fwy syml ar adegau, gan gynnwys gwybodaeth glir wrth amlinellu cryfderau a heriau’r adran, er mwyn i’r aelodau graffu yn fwy effeithiol. Cafwyd trafodaeth am gyfyngiadau’r drefn craffu ac amlygwyd yr angen i wella cynnwys a strwythur rhai adroddiadau er mwyn ceisio sicrhau gwell effaith craffu yn y pwyllgorau yn y dyfodol.

Pwysleisiwyd bod plant yn parhau i berthyn i’r teulu wedi iddynt droi yn 16, a holwyd am fwy o fanylion sut mae’r timau sydd yn cyflawni strategaeth cadw teuluoedd efo'i gilydd yn cydweithio efo’r timau ôl 16. Mewn ymateb, sicrhawyd mai prif nod y timau ôl 16 ydi cadw teuluoedd efo'i gilydd. Er hyn, cydnabuwyd bod ystod o wahanol heriau i bobl ifanc yn eu harddegau yn amrywio o ran dwysedd a diogelwch. Cyfeiriwyd at faterion digartrefedd a’r nifer o ffactorau gwahanol, megis alcohol a chyffuriau, sydd yn cyfrannu at y broblem yma. Wrth gyfeirio at yr elfen diogelu, cadarnhawyd mai sicrhau bod y plentyn yn gallu byw gartref ydi’r nod bob tro. Eglurwyd bod amgylchiadau yn aml yn codi o sefyllfa gefndirol y plentyn / person ifanc a bod hyn yn gallu effeithio ar eu sefyllfa ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod plant yn aml yn gadael

gofal ar ôl 16 ac felly mae'r pwyslais i barhau'r gefnogaeth ac i gadw teuluoedd efo'i gilydd yn holl bwysig.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad.**
2. **Nodi gwerthfawrogiad am y gwaith sy'n mynd rhagddo gan swyddogion yr adran Plant a Theuluoedd.**
3. **Datgan pryder am y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu yn y tymor byr ac effaith hynny ar y gwasanaeth a'r gweithlu.**
4. **Gofyn am adroddiad ar adolygiad Gwasanaeth Derwen pan fydd hynny yn briodol.**
5. **Gofyn am fanylion pellach am y cydweithio rhwng timau sy'n gweithredu Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd a swyddogion Adran Addysg.**
6. **Gofyn i'r cyngor sicrhau bod holl wasanaethau yn parhau ar gael er gwaethaf cyfnodau mamolaeth a gofyn am ddiweddariad sut mae hyn yn cael ei gyflawni.**

## 6. GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nodwyd bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) Gwynedd a Môn yn wasanaeth statudol, amlasiantaethol, sydd yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd ac yn weithredol ar draws y ddwy sir. Nodwyd bod rôl y gwasanaeth yn ganolog i atal troseddu ac ail droseddu gan blant a phobl ifanc gan weithredu o fewn fframwaith Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, trwy ddull 'Plentyn yn Gyntaf' sy'n canolbwyntio ar gryfderau, llesiant a ad- sefydlu. Amlygwyd bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o strwythur y gwasanaeth, trefniadau llywodraethu a chyllido, a'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phlant ar draws sbectrwm eang o ymyraethau. O atal a dargyfeirio tu allan i'r llys, hyd at orchmynion llys statudol a chefnogaeth mewn cyd-destunau mwy cymhleth, yn cynnwys dalfa ac ail sefydlu. Nodwyd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth fanwl am berfformiad y gwasanaeth, gan gynnwys canlyniadau arolygiad HMIP yn 2023/24. Yn yr arolygiad, nodwyd bod y gwasanaeth yn dda a bod safon uchel o safon o asesu o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod heriau sylweddol i'r gwasanaeth yn parhau, gan gynnwys trais ieuenctid, troseddau cyllell, canlyniadau addysgol gwael, anghenion iechyd meddwl a lleferydd, a'r pwysau ariannol sydd yn gysylltiedig â'r ddibyniaeth ar grantiau. Eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi sicrwydd o effeithiolrwydd y gwasanaeth, galluogi aelodau i holi a herio trefniadau presennol a chynnig mewnbwn i gefnogi datblygiad parhaus y gwasanaeth mewn cyd-destun o alw cynyddol a chymhlethdod.

Bu cyfle i aelodau mynegi sylwadau a gofyn cwestiynau. Yn ystod y drafodaeth, cododd y sylwadau a ganlyn;

Holwyd pa gynnydd sydd wedi digwydd wrth i'r gwasanaeth weithredu'r cynllun gwella yn dilyn arolygiad HMIP. Cadarnhawyd bod y Cynllun Gwella wedi ei sefydlu ym mis Mawrth 2024. Nodwyd bod y bwrdd rheoli yn adolygu cynnydd y cynllun yn drylwyr bob chwarter. Cadarnhawyd eu bod wedi cyflawni tua 80% o'r amcanion gweithredu yn y Cynllun yn bresennol, a bydd arolygiad terfynol o'r Cynllun yn digwydd ym mis Mawrth 2026. Wrth gyfeirio at y dadansoddiad cynnydd, cydnabuwyd bod rhai

materion dan sylw sydd angen eu cwblhau, megis, darparu Adroddiad Diogelu ar gyfer y grŵp Cyflawni Diogelu Lleol, Adolygu CLG ac arferion gweithio gyda CAMHS. Hyderwyd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu cwblhau.

Mynegwyd pryder bod y gwasanaeth wedi bod heb gefnogaeth Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ers 6 mlynedd, oherwydd diffyg darpariaeth adnoddau. Holwyd beth sydd yn digwydd i geisio goresgyn y broblem yma. Cydnabuwyd bod hyn yn un o brif gyfyngiadau'r gwasanaeth a'i fod yn broblem ar draws y sector Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Mynegwyd mai Gwynedd oedd ar y rheng flaen yng Nghymru efo'r ddarpariaeth iaith a lleferydd yn 2007/2008. Nodwyd bod hyn yn arloesol ar y pryd ac y cafodd ei gyllido gan arian grant. Eglurwyd bod y ddarpariaeth yma wedi dod i ben yn 2012 oherwydd diffyg cyllid ac adnoddau. Eglurwyd bod ymdrechion i archwilio opsiynau ar gyfer cymorth ac adnoddau yn y maes yma yn cael eu rhwystro oherwydd diffyg Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu Cyflawnder Ieuenctid yn eu hadroddiad '60% - Rhoi Llais iddynt' (2023) lle bu iddynt wrthod yr argymelliadau. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn gyndyn i ddarparu adnoddau oherwydd eu bod yn gweithredu o fewn cyfyngiadau cyllidol hefyd. Mynegwyd siom difrifol am hyn, gan bwysleisio bod iaith statudol y gwasanaeth cyfiawnder yn aml yn anodd ei ddeall, sydd yn achosi rhwystredigaeth ac yn creu anghyfiawnder i bobl ifanc yn mynychu cwrt ac yn cysylltu â chyfreithwyr ayyb. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes llawer o'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y cwrt, sydd yn ychwanegu at anawsterau ieithyddol troseddwyr ifanc yng Nghymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd iaith a lleferydd yn y cyd-destun yma, a chadarnhawyd bod y gwasanaeth yn ceisio ymdopi efo'r heriau yma wrth gynnig cymaint o gefnogaeth ac sydd yn bosib. Nodwyd fod rheolwyr y gwasanaeth cyfiawnder ar draws Cymru wedi gweithio fel grŵp i gyflwyno adroddiad i'r Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid yn tynnu sylw at y sefyllfa ddifrifol a'r lefel o anghysondeb yn narpariaeth adnoddau iaith a lleferydd yng Nghymru.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad sydd yn nodi mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o sgyrsiau cadarn ynghylch nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi cynnal amryw o asesiadau ynghylch nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth dros y 2 flynedd diwethaf, sydd wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Strategol. Cadarnhawyd bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu darparu i'r Bwrdd Rheoli, ar y nodweddion gwarchodedig a'r lefelau amrywiaeth ymysg y garfan o blant sy'n hysbys i'r system gyfiawnder. Adroddwyd bydd hyn yn cynnwys:

- Rhywedd
- Anghenion dysgu Ychwanegol
- Iechyd Meddwl a Niwro- ddatblygiadol
- Ethnigrwydd
- Iaith a Lleferydd
- Plant sydd wedi bod mewn gofal.

Cadarnhawyd bydd yr adroddiadau a'r ymatebion gan y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol. Cydnabuwyd bod adroddiadau ethnigrwydd yn heriol i gyflawni oherwydd bod lefelau isel iawn o bobl o dras ethnig yng Ngogledd Cymru. Eglurwyd bod hyn yn creu effaith sylweddol ar y data cymharol gydag ardaloedd megis Caerdydd, Lerpwl, Manceinion ayyb.

Awgrymwyd y gellir ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwysleisio heriau'r gwasanaeth er mwyn ceisio sicrhau cyllid ac adnoddau ychwanegol i ymafael a'r nifer o bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder. Cydnabuwyd bod llawer o'r plant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder yn deillio o fod yn y system gofal fel plant ifanc. Amlygwyd y cysylltiad rhwng lefelau addysgol plant a'r system cyfiawnder. Nodwyd bod angen rhoi cymorth a chefnogaeth i blant a theuluoedd yn gynnar, er mwyn atal problemau rhag datblygu. Rhoddwyd pwyslais ar gefnogaeth ac ymyrraeth gynnar yn yr aelwyd ac mewn ysgolion, a 'r cydweithio amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ataliol yn arwain at gyfraniad gwirfoddol a pherthnasau iach yn y dyfodol. Cadarnhawyd bod gwaith cydweithio yn mynd rhagddo gyda'r Adran Addysg, sydd yn canolbwyntio ar elfennau cefnogi a chynhwysiad, i godi lefelau presenoldeb a sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac yn ffynnu mewn ysgol.

Mynegwyd pryder mai un cwrt ieuenctid yn unig sydd yng Ngwynedd. Nodwyd bod hyn yn creu anawsterau i blant a phobl ifanc ar draws y sir, yn enwedig yn Ne Meirionnydd, i gyrraedd y cwrt yng Nghaernarfon. Holwyd os oes darpariaeth ar gael er mwyn sicrhau cludiant a chefnogaeth i bobl ifanc yn mynychu'r cwrt. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y cwrt yn ceisio bod mor hygyrch â phosib, wrth drefnu achosion mewn da bryd ac ar adegau cyfleus i'r unigolyn, ar ôl ystyried eu sefyllfaoedd personol a beth fydd yn bosib iddynt. Cadarnhawyd mai 20% o achosion sydd yn cyrraedd lefel achos cwrt bellach, oherwydd y gwaith sydd yn mynd ymlaen ar draws y gwasanaeth i atal ac ymyrru yn gynnar. Atgyfnerthwyd eu bod yn cefnogi'r unigolion a'r teuluoedd yn gyson. Cadarnhawyd nad oes rhestr aros i unigolion fynychu'r cwrt cyfiawnder ieuenctid. Nodwyd bod hyn yn lleihau'r trawma a'r effaith ar y teulu.

Wrth gyfeirio at argymhelliad y Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi bod sicrhau presenoldeb yn y bwrdd rheoli gan uwch arweinwyr addysg ac iechyd, i gyflawni deilliannau addysg ac iechyd positif i blant, holwyd os oes problemau yn codi efo presenoldeb y bwrdd ac os yw hyn yn cael effaith ar allbwn ac amserlen y Cynllun. Nodwyd bod yr arolygiad wedi nodi hyn fel problem, ond bod presenoldeb y bwrdd wedi gwella yn sylweddol ers ei gyhoeddi. Hyderwyd bod lefelau presenoldeb cyfarfodydd y bwrdd yn uchel iawn yn ddiweddar, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanfyddiadau'r adroddiad yn fuan.

Nodwyd bod 121 o blant yn agored i'r gwasanaeth ar hyn o'r bryd, holwyd sut mae hyn yn cymharu efo'r blynyddoedd blaenorol? Esboniwyd bod y niferoedd i lawr i gymharu ag ystadegau tua 10 neu 15 mlynedd yn ôl, ond nodwyd eu bod yn uwch ar hyn o'r bryd i gymharu â'r blynyddoedd diweddar cynt. Eglurwyd bod hyn yn sgil datblygiadau rhaglenni newydd sydd yn canolbwyntio ar ataliad ac ymyrraeth gynnar. Nodwyd bod achosion yn cael eu cyflwyno a'u delio gyda llawer cynt, ac nid yw unigolion yn cael eu troseddlu mor gyflym. Nodwyd bod y gwasanaeth cyfiawnder yn gweithio yn agos iawn efo timau Teuluoedd Yn Gyntaf ac Ôl 16, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni asesiadau a chynnig cefnogaeth ar yr adeg gywir, trwy gydweithio yn gyson.

Amlygwyd bod 80% o lwyth gwaith y gwasanaeth bellach yn waith ataliol. Manylwyd ar y math o waith sydd yn rhan o'r rhaglenni gwaith, yn enwedig y defnydd cynyddol o realiti rhithiol. Nodwyd bod y defnydd o realiti rhithiol yn llwyddiannus iawn, ac yn arwain at ymyrraeth lwyddiannus yn aml. Eglurwyd bod y ddyfais yn creu defnydd o

gemau rhyngweithiol i ddangos beth yw'r sefyllfaoedd a senarios bosib sydd yn gallu codi o ganlyniad i benderfyniadau a gweithredoedd unigolion. Nodwyd ei fod yn canolbwyntio ar yr elfen o ddweud stori er mwyn annog pobl ifanc i wneud y dewis moesol iawn. Nodwyd bod yr elfen yma wedi cyfrannu at y broses o feithrin perthnasoedd da rhwng y plant a phobl ifanc a'u cefnogwyr, wrth adeiladu ymddiriedolaeth, yn unol â'r strategaeth Plentyn yn Gyntaf.

Ymhelaethwyd ar y dulliau datblygol a ddefnyddiwyd gydag achosion troseddol mwy cymhleth, megis camdriniaeth, trais a throseddau cyllell, gan nodi bod y teclynnau realiti rhithiol yn effeithiol iawn. Eglurwyd bod modd i'r bobl ifanc chwarae gemau wrth wneud penderfyniadau gwahanol i weld pa benderfyniad fydd yn arwain at y canlyniad gorau. Nodwyd eu bod yn dysgu llawer trwy'r dull yma a'i fod yn waith arloesol yn y maes.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai trais a defnydd cyffuriau yw'r her fwyaf sydd yn wynebu'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Eglurwyd bod defnydd y cyfryngau cymdeithasol wrth hybu a chynorthwyo trais hefyd yn heriol iawn. Nodwyd bod yr adran yn cydweithio yn agos efo'r heddlu ac amryw o asiantaethau gwahanol er mwyn taclo hyn. Nodwyd bod y nifer o achosion yn codi lle mae grwpiau yn ffilmio digwyddiadau treisgar a'i bostio ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol. Amlygwyd bod hyn yn arwain at gynnydd mewn bwlio ymysg plant a phobl ifanc. Gyda hyn, esboniwyd bod y gwasanaeth yn gwneud gwaith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol eu bod yn atebol i'r gyfraith os ydynt yn rhan o drosedd treisgar wrth ffilmio digwyddiadau fel rhan o'r grŵp troseddol. Pwysleisiwyd bod cyffuriau yn broblem fawr yn y gymuned sydd yn achosi nifer fawr o achosion diogelu.

Holwyd os yw'r gwasanaeth yn mynd o amgylch ysgolion a cholegau'r sir i ddysgu pobl ifanc am oblygiadau bywyd troseddol, a phwysigrwydd cadw yn ddiogel. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn gweithio yn agos iawn efo'r heddlu i gydlynu digwyddiadau amrywiol fewn ysgolion. Eglurwyd bod swyddogion yn gweithio yn agos gyda'r 'School Liaison Officers' ac yn mynychu hybiau o fewn ysgolion i weld carfan benodol o ddisgyblion hefyd. Ymhelaethwyd byddai'r swyddog yna yn darparu cyflwyniad neu gwricwlwm i fynd i'r afael a'r broblem gyda'r bobl ifanc. Gobeithiwyd bydd cyfle i gynnal diwrnod llawn gweithgareddau diogelwch cymuned ar y cyd gydag asiantaethau eraill yn fuan. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyllid swyddogion 'SLO' yn yr ysgolion, yn enwedig yr ardaloedd sydd yn peri'r risg fwyaf.

Gofynnwyd a oes ardaloedd penodol dan sylw gyda lefelau uwch o ymddygiad anghymdeithasol, cyffuriau a throsedd ieuenctid. Cadarnhawyd bod trosedd ieuenctid yn gysylltiedig â thlodi a diweithdra, a nodwyd bod diffyg cyfleoedd hefyd yn gyrru troseddu. Amlinellwyd rhai o'r ardaloedd mwyaf dan sylw gan y gwasanaeth, sef Caergybi, Llangefni, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog. Mynegwyd pryder am y pentrefi yng Ngwynedd hefyd a mynegwyd awydd i gael mwy o ddata am yr achosion yma.
Diolchwyd y gwasanaeth am eu gwaith a chanmolwyd yr adran am eu hymroddiad. Cydnabuwyd bod yr adroddiad braidd yn hirfaith a chymhleth i'w ddadansoddi, a gwahoddwyd aelodau'r pwyllgor i ymweld â'r swyddfeydd i sgwrsio gyda'r staff a gweld y gwaith sydd yn mynd ymlaen eu hunain.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad.**
2. **Datgan pryder nad oes adnoddau i ddarparu cefnogaeth iaith a lleferydd**
3. **Gofyn i'r aelod cabinet Plant a Theuluoedd ohebu gyda'r llywodraeth yn gofyn iddyn nhw ystyried sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i ddarparu cefnogaeth iaith a lleferydd i bobl ifanc yn y system cyfiawnder.**

## 7. TÎM 16+

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd. Nodwyd bod y Tîm Ôl 16 wedi ei sefydlu fel tîm penodol i ganolbwyntio ar yr achosion sydd yn agored i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd rhwng 16 a 25 oed. Nodwyd bod y tîm yn cefnogi pobl ifanc sydd angen gofal a chefnogaeth, sydd mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal. Pwysleisiwyd bod y gefnogaeth yn wirfoddol, ond bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Cadarnhawyd bu 249 achos yn agored i'r Tîm ar ddechrau Ionawr. Rhoddwyd trosolwg o gyllideb y Tîm, gan nodi bod £1,040 miliwn ar gael i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Nodwyd bod rhan helaeth o'r gyllideb (£800,000) ar gyfer anghenion llety a chefnogaeth. Holwyd os yw trefnu llety ar gyfer unigolion yn heriol ar hyn o'r bryd. Mewn ymateb, eglurwyd mai'r nod cyntaf yw cadw'r bobl ifanc yn eu cartref gyda'r teuluoedd os ydi hyn yn bosib. Er hyn, derbyniwyd nifer o gyfeiriadau o ddigartrefedd sydd yn ychwanegu at y galw am lety.

Manylwyd ar y dyraniad gwaith a'r prosesau. Esboniwyd bod gweithiwr penodol yn cael ei ddynodi ar gyfer bob achos, gan ddibynnu ar natur yr achos. Nodwyd bod Gweithiwr Cymdeithasol hefyd yn ymgymryd â'r asesiadau ar gyfer achosion Gofal a Chefnogaeth. Adroddwyd bod yr ymyrraeth a gynigir yn ddibynnol ar yr achos unigol, wrth i asiantaethau gydweithio i gynllunio a diwallu anghenion yr unigolyn. Nodwyd eu bod yn canolbwyntio ar lesiant, sefydlogrwydd, addysg, gwaith, hyfforddiant a datblygu sgiliau annibynnol.

Cyfeiriwyd at y nifer o Geiswyr Lloches sydd yng Ngwynedd ar hyn o'r bryd. Nodwyd bod 32 o'r cyfanswm o 249 achos sy'n agored i'r Tîm Ôl 16 yn Geiswyr Lloches, wedi dyraniad Gwynedd. Cydnabuwyd bod hyn yn ganran uchel, yn unol â'r cwota sydd wedi ei derbyn, dan Gynllun Trosglwyddo'r Swyddfa Gartref. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb Gwynedd ydi sicrhau cefnogaeth a llety iddynt, oherwydd eu bod yn cael eu trin fel plant mewn gofal nes eu bod yn 18 oed. Wrth droi yn 18 oed maent yn cael eu hystyried fel Gadawyr Gofal ac yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol nes eu bod yn 25 oed. Ymhelaethwyd ar yr heriau a goblygiadau hynny, gan gyfeirio at gyfyngiad gwybodaeth gefndirol, dymuniadau, anghenion, trawma a lles emosiynol. Nodwyd bod y wybodaeth a geir drwy'r cyfeiriad yn sylfaenol iawn. Ategwyd bod iaith hefyd yn rhwystr, yn ogystal ag ansicrwydd y bobl ifanc a'r diffyg dealltwriaeth am y broses.

Manylwyd ar y Cynllun Llwybr, gan nodi bod disgwyliad i bob person ifanc sydd yn gadael gofal fod a Chynllun Llwybr sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd yn ôl yr angen. Nodwyd bod cynnwys y Cynllun yn amrywio o unigolyn i unigolyn, ac yn dibynnu ar eu sefyllfa bersonol. Mynegwyd bod pwyslais ar sefydlogi a chael llety sefydlog a diogel i fyw fel blaenoriaeth, yn ogystal â threfnu addysg bellach, yn ôl gallu'r unigolyn. Eglurwyd bod meithrin perthynas gwell efo aelodau teulu a rhieni hefyd yn elfen, ac y caiff sawl agwedd ei ystyried. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn parhau i fod yn 'Rhiant Corfforaethol' i'r unigolion nes eu bod yn troi yn 25.

Holwyd am fwy o fanylion am y tîm a’r ffordd o weithredu a sut dyrannwyd y llwyth gwaith ymysg swyddogion y tîm. Mewn ymateb, manylwyd ar y trefniadau wrth gyfeirio at yr atodiad sydd yn dangos y nifer o achosion fesul swyddog. Cadarnhawyd bod y llwyth gwaith wedi ei rannu yn deg a’u bod yn gwneud gwahanol fathau o waith, gan gynnwys swyddogion cefnogol, gweinyddol ac adnoddau. Amlygwyd bod hyfforddiant ar gael i weithwyr ar bob lefel. Cadarnhawyd bod 4 gweithiwr cymdeithasol yn rhan o’r tîm ôl ofal, sydd yn gweithio yn agos efo swyddogion GISDA. Cadarnhawyd bod y gwaith yn gofyn am gydweithio amlasiantaethol trylwyr i gyflawni nod y gwasanaeth.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn a nodi’r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 13:10yp

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 4 MEHEFIN 2026

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**

Elwyn Jones (Cadeirydd), Beth Lawton, Menna Baines, Sian Williams, Meryl Roberts, Einir Williams, Rheinallt Puw, Angela Russell, Linda Morgan.

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Dewi Jones (Cadeirydd y Panel).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**

Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9:**

Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Adran Plant a Theuluoedd), Sharron Williams – Carter (Pennaeth Adran Plant a Theuluoedd), Aled Gibbard, Stephanie Dabernig a Sianed Jones (Penaethiaid Cynorthwyol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 10:**

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Sophie Tyne Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol), Alun Gwilym Williams (Pennaeth Cynorthwyol Busnes).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 11:**

Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Adran Tai ac Eiddo), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Hedd Tomos a Lowri Cadwaladr Roberts (Penaethiaid Cynorthwyol), Sion Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elwyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2026/27.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Sian Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2026/27.

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr: Elin Walker Jones, Geraint Wyn Parry, Jina Gwyrfai, Gareth Coj Parry, Anwen J. Davies, Beca Roberts, Berwyn Parry-Jones, Gwynfor Owen.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

6. **COFNODION**

   Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2026 fel rhai cywir.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DIOGELU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Panel. Amlygwyd ganddo bwysigrwydd gwaith y Panel a chydnabuwyd y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn heriol o safbwynt diogelu. Nodwyd pwysigrwydd bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau craffu digonol o holl weithdrefnau'r Cyngor yn ogystal.

Cyfeiriwyd at yr ystadegau a gaiff eu nodi ar dudalen gyntaf yr Adroddiad, ac ymfalchïwyd yn y cynnydd yn nifer o'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu a'r ganran o ysgolion sydd wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu i'r holl staff. Adnabuwyd yn ogystal bod cynnydd sylweddol i'w weld yn nifer y cyfeiriadau i wasanaethau plant. Soniwyd am ymgais staff y gwasanaeth i gyrraedd targedau yn amserol gan roi sylw i bob achos, ond bod y cynnydd cenedlaethol o'r math hwn yn rhoi straen ar adnoddau.

Amlygwyd bod mwy o staff wedi cymhwyso i allu cynnal asesiadau DoLS (Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid) erbyn hyn, a holwyd tybed pryd fydd modd gweld lleihad yn y niferoedd sy'n disgwyl am asesiadau o ganlyniad. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod arian ychwanegol wedi ei dderbyn y llynedd er mwyn mynd i'r afael â'r rhestr aros am asesiad DoLS. Soniwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i recriwtio swyddogion cymwys, er y trafferthion a gafwyd wrth geisio gwneud hynny, ac felly bod y ffigyrau yn dechrau lleihau o ganlyniad. Ymhelaethwyd ar hyn gan grybwyll dyfarniad diweddar y Goruchaf Lys yn erbyn achos adnabyddus yn y maes gofal. Er bod y canllawiau ynghylch y penderfyniad hwn eto i gael eu datblygu, mynegwyd balchder am y penderfyniad gan ragweld y bydd yn newid arfer yn ogystal â'r disgwyliadau sydd ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes aelod allanol yn rhan o aelodaeth y Panel, a gofynnwyd a yw'r aelodaeth yn ddigon cadarn o ganlyniad. Pwysleisiwyd bod ystyriaeth wedi ei roi i hyn ac i gylch gorchwyl y Panel, ond amlygwyd mai Panel strategol mewnol ydyw er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud ei waith yn gywir. Er nad oes aelodau allanol yn rhan o'r Panel hwn, mae dod a'r adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu yn rhoi cyfle i'r aelodau herio a chynnig barn ar waith y Panel. Cynigiwyd y dylai'r Cyngor allu bodloni ei hun ei fod yn gallu craffu'n fewnol ar ei waith. Cyfeiriwyd at rôl y Bwrdd Ymateb a Chadeirydd Annibynnol y Bwrdd wrth graffu ar waith y Cyngor yn ogystal. Cydnabuwyd na all y Bwrdd hwn barhau am byth, ond nodwyd bod pobl o gyrff allanol yn edrych ar waith y Cyngor yn aml. Er mai Panel mewnol ydyw, cefnogwyd edrych yn fanylach ar rôl posib i aelodau allanol fel rhan o'r Panel hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â faint o'r rheiny ar y rhestr aros DoLS sy'n aros am asesiad cyntaf a faint sy'n aros am ail asesiad, nodwyd bod y gwasanaeth wedi bod yn blaenoriaethu o ran risg o ganlyniad i bwysau'r rhestr aros. Wrth drafod y pwysau sydd ar staff yn y maes hwn, manylwyd bod trosiant staff a demograffeg Gwynedd yn heriol. Tynnwyd sylw at y niferoedd amrywiol sy'n ymgeisio am rolau hyfforddai yn ogystal. Ategwyd bod y niferoedd cynyddol o gyfeiriadau sy'n cyrraedd yr adran blant yn rhoi pwysau sylweddol ar yr Adran, ar adnoddau, ac ar yr holl weithdrefnau diogelu a chefnogi plant. Cadarnhawyd bod arian ychwanegol wedi ei dderbyn er mwyn buddsoddi mewn creu swyddi i gynorthwyo â'r pwysau hwn. Ychwanegwyd bod recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys yn profi'n heriol, ac felly bod gwaith i'w wneud o ran cynllunio'r gweithlu i sicrhau parhad. Nodwyd bod nifer o'r swyddi hyn yn ymwneud â'r maes Rhan 5 a'r maes diogelu'n gyffredinol, er mwyn gallu mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a'u hadnabuwyd gan adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Manylwyd ymhellach ar swydd sydd wedi ei chreu, gan nodi mai rhai o brif gyfrifoldebau'r swyddog fydd arwain ar gadeirio cyfarfodydd Rhan 5 ac arwain ar waith y fframwaith sicrwydd ansawdd ar draws yr Adran Blant.

Aethpwyd ymlaen i drafod y nifer cynyddol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, a holwyd am y sefyllfa o ran sicrhau bod dim risg i'r plant hyn. Datganwyd bod gan rieni hawl i dynnu plentyn o'r ysgol neu beidio anfon eu plentyn i'r ysgol. Esboniwyd bod swyddogion yn monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y plentyn, ond heblaw bod pryder diogelu, mae hawl gan riant i wrthod y monitro hwn. Mynegwyd pryder o ran y diffyg hawliau sydd gan y Cyngor yn y maes hwn. Ychwanegwyd bod y cynnydd yn y niferoedd a gaiff eu haddysgu gartref i'w weld yn genedlaethol yn ogystal, a chadarnhawyd ei fod yn un o fesuryddion herio perfformiad yr Adran

Addysg. Adnabuwyd bod amryw o deuluoedd yn gwneud gwaith arbennig wrth addysgu eu plant gartref, ond pryderwyd nad yw hynny'n wir ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn addysg gartref. Cydnabuwyd bod rhai rhieni'n credu nad yw eu plentyn yn derbyn cefnogaeth ddigonol mewn ysgolion, ac felly eu bod yn penderfynu tynnu'r plentyn allan o'r ysgol. Adnabuwyd yr heriau ariannol sy'n golygu efallai nad yw ysgolion yn gallu cyrraedd disgwyliadau o ran rhoi'r gefnogaeth orau i bob plentyn ym mhob achlysur. Gobeithiwyd y gall y Llywodraeth newydd ddatblygu datrysiadau i'r heriau hyn sy'n wynebu awdurdodau addysg.

Mewn ymateb i gwestiwn am ystod oedran y plant hynny a gaiff eu haddysgu gartref, cadarnhawyd bod rhai plant yn penderfynu dad gofrestru a gadael yr ysgol ac eraill byth yn dechrau mynychu'r ysgol yn y lle cyntaf. Yn ogystal, eglurwyd bod Gwynedd wedi bod yn rhan o gynllun peilot er mwyn dod i ddeall mwy am sefyllfaoedd y plant hynny sydd ddim mewn wedi eu cofrestru mewn ysgol. Manylwyd ar y cyngor a'r gefnogaeth a gaiff ei gynnig i'r rheiny sy'n dewis addysgu eu plant gartref, gan nodi bod swyddogion ar gael i gefnogi ac y cynhelir sesiynau a gweithgareddau ar bynciau penodol i'r plant yn ogystal. Pwysleisiwyd mai cynnig yw'r ddarpariaeth hon ac nad oes gan y Cyngor hawl i'w orfodi ar neb. Aethpwyd ymlaen i nodi mai 124 plentyn sydd yn newydd ar y gofrestr addysg gartref ers mis Medi 2025.

Cwestiynwyd a yw'r Panel yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Bwrdd Ymateb. Cadarnhawyd bod Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd yn adrodd i'r Cabinet bob chwarter ar gynnydd y Bwrdd, a'i bod wedi amlygu ei bodlonrwydd gyda'r cynnydd hwn wrth adrodd yn ôl. Sicrhawyd bod swyddog gwahanol yn arwain ar waith pob ffrwd, a chânt eu herio am gynnydd amserol y ffrwd honno. Diolchwyd am y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn yn ogystal. Mynegwyd balchder o'r cynnydd a gaiff ei wneud gan y Bwrdd, gan nodi bod sylwedyddion annibynnol a Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bodlonrwydd â'r cynnydd hwn yn ogystal.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod 4 person ifanc yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn lleoliad heb gofrestriad, a holwyd sut y mae'r Cyngor yn sicrhau diogelwch yr unigolion hyn. Cydnabuwyd bod diffyg lleoliadau cofrestredig yn genedlaethol, a nodwyd bod dau o'r unigolion mewn lleoliadau sydd yn y broses o gael eu cofrestru ar hyn o bryd. Sicrhawyd bod y cwmnïau sy'n cael eu llogi i ddarparu gofal yn rai cenedlaethol, ac felly yn destun i'r prosesau a threfniadau diogelwch angenrheidiol. Ychwanegwyd bod yr holl brosesau diogelu eraill yn digwydd yn unfath ac y byddai mewn lleoliadau cofrestredig. Crybwyllwyd yr angen am gynllun digonolrwydd a'r angen i ystyried beth yn union yw anghenion yr Awdurdod. Datgelwyd yn ogystal bod enghreifftiau o leoliadau'n gwrthod plant gan na fyddai'n bosib iddynt ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw. Esboniwyd bod dim cynnydd yn y niferoedd sydd mewn lleoliad heb gofrestriad yn y blynyddoedd diwethaf. Pwysleisiwyd nad yw'r Cyngor eisiau i unrhyw blentyn fod mewn lleoliad sydd heb ei gofrestru felly bod gwaith cynllunio yn mynd rhagddo er mwyn gweld sut y mae sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael ei ddiwallu, a bod digon o leoliadau dielw yng Ngwynedd.

Adnabuwyd bod cyd-weithio cryf rhwng y Cyngor â'r Heddlu yn gyffredinol, ac amlygwyd bod swyddogion o'r Heddlu hefyd yn aelodau o rai o bwyllgorau'r Cyngor. Datganwyd bod cytundeb drafft yn cael ei datblygu yn dilyn yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, er mwyn edrych ar sut y bydd posib secondio staff ar draws y sefydliadau pe byddai ymchwiliadau mawr yn y dyfodol. Nodwyd bod cyd-weithio cyffredinol da rhwng y Cyngor â'r Bwrdd Iechyd, ond y gall gwaith cynllunio strategol,

er enghraifft, fod yn heriol ar adegau. Soniwyd bod lle i gryfhau cyd-weithio mewnol rhyngadrannol yn ogystal.

Datganwyd bod gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn gweld a yw'r gwasanaethau trais domestig yn gydlynol ac yn gweithio'n dda, ac asesu unrhyw ffordd well o gyflawni. Gan fod rôl Comisiynydd yr Heddlu yn dod i ben mewn rhai blynyddoedd, eglurwyd bod ymgynghoriad ar y gweill gan y Llywodraeth er mwyn edrych ar sut i sicrhau'r gwasanaethau hyn, a'r system fydd mewn lle ar draws Cymru wrth fynd ymlaen. Gobeithiwyd y caiff yr arian a oedd yn flaenorol yn cael ei roi i Gomisiynydd yr Heddlu ei ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol, fel bod modd creu pecyn cyflawn o'r gwasanaethau hyn mewn un lle.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn a nodi'r adroddiad.

## 8. ADOLYGIAD POLISI DIOGELU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Panel Diogelu Strategol.

Eglurwyd y caiff y Polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd, a'i fod felly yn gyfle i'w ddiweddaru yn sgil derbyn adborth. Amlygwyd y bydd y Polisi hefyd yn mynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor Llawn maes o law, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i gael craffu ar y Polisi.

Croesawyd yr adolygiad hwn, a gofynnwyd a fydd y Polisi yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cadarnhawyd y caiff ei roi ar y wefan ac aethpwyd ymlaen i egluro bod Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei adolygu, a bod bwriad i'w hyrwyddo yn ogystal. Ychwanegwyd y bydd cytundebau caffael y Cyngor, sydd wedi eu diweddaru'n ddiweddar, hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y Polisi Diogelu hwn. Ategwyd bod rôl hyrwyddo diogelu bellach yn weithredol o fewn y Cyngor, a bod gwaith hyrwyddo diogelu eang yn digwydd o fewn y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â monitro cydymffurfiaeth â'r Polisi, pwysleisiwyd yr awydd i sicrhau ymwybyddiaeth y gweithlu o'r Polisi hwn a'r camau i'w cymryd pe byddai unrhyw bryder diogelu ganddynt. Datgelwyd y bydd Archwilio Mewnol y Cyngor yn mynd ati i drafod â'r gweithlu ynglŷn â'u dealltwriaeth o'r Polisi a'r drefn ddiogelu briodol y dylid ei dilyn. Esboniwyd y caiff cyfrifoldebau unigolion eu hamlygu ynddo, a chaiff ei bwysleisio bod diogelu yn fater allweddol ym mhob adran. Nodwyd bod diogelu yn flaenoriaeth gorfforaethol a'i fod yn hanfodol iddo gael ei ymgorffori i holl systemau'r Cyngor.

Cynigiwyd y dylid symud y rhestr Diffiniadau a gaiff ei gynnwys yn 2.1 a 2.2 o'r adroddiad i dudalen gyntaf y ddogfen, fel eu bod yn glir i bawb. Cytunwyd y dylid mireinio'r Polisi i gynnwys yr argymhelliad hwn.

Nid oes gan bob aelod o weithlu'r Cyngor fynediad at liniadur er mwyn cwblhau hyfforddiant, felly cyfeiriwyd at y gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu yn cyrraedd pob rhan o'r gweithlu mewn modd gwahanol.

Yn sgil yr heriau sy'n deillio o'r cynnydd mewn cam-feithrin a bwlio ar lein, trafodwyd y dylid ystyried cynnwys cymal o fewn y Polisi sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r arwyddion bod plentyn yn cael ei gam-feithrin neu fwlio ar lein.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad ac argymell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r polisi diwygiedig.
2. Gofyn i symud y rhestr Diffiniadau yn 2.1 a 2.2 i dudalen gyntaf y ddogfen.
3. Gofyn am ystyried cynnwys cymal o fewn y Polisi sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r arwyddion bod plentyn yn cael ei gamfeithrin neu fwlio ar lein.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd.

Adroddwyd gan yr Aelod Cabinet ei bod yn fodlon gyda gwaith yr Adran yn gyffredinol. Cadarnhawyd bod cynnydd cadarnhaol yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r ddau brif brosiect yr Adran, sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.
Crybwyllwyd effaith cadarnhaol y Cynllun Awtistiaeth a chyfeiriwyd at rai o'r risgiau sy'n wynebu'r Cynllun, yn benodol, cyllid y Cynllun a'r rhestr aros.
Soniwyd am ddatblygiad y ddarpariaeth breswyl, gyda chynnydd wedi ei wneud drwy ddod a chartrefi yn weithredol a chartrefi eraill ar fin dod yn weithredol, yn ddibynnol ar gofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru.
Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw ar y gwasanaethau hyn, a'r pwysau ychwanegol sydd ar staff o ganlyniad. Mynegwyd balchder bod arian ychwanegol wedi ei ddenu drwy fidiau, a fydd yn galluogi'r Adran i gryfhau'r gweithlu a'r gwasanaethau a gaiff eu darparu, a chynnig cefnogaeth well i'r plant.
Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Adran yn cyd-weithio â'r Adran Addysg er mwyn ymateb i argymhellion yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac adnabuwyd bod cyllid ychwanegol wedi'i glustnodi i gynorthwyo â'r gwaith hwn.
Cynhaliwyd arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn ym mis Tachwedd y llynedd, a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu. Eglurwyd bod gwaith cadarnhaol wedi ei gyflawni ond bod rhai meysydd angen sylw; nodwyd bod gwaith bellach yn mynd rhagddo i ymateb i'r canfyddiadau hyn.

Cwestiynwyd a oes rheswm y tu ôl i'r cynnydd yn nifer y cyfeiriadau. Mewn ymateb, amlygwyd bod hynny yn heriol i'w ateb oherwydd caiff y cyfeiriadau hyn eu gwneud o amryw o lefydd gwahanol, megis yr Heddlu, ac asiantaethau Addysg neu Iechyd. Esboniwyd bod y cynnydd hwn er gwaethaf ymdrechion ymyrraeth gynamserol, lle bu hynny'n bosib. Crybwyllwyd yr her o ddiffyg cyfeirio amserol gan asiantaethau eraill a

olygai bod cyfleoedd ataliol yn cael eu colli, ac felly bod nifer o'r plant hynny sy'n cyrraedd yr Adran yn mynd i ofal.

Soniwyd am y ffaith bod yr Adran wedi methu a dod o hyd i leoliad i gynnig darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan yn ne'r Sir, a holwyd a oes bwriad i ddal i chwilio am leoliad addas yn yr un ardal. Cadarnhawyd bod angen darpariaeth o'r fath ym Meirionnydd, ond ar y funud, does dim lleoliad addas wedi dod i law. Ehangwyd ar hyn gan nodi ei bod wedi profi'n heriol i ddod o hyd i leoliad addas sy'n cyd-fynd â gofynion AGC yn yr ardal. Ychwanegwyd mai canran fechan o'r plant sy'n mynd i ofal preswyl sydd o'r ardal hynny, ond ar adegau mae cael pellter rhwng cyfeiriad cartref yn fuddiol. Bwriadwyd parhau i chwilio am leoliad addas, gan gynnig y dylid symud y chwilio i ogledd Meirionnydd. Nodwyd mai amserlenni grant sy'n rhwystr rhag adeiladu tŷ addas, gan fod rhaid i arian grant gael ei wario o fewn amserlen benodol.

Adnabuwyd y galw cynyddol sydd am waith y Cynllun Awtistiaeth, gan bryderu am ei ddyfodol yn sgil ansicrwydd cyllidol. Nodwyd bod llythyr wedi ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau cyllid, ond cadarnhawyd bod yr Adran yn edrych ar ffyrdd eraill o'i ariannu pe na fyddai modd sicrhau'r cyllid hwn. Esboniwyd bod datblygu ar y gwasanaeth hwn yn hanfodol.

Wrth gadarnhau bod yr heriau recriwtio sy'n wynebu'r Sir i'w gweld yn genedlaethol yn ogystal, nodwyd bod Gwynedd mewn lle da o'i gymharu â siroedd eraill.
Trafodwyd sut y bwriedir gwella'r berthynas rhwng yr Adran Blant â'r Adran Addysg, gan adnabod bod sgyrsiau agored am gael eu cynnal i drafod y ffordd orau ymlaen. Ehangwyd ar hyn gan nodi bod aelod o'r Tîm Lles Diogelu Addysg yn mynychu cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Adran Blant yn gyson, er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth rhwng yr adrannau am flaenoriaethau a chyfrifoldebau. Yn ogystal, nodwyd bod rôl wrthi'n cael ei datblygu a fydd yn pontio'r ddwy adran.

Gofynnwyd am wybodaeth o ran y trafferthion i ddarganfod llety addas i'r rheiny sy'n 16+. Datganwyd bod dod o hyd i lety addas yn her, gan fod nifer yr achosion yn uchel iawn. Adnabuwyd yr asesiad ar y cyd gyda'r Adran Dai pan fu unigolyn 16/17 oed yn cyflwyno'n ddigartref fel un o'r heriau mwyaf, gyda galw yn uchel a phrinder dewisiadau lleoliad ar gyfer yr oed hwn. Datgelwyd bod cytundebau gyda GISDA a Thai Gogledd Cymru i fod yn darparu llety, sy'n gwella'r ddarpariaeth. Ychwanegwyd y bydd dadansoddiad ar y cyd gyda'r Adran Dai yn cael ei gynnal, er mwyn gweld sut mae posib gweithio drwy'r heriau i ddatblygu dewisiadau gwell.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad a nodi'r sylwadau

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Amlygwyd bod yr Adran yn gweithio ar Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028, a bod yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o'r 6 prif brosiect hyn. Soniwyd bod yr adroddiad hefyd

yn trafod gwaith dydd i ddydd yr Adran, a'r sefyllfa gyllidol. Ymfalchïwyd ym mhrif lwyddiannau'r adran, gan restru rhai ohonynt:

- Cynnydd mewn darpariaeth gofal o fewn y Sir
- Dau dŷ newydd ar gyfer unigolion gyda ADY wedi agor yn Harlech a Penrhyndeudraeth, gyda gwaith yn symud ymlaen ym Mhenyberth.
- Defnydd cynyddol o dechnoleg a theleofal i alluogi pobl fwy yn annibynnol.
- Cynnydd yn y nifer o asesiadau cymdeithasol a lleihad yn y rhestr therapi galwedigaethol.
- Dementia Actif yn llwyddiannus iawn, gyda gofalwyr hefyd yn cymryd rhan.
- Cyfradd llenwi gwelyau mewn cartrefi mewnol wedi cynyddu'n ôl i 87%.
- Rhestr aros Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS) yn lleihau gyda swyddogion newydd wedi cymhwyso.
- Rhagolygon diffyg cyllidebol gwreiddiol wedi gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond bod pwysau ar wasanaethau'r Adran yn parhau.

Symudwyd ymlaen i drafod rhai o'r pryderon, gan gyfeirio'n benodol at y galw uchel sydd am ofal cartref, gyda heriau recriwtio yn parhau. Nodwyd yr awydd am waith i wella'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl, gan gydnabod eu cyfraniadau gwerthfawr.

Adnabuwyd bod diffyg cyllideb yr Adran yn £1.4miliwn am y flwyddyn, a bod toriadau gwerth £1.5miliwn wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Adroddwyd bod y pwysau ar y gwasanaethau darparu yn gyfrifol am £1m o'r pwysau adrannol, sy'n bennaf ar orwariant staff a defnydd o staff asiantaeth o fewn gofal preswyl. Pwysleisiwyd bod rhaid i'r Adran ddarparu ar gyfer y bobl sydd angen y gwasanaethau, ac felly nad arian sy'n gyrru'r gwasanaethau hyn. Pryderwyd am y rhestrau aros o safbwynt ariannol, a'r cynnydd yn yr angen. Cyfeiriwyd at yr ansicrwydd sydd o ran yr arian RIF sy'n allweddol i'r modd y caiff y gwasanaethau hyn eu hariannu, a soniwyd am y risg o ran yr arbedion sydd eto i'w cyflawni yn ogystal.

Croesawyd llwyddiannau'r Adran gan gadarnhau bod ymwybyddiaeth o'r tan gyllido sy'n eu wynebu. Eglurwyd nad oes posib dweud a fydd yr arian ychwanegol a dderbyniwyd eleni yn gwella sefyllfa'r Adran, oherwydd nad oes modd rhagweld pa bwysau ychwanegol neu achosion cymhleth sydd am gyrraedd yr Adran.
Manylwyd bod oddeutu £6miliwn o arian RIF yn dod i Wynedd, gan nodi bod yr arian hwn ar gyfer Oedolion a Phlant yn ogystal.

Er bod gofal cartref yn cael ei ail strwythuro, sylwyd bod y ffigyrau yn dal i gynyddu. Mewn ymateb i hyn, eglurwyd bod cymhlethdod achosion yn cynyddu, ac er y bydd y tai gofal ychwanegol yn cynorthwyo â hyn, bydd angen amser i allu gweld y newid. Adroddwyd bod yr Adran yn delio â newidiadau parhaus, a bod gwaith adolygu yn mynd rhagddo er mwyn edrych ar yr opsiynau wrth fynd ymlaen. Cynigiwyd y byddai modd blaen graffu'r maes hwn pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi. Ychwanegwyd ei fod yn faes lle mae problemau yn ddynamig ac yn symud o ardal i ardal, megis heriau staffio neu ddarparwr yn methu.

Soniwyd am heriau staffio mewn perthynas â'r rhestrau aros hyn. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio gyda mudiad *Community Catalyst* i gefnogi pobl sy'n awyddus i ddatblygu mentrau gofal bach eu hunain, er mwyn cynorthwyo gyda'r pwysau. Er bod y cytundeb hwn wedi dod i ben erbyn hyn, datganwyd bod y gwaith

yn cael ei wneud yn fewnol bellach, gydag arweinydd wedi ei benodi mewn perthynas â'r gwaith.
Trafodwyd y ganran o'r gwlâu preswyl sy'n cael eu defnyddio yng nghartrefi gofal y Sir, gan nodi ei fod yn ganran isel. Mewn ymateb, eglurwyd bod awydd i gynyddu'r ffigwr eto, ond crybwyllwyd y nifer o'r ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd hwn megis gwaith uwchraddio ac ail gofrestru, a chyfrannau staffio. Pryderwyd bod y gwaith uwchraddio yn cymryd amser hir i'w gwblhau, a chwestiynwyd a oes posib iddo gael ei flaenoriaethu'n well fel bod modd cael defnydd o'r gwlâu. Cytunwyd â'r pryder hwn, gan sicrhau y bydd camau'n cael eu cymryd i geisio gwneud y system yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Cyfeiriwyd at ganfyddiadau adroddiad Llechen Lân - bod cynnydd yn y galw am wasanaeth ond dim digon o weithlu i ymateb i hynny. Ategwyd bod yr heriau staffio hyn yn gyfuniad o nifer o ffactorau eang. Aethpwyd ymlaen i nodi bod Gwynedd yn fwy tebygol o roi pobl mewn cartrefi henoed neu nyrsio na siroedd eraill, felly y dylid cwestiynu a yw hyn yn beth da ynteu yn cymryd annibyniaeth pobl yn gyn amserol, sy'n llenwi nifer o leoliadau heb angen.
Cydnabuwyd bod angen newid o fewn y system i hybu annibyniaeth ac er mwyn galluogi gweithredu gwell a chyflymach.

Holwyd am y sefyllfa o ran swyddi gwag o fewn y gwasanaeth, a chynhigiwyd y dylai cynghorwyr fod yn hyrwyddo'r swyddi hyn drwy eu platfformau ar gyfryngau cymdeithasol. Nodwyd bod nifer o swyddi yn cael eu hysbysebu ar y funud, ond er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhestrau aros a'r galw cynyddol, y byddai angen recriwtio llawer mwy na hynny. Adnabuwyd bod nifer uchel o wlâu gwag mewn rhai cartrefi yn ganlyniad i ddiffyg lefelau staffio digonol. Er mwyn mynd i'r afael â hynny, byddai angen mwy o gyllideb er mwyn gallu recriwtio mwy o staff.

Pryderwyd am y diffyg gwlâu nyrsio ym Mhen Llyn a'r diffyg gwlâu mewn ysbytai, gan grybwyll y straen a gaiff ei roi ar ofalwyr di-dâl yn ogystal.
Gobeithiwyd am sicrwydd o ran amserlen gwaith safle Penrhos cyn gynted a phosib. Amlygwyd gan Aelod bod cyflogau isel o fewn y sector ofal yn un o'r rhesymau nad oes posib llenwi'r swyddi hyn. Nodwyd bod pethau'n symud yn eu blaen yn dda o ran y cartref nyrsio ym Mhenrhos, a chadarnhawyd gan yr Aelod Cabinet ei fod yn rhan o drafodaethau rhanbarthol o ran gofalwyr di-dal, a thegwch cyflogau ac amodau gwaith staff yn y maes gofal.

Mewn ymateb i gwestiwn am fesur ansawdd y gofal a ddarperir, cadarnhawyd bod yr Adran yn trafod yn aml â'r rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth ac yn holi trigolion am yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy o ran darpariaeth. Ehangwyd ar hyn gan nodi bod Tîm Sicrwydd Ansawdd yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir gan ddarparwyr a holi pobl am y gwasanaeth hwnnw.

Sylwyd bod amrywiaeth yn anghenion y rheiny sydd ar y rhestr aros am ofal cartref, gyda nifer o unigolion ar y rhestr ond nad ydynt yn barod am ofal am resymau megis bod eu heiddo yn anaddas. Soniwyd y bydd y ffigyrau hyn yn destun dadansoddiad manylach er mwyn dod i'w deall yn well. Nodwyd mai oddeutu hanner yr unigolion sydd ar y rhestr aros sy'n barod am ofal ar hyn o bryd, felly fod y ffigyrau ychydig yn gam arweiniol.

Gofynnwyd sut y caiff y bobl sy'n disgwyl am y pecynnau gofal hyn eu cefnogi yn y cyfamser. Mewn ymateb, eglurwyd bod technoleg benodol sy'n cynnig cymorth i'r

unigolion hynny, ond bod angen datblygu pecyn i'w gynnig tra maent yn disgwyl am ofal. Y flaenoriaeth yw diogelwch yr unigolion wrth iddynt ddisgwyl, ac ychwanegwyd y dylid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r rhestr aros. Yn ogystal, amlygwyd bod rhai o'r rheiny sydd ar y rhestr aros yn unigolion sy'n derbyn gofal yn barod ond yn awyddus i newid amser y gofal, ond efallai nad yw'r cwmni sy'n darparu'r gofal yn gallu darparu yn ystod yr amser hwnnw.

Mynegwyd balchder bod nifer cynyddol yn cymryd mantais o'r gwasanaeth Dementia Actif, gan holi am y ddarpariaeth sydd ar gael a natur y gweithgareddau a gaiff eu cynnal yn y sesiynau. Cadarnhawyd y caiff y sesiynau eu darparu mewn amrywiol leoliadau ar draws y sir, a disgrifiwyd y nifer o weithgareddau hwyliog a'r gwaith symudedd a gaiff eu cynnal yn y sesiynau hyn. Datgelwyd bod grŵp i ddynion wedi cychwyn yn ddiweddar, gyda nifer o'r rheiny sy'n mynychu yn ddynion ifanc sy'n dechrau dangos symptomau o ddementia. Canmolwyd y gwaith mae'r tîm o 5 yn ei wneud, ond adroddwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddo am y ffordd ymlaen gan fod y cyllid sy'n ariannu gwaith y tîm yn dod i ben y flwyddyn nesaf. Gobeithiwyd y bydd modd datblygu ar waith y tîm er mwyn bod yn fesur ataliol i bobl sy'n dechrau dangos symptomau yn ogystal.

Sicrhawyd y bydd yn Pwyllgor yn rhan o'r gweithredu yn dilyn adroddiad *Housing LIN,* a fydd yn amlinellu'r galw am lety gofal. Nodwyd bod y canfyddiadau yn debygol o fod yn heriol ac o awgrymu bod angen nifer eiddo arbenigol i bobl hŷn ar draws y sir.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad a nodi'r sylwadau

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD TAI AC EIDDO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cynnwys adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r addewidion o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28, yn ogystal â gwaith dydd i ddydd yr Adran. Datganwyd bod y pwnc 'ymdrin ag argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd' wedi ei dynnu o Gynllun y Cyngor, a hynny oherwydd bod y tîm ynni bellach wedi ei sefydlu a bod gwaith yn mynd rhagddo i roi cyngor a chefnogaeth i drigolion.

Ymfalchïwyd bod y garreg filltir o adeiladau 500 o dai cymdeithasol wedi ei chyrraedd, ond er hyn, pryderwyd bod gwrthwynebiad wedi bod i godi tai cymdeithasol mewn ardal benodol o fewn y sir, gyda rhai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn mynd yn groes i argymhellion swyddogion. Adroddwyd bod hyn yn achosi oedi a chostau di-angen, ac yn ei gwneud yn heriol i ddiwallu'r angen am dai cymdeithasol.
Amlygwyd bod y cynnydd yn yr allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor yn bryder. Nodwyd bod rhai o'r offer a ddefnyddiwyd yn flaenorol i adrodd ar hyn yn ddiffygiol, ac felly bod tan-adrodd wedi bod yn y gorffennol.
Aethpwyd ymlaen i adnabod mai'r brif risg i'r Adran yw'r ffaith nad oes modd sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Ychwanegwyd bod yr Adran yn gweithio'n galed i geisio mynd i'r afael â'r broblem.

Yn ogystal, mynegwyd balchder bod yr Adran wedi llwyddo i gadw o fewn ei chyllideb eto y llynedd.

Cwestiynwyd pam bod ceisiadau i ddatblygu tai cymdeithasol yn cael eu gwrthod, gan bwysleisio bod galw mawr am dai un neu ddwy lofft. Pryderwyd yn ogystal am y nifer o adeiladau'r Cyngor sydd allan o ddefnydd a holwyd pe bai modd defnyddio'r adeiladau hyn er mwyn creu fflatiau er enghraifft. Canmolwyd gwaith yr Adran ond datganwyd pryder pellach am y nifer uchel o bobl sy'n ddigartref yn y sir, a'r ffigwr o dai gwag yng Ngwynedd.
Wrth gyfeirio at y pryder am geisiadau cynllunio yn cael eu gwrthod, nodwyd bod y targed o 500 o dai cymdeithasol wedi ei gyrraedd serch hyn. Cynigiwyd efallai y caiff y ceisiadau hyn eu gwrthod oherwydd y camsyniad o ddiffyg angen mewn ardaloedd penodol. Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych yn gyson ar eiddo gwag y Cyngor, gan waredu eiddo di angen a chwilio am safleoedd mwy addas ar gyfer nifer o'r cynlluniau sydd ar waith. Adnabuwyd nad yw'r niferoedd sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol yn disgyn, er yr holl waith sy'n cael ei wneud, a hynny oherwydd y galw yn uchel iawn.
Datgelwyd bod y cynllun tai gwag yn llwyddiannus, gan ychwanegu fod 145 o dai wedi dod yn ôl i ddefnydd a dros 200 o bobl wedi elwa o hynny. Adroddwyd bod mwy o swyddogion tai gwag wedi eu recriwtio, felly bod cynnydd pellach yn debygol o ganlyniad. Adnabuwyd amryw o eiddo gwag sydd o dan berchnogaeth y Cyngor ar draws y sir, ac er nad ydynt oll yn addas i'w datblygu, cadarnhawyd bod cynlluniau ar y gweill i ddatblygu nifer ohonynt.

Er bod cymaint o dai wedi eu hadeiladu a nifer o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd, cwestiynwyd pam nad yw'r niferoedd sydd ar y rhestr aros yn dod i lawr. Datganwyd bod mwy o bobl yn dod i mewn i'r system na sydd yn mynd allan, a phwysleisiwyd bod yr angen yn llawer uwch na'r nifer o unedau sydd ar gael i gartrefu'r bobl hyn. Nodwyd bod costau byw uchel a lefelau rent uchel yn y sector breifat yn un o'r prif resymau bod cymaint yn dod i mewn i'r system, yn ogystal â thrais a chyflyrau iechyd meddwl.

Esboniwyd nad yw'r ceisiadau am dai cymdeithasol yn gyhoeddus, felly nad yw pobl yn sylweddoli fod cymaint ar y rhestr aros. Adroddwyd bod 97% o bob gosodiad sy'n mynd drwy bolisi gosod y Sir yn cael eu rhoi i bobl sydd â chysylltiad lleol i Wynedd, a chaiff y diffiniad o 'lleol' ei gynnwys yn y polisi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ffordd y caiff y nifer sydd ar y rhestr eu cyfri, cadarnhawyd mai unwaith mae cais yn cael ei gyfri waeth faint o ardaloedd sydd wedi ei nodi yn y cais hwnnw fel llefydd yr hoffai fyw ynddynt. Soniwyd os yw un cais yn nodi dwy ardal i fyw ynddynt, y byddai'n ymddangos ar restr y ddwy ardal, ond nad yw hynny'n newid y nifer ceisiadau sydd yn gyfan gwbl. Nodwyd bod y data am y nifer ceisiadau fesul ardal ar gael.
Sicrhawyd bod y tai newydd a gaiff eu hadeiladu yn cyfateb i'r math o dai y mae galw amdanynt, yn ogystal â lleoliadau.
Holwyd am y resymeg y tu ôl i benderfynu pa unedau a gaiff eu prynu ac yn lle mae hynny. Mewn ymateb, amlygwyd mai swyddogion yr Adran sy'n penderfynu hyn drwy ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys yr angen, ac addasrwydd y tŷ i gyrraedd y safonau angenrheidiol. Diolchwyd i'r Cynghorwyr hynny sy'n dod a tai i sylw'r Adran, gan ategu y cânt eu pasio ymlaen i'r swyddog sy'n cynnal yr asesiadau yn erbyn y meini prawf angenrheidiol.

Atebwyd sylwad am y ffaith fod cymdeithasau tai yn cymryd amser hir i ail osod tai gwag gan amlygu rhwystredigaeth, a hynny oherwydd bod cymaint ar y rhestr yn disgwyl am dai. Cynigiwyd y dylid gofyn y cwestiwn teg hwnnw wrth y cymdeithasau tai pan fyddant yn dod gerbron y Pwyllgor hwn yn hwyrach eleni.

Adnabuwyd bod oedi wedi bod mewn rhai cynlluniau, a holwyd a yw hyn wedi costio i'r Adran. Cadarnhawyd nad oes oedi wedi bod, ond bod rhai targedau ddim wedi eu cyrraedd erbyn yr amser a obeithiwyd gan yr Adran. Ychwanegwyd nad oes cost uniongyrchol wedi deillio o beidio cyrraedd y targedau.

Mewn ymateb i gwestiwn am darged pellach yn dilyn cyrraedd 500 o dai cymdeithasol, amlygwyd bod bwriad o adeiladu 200 uned ychwanegol erbyn diwedd y Cynllun Gweithredu Tai yn 2028/29. Tynnwyd sylw at yr effaith y caiff gwrthod ceisiadau cynllunio ar y targedau hyn, yn ogystal â'r gofrestr aros.

Holwyd am y rhwystrau sy'n wynebu'r Adran wrth geisio prynu mwy o eiddo er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar lety argyfwng. Esboniwyd bod cost, lleoliad ac anaddasrwydd yn ffactorau yma, gan ychwanegu y bydd yr eiddo sydd wedi eu prynu ym Mangor a Chaernarfon yn arbed swm sylweddol o gostau.

Gofynnwyd a oes unrhyw gynlluniau pellach i drosi adeilad mawr yn fflatiau, gan nodi fod hyn yn ffordd lai costus ymlaen. Cyfeiriwyd at amryw o eiddo ym Mangor ac yng Nghaernarfon sydd wedi eu prynu a'u trosi'n fflatiau, a chadarnhawyd bod cynlluniau pellach ar draws y Sir i ddatblygu mwy o adeiladau fel hyn.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad a nodi'r sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben 3:00yp.

---------------------------------------------------------------------

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Gwasanaethau Gofal Dydd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| **AWDUR** | Sian Edith Williams Jones<br>(Pennaeth Cynorthwyol Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol a Synhwyraidd, Oedolion Iechyd a Llesiant) |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2023 craffwyd adolygiad gwasanaeth gofal dydd a gofynnwyd am adroddiad pellach ar yr adolygiad a'r model posib pan yn amserol er mwyn i'r craffwyr roi mewnbwn pellach.

Roedd yr eitem wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod Mawrth 2026 ond bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod tan Gorffennaf 2026.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Beth yw'r gwasanaeth gofal dydd sy'n cael ddarparu ac yn lle? A oes cysondeb ar draws y sir?
- A yw'r model newydd a argymhellir yn darparu gwasanaeth gwell ac yn gweithredu yn fwy effeithlon ar draws y sir?
- Beth yw barn darpar ddefnyddwyr gwasanaeth am y model gwasanaeth newydd?
- A oes trafnidiaeth addas ar gyfer cleifion gyda dementia i fynychu gofal dydd?
- A yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o gefnogaeth ac ysbaid i ofalwyr di-dal?
- Sut mae'r berthynas gyda iechyd yn gweithio yng nghyd-destun y trefniadau newydd?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Cyflwynwyd y bwriad i adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal dydd i'r pwyllgor yma ar 23 Tachwedd 2023. Cefnogodd y pwyllgor y bwriad i gynnal adolygiad llawn o'r ddarpariaeth ac ystyried model amgen sy'n addas i'r dyfodol. Gofynnwyd i'r swyddogion sicrhau bod y model newydd yn darparu gwasanaeth cyson ar draws y sir gan gynnwys i rai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Diben yr adroddiad hwn yw i'ch diweddaru ar y gwaith, gan ymateb i'r cwestiynau uchod.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

O dan bennawd ‘Gwynedd Ofalgar’ Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28, rydym yn ymrwymo i foderneiddio ein hadnoddau gofal – gan gynnwys diweddaru ein hadnoddau cymunedol – ac yn ymrwymo i alluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired a phosib o fewn eu cymunedau’n lleol. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cefnogaeth werthfawr gofalwyr teuluol a di-dâl drwy wneud yn siwr ein bod yn gallu eu hadnabod yn rhwydd a chynnig cefnogaeth lawn iddynt wrth ofalu.

Rydym am i bobl allu byw’n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymuned, gyda mwy o ddewis a rheolaeth dros eu gofal a chefnogaeth a digon o gyfleoedd i gyfrannu’n gymdeithasol. Caiff gofal a chefnogaeth personol ei alluogi drwy asesiadau person-ganolog sy’n seiliedig ar gryfderau.


*4.1 Beth yw’r gwasanaeth gofal dydd sy’n cael ei ddarparu ac yn lle?*

Mae cynnig cymunedol eang ar gael bellach sy’n hyblyg a chymunedol eu naws:

| **Darpariaeth** | **Darparwyr** | **Yn darparu ysbaid/gefnogaeth i ofalwyr?** |
|---|---|---|
| **Unedau Gofal Dydd ‘traddodiadol’**<br>• Bryn Dysynni, Llys Cadfan, Tywyn – yn ddyddiol<br>• Plas Hedd, Bangor – tair gwaith yr wythnos<br>• Plas y Don, Pwllheli – yn ddyddiol | Cyngor Gwynedd (o dan reolaeth y cartrefi preswyl) | Ydi - ysbaid |
| **Gofal Dydd Arbenigol (Dementia)**<br>• Plas Hedd, Bangor – dwywaith yr wythnos<br>• Gwasanaeth Asesu Dydd Hafod Hedd, Bryn Beryl – dydd Llun i dydd Gwener.<br>• Gwasanaeth Asesu Dydd Uned Meirion – Ysbyty Dolgellau – dyddiau Mercher a Iau<br>• Gwasanaeth Asesu Dydd Ysbyty Tywyn – dyddiau Mawrth | Bwrdd Iechyd a’r Cyngor ar y cyd | Ydi – y ddau |
| **Gwasanaeth gofal dydd** yng nghartrefi preswyl y sir (tu allan i’r unedau pwrpasol) – ar draws y sir | Cyngor Gwynedd<br><br>Darparwyr preifat | Ydi – ysbaid |
| **Gwasanaethau gofal ysbaid/seibiant byr** mewn cartrefi preswyl – hyd at bythefnos. Ar gael ar draws y sir. | Cyngor Gwynedd | Ydi - ysbaid |
| **Gweithwyr Cefnogol Dementia** – cefnogaeth un i un i unigolion a dementia a’u gofalwyr. Ar draws y sir. | Cyngor Gwynedd | Ydi – y ddau |
| **Dementia Actif Gwynedd** – gweithgareddau corfforol a chymdeithasol i gefnogi pobl sy’n byw efo dementia a’u gofalwyr, yn ogystal a phobl hŷn yn gyffredinol sy’n elwa o ymarfer corff ysgafn a chyfleoedd i gymdeithasu. 17 o | Cyngor Gwynedd | Ydi - cefnogaeth |

| | | |
|---|---|---|
| sesiynau ledled Gwynedd gan gynnwys un newydd yng Nghricieth. Mae'r ardaloedd yn amrywio o leoedd fwy trefol i ardaloedd llai fel Sarn Mellteyrn a Fairbourne. | | |
| Darpariaethau **seibiannau byr**<br>• Gwasanaethau Eistedd<br>• Gweithgareddau un i un cefnogol | Darparwyr Gofal<br><br>Micro Ofalwyr<br><br>Asiantaethau Cefnogol | Ydi – y ddau |
| **Gweithgareddau cymdeithasol**<br>Sesiynau a gweithgareddau dydd i bobl dros 60 oed gyda dementia neu gyflwr iechyd tymor hir mewn sawl lleoliad cymunedol ar draws y sir e.e.<br>• sesiynau paned a sgwrs<br>• clybiau cinio<br>• grwpiau brodwaith neu gelf<br>• clybiau cardiau<br>• tripiau a theithiau rhithiol<br>• sgyrsiau gwadd | Hybiau lleol (a cydweithio agos gyda Dementia Actif Gwynedd)<br><br>Age Cymru<br><br>Mentrau a grwpiau cymunedol (gyda chefnogaeth gan sefydliadau fel Age Cymru) | Ydi – y ddau |

Dyma fap i geisio dangos yr uchod o safbwynt daearyddol:




Nid yw'r uchod yn cynnwys y peilot sydd ar fin dechrau yn Nolgellau a Phorthmadog. Nid yw chwaith yn bosib dangos cyfnodau seibiant byr a gofal dydd sydd ar gael ar hyd cartrefi preswyl y sir, cefnogaeth gweithwyr cefnogol dementia na darpariaethau gwasanaethau cefnogol 1:1 neu wasanaethau eistedd.

Mae’r unedau gofal dydd traddodiadol yn Nhywyn, Bangor a Phwllheli - dan reolaeth y cartrefi - yn darparu gofal a goruchwyliaeth i unigolion ag anghenion dwys. Nid ydynt yn wasanaethau drws agored; mae meini prawf penodol i fod yn gymwys - yn ddibynnol ar asesiad o anghenion.

Ar y llaw arall, mae’r datblygiadau cymunedol uchod ar hyd y sir wedi creu cyfleoedd lleol i gydweithio i ymateb i anghenion y mae’n nhw’n eu hadnabod yn lleol, gyda staff yr hybiau’n aml yn cefnogi’r ddarpariaeth drwy gymryd rhan neu gludo unigolion.

Ar hyn o bryd, mae peilot pellach yn Nolgellau a Phorthmadog i ddatblygu modelau newydd o ofal seibiant dydd, gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol gwerth tua £25,000 sydd wedi’i glustnodi i gefnogi gofalwyr di-dâl. Bwriad y peilot yw cynnig cyfleoedd cymunedol o fewn lleoliadau gofal presennol (ee cartrefi gofal), gan roi seibiant i ofalwyr a gweithgareddau cymdeithasol ystyrlon i unigolion. Mae’r model yn seiliedig ar lwyddiant Llys Cadfan, Tywyn, ac yn cael ei arwain gan Age Cymru, gyda staff y Cyngor yn darparu'r gofal angenrheidiol. Disgwylir i’r gwasanaeth ddechrau ym mis Medi, gyda mesurau penodol mewn lle i asesu buddion i unigolion a gofalwyr ac i lywio datblygiadau pellach.

Mae'r gwaith yn adeiladu ar gysylltiadau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, gan weithio gyda grwpiau pobl hŷn lleol i osgoi dyblygu ac i gryfhau cysylltiadau rhwng trigolion lleoliadau gofal a’r gymuned ehangach. Y nod yw lleihau unigrwydd a chryfhau llesiant cymunedol.

*4.2 A oes cysondeb ar draws y sir?*

Er fod y tabl uchod yn dangos bod darpariaethau ar gael ar hyd a lled y sir, mae’n deg nodi bod heriau yn amrywio o ardal i ardal, ac mae’n waith parhaus i sicrhau ein bod yn monitro a datblygu’r ddarpariaeth yn gyson i ddiwallu anghenion bob ardal. Rhaid cydnabod hefyd bod nifer o gynigion cymunedol yn ddibynnol ar gyllid grant byr dymor, sy’n gallu peri risg i gynaliadwyedd a chysondeb y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd. Drwy’r adolygiad o’r ddarpariaeth a datblygiad cynigion newydd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cysondeb ar draws y sir, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.

*4.3 A yw’r model newydd a argymhellir yn darparu gwasanaeth gwell ac yn gweithredu yn fwy effeithlon ar draws y sir?*

Rydym o’r farn fod cynigion cymunedol eang yn darparu gwasanaeth gwell a mwy effeithion am sawl rheswm:

- mwy o ddewis a rheolaeth i unigolion dros eu gofal a chefnogaeth, gan alluogi asesiadau person-ganolog a threfniadau sy’n seiliedig ar gryfderau.
- annog a chynnal annibyniaeth a chyfranogaeth gymdeithasol.
- galluogi pobl i drefnu darpariaeth o’u dewis drwy daliadau uniongyrchol.
- ymateb yn well i anghenion unigolion a chynnig mwy o amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cefnogaeth bwrpasol yn hytrach na model unffurf.

Mae ein gweithwyr cymdeithasol yn trafod beth sy’n bwysig i unigolion yn gyson fel rhan o asesiadau ac adolygiadau, ac mae’r adborth gan ddefnyddwyr a’u gofalwyr yn amrywio, gyda rhai yn ffafrio cefnogaeth wedi'i deilwra i'r unigolyn, eraill eisiau cyfleoedd i gymdeithasu mewn grwpiau a rhai yn dymuno gweld mwy o fodelau traddodiadol.

*4.4 Beth yw barn darpar ddefnyddwyr gwasanaeth am y model gwasanaeth newydd?*

Mae darn o waith ymgysylltu diweddar gyda dros 200 o bobl (darpar ddefnyddwyr gwasanaeth) ar draws ein cymunedau i ddarganfod beth yw'r rhwystrau o ran cynllunio ymlaen i fyw'n annibynnol hefyd yn cefnogi'r model. Roedd nifer o ymatebwyr yn nodi yr hoffent fwy o wasanaethau lleol a chymorth cymdeithasol i leihau unigrwydd ac yn teimlo y byddai hyn yn eu helpu i fyw'n hapus, iach ac annibynnol wrth fynd yn hŷn. Dyma rai sylwadau/themau:

- dymuniad i weld mwy o adnoddau cymdeithasol i annog cadw'n heini a heneiddio'n iach gan fwynhau gweithgareddau lleol, gyda sawl ymatebydd yn nodi'r angen i ddod a grwpiau oedran gwahanol ynghyd fel bod pawb yn cyfrannu
- eisiau mwy o adnoddau fel 'allotments' a llefydd gwyrdd a phethau llai traddodiadol fel dysgu ieithoedd, trafod ffilmiau neu ymarfer tai chi
- eisiau gweld canolfannau i annog cymdeithasu a chlybiau cymdeithasol
- nifer wedi nodi bod mwy o drafnidiaeth cymunedol yn bwysig iddynt
- rhai wedi nodi dymuniad i weld canolfannau dydd yn ailagor, gan gyfeirio yn benodol at yr angen am gemau a gweithgareddau dydd i unigolion gyda dementia

Credwn fod yr ymarferiad yma'n cefnogi'r angen i sicrhau cynnig cymunedol amrywiol, gan annog cadw'n iach (yn gorfforol a meddyliol), yn heini ac yn annibynnol. Mae'r dyfyniad isod yn crynhoi:

*"not all 70 year olds, for example, are the same – some are and want to remain active, engaged in the local community and useful, whilst others are sadly having difficulty doing these things, we're not all the same" (*ymatebydd)

*4.5 A oes trafnidiaeth addas ar gyfer cleifion gyda dementia i fynychu gofal dydd?*

Dylid nodi fod ein Polisi Cludiant yn gosod disgwyliad ar unigolion i drefnu eu cludiant eu hunain ble'n bosibl ac mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig y bydd cludiant yn cael ei drefnu. Mewn nifer o achosion mae aelodau teulu neu gyfoedion yn fodlon cludo, ond mae na rai yn defnyddio gwasanaethau fel O Ddrws i Ddrws hefyd.

Mae sawl hwb cymunedol hefyd eisoes â chynigion ar gyfer unigolion â dementia, gan ddarparu trafnidiaeth i gludo bobl i'r lleoliad ac adref. Rydym wedi gweld enghreifftiau da o gydweithio ar draws hybiau (fel ym Mhenygroes a Chaernarfon), ac mae staff yr hybiau yn rhan o'r sesiynau mewn rhai achosion hefyd.

Wedi dweud hyn, o drafod gyda swyddogion canolfannau dydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, gwyddwn bod trafnidiaeth addas yn heriol mewn rhai mannau yn y sir ac y gall fod yn rwystr i rai unigolion â dementia. Rydym yn ymwybodol bod darpariaeth yn amrywio o ardal i ardal ac y gallai gwell cysondeb yn argaeledd y trafnidiaeth cymunedol helpu i ddenu mwy o bobl sydd angen cefnogaeth i wasanaethau arbenigol dydd neu sesiynau Dementia Actif Gwynedd. Mae gwasanaeth Dementia Actif yn gweithio'n agos gyda hybiau cymunedol Yr Orsaf (Penygroes), Partneriaeth Ogwen (Bethesda) a Chanolfan Henblas (y Bala) sy'n darparu gwasanaeth bws mini i gasglu cyfranogwyr a'u cludo adref ar ôl sesiynau. Buon nhw hefyd yn rhan allweddol o gefnogi sefydlu TAITH sydd erbyn hyn yn cael ei redeg yn llwyr gan y gymuned leol. Gwasanaeth trafnidiaeth dielw ydi TAITH wedi'i sefydlu ar gyfer Tywyn a'r cyffiniau, gan helpu unigolion sy'n cael

anhawster cael mynediad at drafnidiaeth am nifer o resymau personol, daearyddol neu ariannol. Gobeithiwn weld mwy o'r math yma o ddatblygiadau i'r dyfodol.

Dyma grynodeb o'r ddarpariaeth gymunedol yr ydym yn ymwybodol ohono hyd yma:

| **Darparwr** | **Gwasanaethau a gynigir** |
|---|---|
| Yr Orsaf, Penygroes – Dyffryn Nantlle | Cerbydau gwyrdd yn cludo pobol i weithgareddau dydd Yr Orsaf |
| Y Dref Werdd - Blaenau Ffestiniog | Cerbydau gwyrdd yn cludo pobol i weithgareddau dydd y Dref Werdd, awydd i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach. |
| Porthi Dre – Caernarfon | Trefniant gyda'r Orsaf, Penygroes, i gael benthyg cerbyd a gyrrwr i gludo unigolion sydd heb ffordd arall o gyrraedd Porthi Dre. |
| Partneriaeth Ogwen – Dyffryn Ogwen | Cerbyd Gwyrdd - cludo unigolion i glybiau cinio ac ar dripiau allan |
| Congl Meinciau, Botwnnog – Llŷn | Defnyddio gwasanaeth O Ddrws i Ddrws neu Bws Fflecsi |
| Canolfan Henblas – y Bala | Cerbyd yn cludo pobl i weithgareddau |
| TAITH - Tywyn | Prosiect TAITH – gwasanaeth trafnidiaeth dielw sy'n darparu cludiant i apwyntiadau iechyd a lles. |

Mae'n werth nodi fod ein Gweithwyr Cefnogol Dementia yn cynorthwyo gyda chludo unigolion pan nad oes opsiynau addas eraill hefyd.

*4.6 A yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o gefnogaeth ac ysbaid i ofalwyr di-dâl?*

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu ysbaid byr i ofalwyr di-dâl, ac rydym yn awyddus i sicrhau gwerth cymdeithasol uchel i'r cynigion hynny ar gyfer yr unigolyn hefyd. Rydym yn buddsoddi i ddatblygu darpariaethau seibiant ychwanegol a gwahanol, ac mae'n ateb i gwestiwn 1 yn amlinellu'r mathau o gefnogaeth sydd ar gael i alluogi gofalwyr i gael egwyl o'u dyletswyddau.

Yn ychwanegol, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Adran Economi a Chymuned i ystyried rôl Llyfrgelloedd fel mannau cymunedol ac i gefnogi'r llyfrgelloedd i gyrraedd safonau Oed a Dementia Gyfeillgar. Fel rhan o'r gwaith yma, rydym yn edrych ar syniadau fel cynnwys 'Caffi Gofalwyr', Awr Oed Gyfeillgar a mwy o weithgareddau celfyddydol a llesiant yn y Llyfrgelloedd. Byddai hyn yn cyfrannu rhagor o opsiynau ar gyfer cefnogaeth gofalwyr di-dâl.

*4.7 Sut mae'r berthynas gyda iechyd yn gweithio yng nghyd-destun y trefniadau newydd?*

Mae cydweithio agos rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cyngor Gwynedd yn rhan allweddol o'r trefniadau newydd. Enghraifft o hyn yw'r ddarpariaeth Asesu Dydd yn Hafod Hedd, Ysbyty Bryn Beryl ar gyfer unigolion â diagnosis o ddementia sy'n canolbwyntio ar asesu ymddygiad, cyflwyno meddyginiaeth ac ati gan hefyd ddarparu ysbaid i ofalwyr yr un pryd. Mae ein hateb i gwestiwn 1 yn amlinellu hyn. Mae Gweithwyr

Cefnogol Dementia Cyngor Gwynedd yn cefnogi unigolion sy'n mynychu'r ddarpariaeth yma a chydweithio agos yn digwydd i gefnogi teuluoedd sydd á chyfrifoldebau gofalu dwys. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod unigolion a'u gofalwyr yn cael cefnogaeth amlddisgyblaethol sy'n cyfuno arbenigedd iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ehangach, mae ein Timau Adnoddau Cymunedol yn cydweithio'n agos gydag Iechyd, gyda nifer o dimau wedi'u cydleoli ochr yn ochr â gweithwyr iechyd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n ddyddiol gyda Nyrsys Ardal a Nyrsys Iechyd Meddwl i asesu anghenion, cydlynu cefnogaeth a llunio cynlluniau gofal integredig sy'n sicrhau bod unigolion a'u gofalwyr yn derbyn gwasanaeth sy'n cyfuno arbenigedd iechyd a gofal cymdeithasol.

*4.8 Y cyd-destun ariannol*

Yn gyffredinol, mae'n gwasanaethau gofal yn wynebu heriau cyllidol sylweddol o ganlyniad i sawl ffactor – cynnydd cyson yn y galw, anghenion yn dwysau, dibyniaeth ar grantiau byr dymor, diffyg cyllidebol ac arbedion a thoriadau i'w cyflawni. Disgrifir yr heriau yma ymhellach yn Adroddiad Llechen Lân, a bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn diweddariad ar yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod heddiw.

Mae'r her o amgylch cyllid tymor byr yn benodol berthnasol yn y maes yma gan fod nifer o fentrau cymunedol a gwasanaethau fwy arbedol y Cyngor (fel Dementia Actif) yn ddibynnol ar gyllideb grantiau a mi all hyn greu ansicrwydd i wasanaethau o'r fath i'r dyfodol.

*4.9 Casgliad*

Dymuna'r Cyngor symud i ffwrdd o'r model traddodiadol 'Gofal Dydd' a datblygu model mwy hyblyg, person-ganolog ac amrywiol, gyda ffocws ar 'Gynnig Cymunedol'. Mae'r model newydd yn ymateb i anghenion unigolion, yn cynnig mwy o ddewis ac yn gwneud y gorau o berthynas cydweithio gydag Iechyd, y trydydd sector a'r gymuned.

Ar y cyfan, mae adborth defnyddwyr yn gadarnhaol iawn, ac rydym yn edrych ymlaen i gydweithio ymhellach i sicrhau bod anghenion poblogaeth Gwynedd yn cael eu diwallu'n gyfartal ar draws y sir.

## 5. Ymgynghori

Fel sydd eisoes wedi'i nodi, rydym wedi cynnal ymgynghoriad diweddar gyda darpar ddefnyddwyr i ystyried y modd y maen nhw yn rhagweld y byddent yn dymuno cefnogaeth I'r dyfodol er mwyn cadw'n annibynnol a heneiddio'n dda. Mae'r casgliadau perthnasol wedi eu hamlygu uchod yng nghwestiwn 4.

Rydym yn ymgynghori'n sylweddol ac yn gyson ar y datblygiadau hyn ar draws yr Adran Oedolion (Dementia Actif, Darparu Mewnol, timau gwaith cymdeithasol etc) a'n partneriaid gan gynnwys Age Cymru, Iechyd a grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli'r sawl sy'n cael eu heffeithio. Maent yn cael mewnbwn cyson ac mae'r holl ddatblygiadau uchod wedi digwydd o ganlyniad i'r trafodaethau hyn.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?*

Mae gweithwyr cymdeithasol yn trafod yn gyson efo unigolion ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ac mae'r wybodaeth a rennir yn cefnogi'r angen am ystod o gynigion cymunedol i geisio sicrhau bod darpariaethau yn diwallu anghenion cymaint o bobl a phosib. Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau mudiadau sydd yn cynrychioli'r boblogaeth hŷn.

*A ydych wedi ystyried **cydweithio**?*

Rydym yn cydweithio'n eang ar bob rhan o'r gwaith yma ac mae hynny wedi ei amlinellu uchod.

*Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?*

Holl bwrpas yr adolygiad yma yw i wella'r ffordd yr ydym yn gallu cefnogi unigolion o fewn eu cymunedau. Mae hyn yn golygu darparu mwy na dim ond gofal dydd 'traddodiadol' yn unig – a sicrhau fod cynigion ar gael i bobl sydd ddim eto angen asesiad anghenion. Mae cefnogi unigolion i gadw'n heini ac i gymdeithasu yn arwain at nifer o fuddion gan gynnwys lleihau unigedd a chefnogi bobl i aros yn annibynnol yn ddiogel.

Er enghraifft – mae dosbarthiadau Dementia Actif Gwynedd yn cynnwys ymarferion ysgafn gyda'r nod o wella cydbwysedd, cryfder, balans a chydlynu – oll tra yn cael hwyl. Mae na hefyd amser ymhob sesiwn i sgwrsio, hel atgofion a chael cefnogaeth cymheiriaid dros baned – gan ddod a buddion sylweddol i unigolion â dementia a'u gofalwyr hefyd.

*Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?*

Mae Adroddiad Llechen Lân, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu heddiw, yn amlygu'r cynnydd sylweddol sydd yn wynebu'r adran o ran cefnogi unigolion dros 65 efo wahanol anghenion i'r dyfodol. Mae'n nodi y bydd cynnydd o 77% yn y boblogaeth 80+ yng Ngwynedd erbyn 2047. Bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau i gefnogi unigolion, teuluoedd a'u gofalwyr hefyd, ac mae newid ein modelau o gefnogi yn cael ei amlinellu'n hanfodol i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol.

*Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?*

Rydym mewn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i sicrhau bod y model newydd yn cefnogi eu gwaith, yn cyfoethogi'r cynigion sydd ganddyn nhw a'n bod, gyda'n gilydd, yn cynnig ystod o ddarpariaeth sy'n briodol i amrywiol anghenion trigolion Gwynedd.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae asesiad effaith wedi bod mewn lle ar gyfer y gwaith yma ers cychwyn yr adolygiad. Rydym yn ei addasu ac yn ailystyried wrth ddatblygu'r gwaith ymhellach, ac mae'n ddogfen fyw fydd angen i ni barhau i'w haddasu wrth wneud gwaith pellach. Mae'r fersiwn diweddaraf wedi'i atodi gyda'r adroddiad.

Mae'r asesiad yn casglu bod y datblygiadau i'r model a'r cynnydd mewn cynigion cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar wahanol grwpiau, ar y cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar unigolion sydd efallai'n byw mewn ardaloedd gwledig iawn – gan sicrhau cynnydd yn y cynigion ar gael a'u bod yn cael eu harwain yn gymunedol.

Mae'r asesiad yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod darpariaethau ar gael ymhob ardal, ac mae'r gwaith diweddar gyda Age Cymru ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cymryd y camau cyntaf tuag at dargedu ardaloedd gyda llai o ddarpariaeth cymunedol. Mae'r asesiad hefyd yn cydnabod yr angen i annog datblygiadau cludiant cymunedol i sicrhau fod y cynigion yn agored ac ar gael i bawb.

## 8. Camau Nesaf

Parhau gyda'r gwaith i ddatblygu modelau gofal seibiant dydd newydd yng Nolgellau a Porthmadog, gan ddefnyddio cyllid seibiant rhanbarthol gwerth tua £25,000 sydd wedi ei glustnodi i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Parhau i werthuso effaith y datblygiadau.

**Atodiad 1**
Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol.

# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Adolygu darpariaeth gofal dydd

**Awdur:** Sian Edith Jones

**Teitl Swydd:** Pennaeth Cynorthwyol

**Dyddiad**: Gorffennaf 8, 2026

**Fersiwn:** F2

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)
- Adolygiad gwasanaeth neu gynigion ad-drefnu sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal, addysg
- Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu y gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/dad-gomisiynu neu adolygu gwasanaethau

## 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Yng nghyd-destun yr angen a'r ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu cynnig ar draws y sir, cynhelir adolygiad o'r ddarpariaeth gofal dydd ac ystyriaeth i'r model priodol i'r dyfodol. Mae'r argymhellion ar hyn o bryd yn cynnwys ehangu darpariaethau i fod yn llawer ehangach na gofal dydd traddodiadol ac yn hytrach, cyflwyno dewislen o gynigion cymunedol i ddiwallu anghenion amrywiol y boblodaeth.

## 3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Derbynwyr gwasanaeth a'u teuluoedd/gofalwyr

Darpar ddefnyddwyr gwasanaeth

Mudiadau neu grwpiau sy'n cynrychioli pobl hŷn

Aelodau etholedig

Gwasanaeth Iechyd

# CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

## 4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Ymarferiad ymgysylltu gyda dros 200 o ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o ddatblygu adroddiad i anghenion lletya i'r dyfodol | 2026 | Fel rhan o'r gwaith, gofynnwyd am wybodaeth ar yr hyn mae darpar defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno ei weld er mwyn eu cefnogi i fyw'n annibynnol a heneiddio'n dda. Roedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | nifer o sylwadau ynghylch yr angen am gynigion cymunedol eang. |
| Timau Gwaith Cymdeithasol yn trafod yn gyson gyda defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud adolygiadau ac ati ynghylch be sy'n bwysig iddynt | Parhaus | Adborth yn amrywio gyda rhai yn dymuno gofal dydd traddodiadol ac eraill yn ffafrio cynigion cymunedol gwahanol |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim wedi ei adnabod | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Anabledd** | Gwyddwn fod nifer o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ag anableddau gan gynnwys anhawsterau symudedd, anableddau synhwyraidd, cyflyrau megis dementia, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau iechyd hirdymor eraill. Yn ogystal mae nifer o ofalwyr ynghlwm a'r unigolion sy'n dod i gyswllt gyda'n gwasanaethau dydd. | O ystyried yr amrywiaeth eang yn yr anghenion, nodir potensial i'r datblygiadau o safbwynt y cynigion cymunedol sydd ar gael a'r pwyslais i ehangu'r math yma o gynigion yn cael effaith positif gadarnhaol ar unigolion ag anableddau a'u gofalwyr. Yn hytrach na model traddodiadol o ofal dydd fel oedd yn bodoli yn flaenorol, mae gweithgareddau a chyfleon bellach ar gael sydd yn hybu annibyniaeth ac yn pwysleisio cyfranogaeth cymdeithasol. Bydd hyn yn annog mwy o unigolion efo anableddau a'u gofalwyr i ddefnyddio gwasanaethau i'w cefnogi yn eu cymunedau ac yn annog cefnogi ar draws o fewn y gymuned. Bydd yn golygu y bydd mwy o ddarpariaeth a mwy o |

| | | |
|---|---|---|
| | | amrywiaeth o ddarpariaeth a fydd yn arwain at fwy o wahanol anghenion yn gallu cael eu cyfarch. |
| **Rhyw** | Mae ein gwasanaethau yn darparu cefnogaeth ar gyfer dynion a merched fel ei gilydd. | Drwy gynnig mwy o opsiynau, credir bod potensial i'r datblygiadau newydd gael effaith gadarnhaol ar ddynion a merched gan fod mwy o ddarpariaethau amrywiol i gyfarch mwy o anghenion. Yn ogystal, mae'n bosib y bydd rhai o'r cynigion cymunedol yn targedu dynion neu ferched yn unig, sydd ymhellach yn cynyddu'r cyfleon iddynt gyfranogi a rhoi cyfleon i unigolion sy'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn grwp un rhyw. |
| **Oedran** | Mae'r mwyafrif o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn dros 55 oed, ond fe all bobl ieuengach fod yn dymuno'r un cyfleon hefyd - e.e. bobl gydag anableddau corff neu bobl a dementia cynnar. | Yn y pendraw, credir y bydd y datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol iawn ar bobl dros 55 oed drwy ddarparu llawer mwy o opsiynau a chynigion wedi eu teilwra i'w hanghenion nhw. Bydd y model newydd hefyd yn pwysleisio cadw annibyniaeth ac annog cyfranogiad cymdeithasol ac felly yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion drwy eu cefnogi i fyw y bywyd y maen nhw'n ei ddymuno a lleihau unigedd a dibyniaeth ar wasanaethau statudol yn rhy gynnar. |
| **Crefydd a Chred** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim data wedi'i adnabod | Dim effaith wedi'i adnabod |
| **Ail-bennu rhywedd** | Dim wedi'i adnabod | Dim effaith wedi'i adnabod |
| **Priodas a Phartneriaetgh Sifil** | Dim data wedi'i adnabod | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim data wedi'i adnabod | Dim effaith wedi'i adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg** | Gwyddyn fod nifer o unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn rhai ardaloedd.<br>Mae'r cynigion cymunedol yn cynnig darpariaethau yn y Gymraeg. | Bydd y datblygiadau cymunedol newydd yn cynyddu'r cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg drwy sicrhau bod mwy o opsiynau o weithgareddau a sesiynau ar gael yn lleol o fewn cymunedau. Bydd angen monitro'r sefyllfa i sicrhau bod hyn yn gyson ar draws y sir. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Cynigion cymunedol ar gael yn eang ar draws y sir, gyda gwaith yn digwydd i ganolbwyntio ar ardaloedd lle nad oes bodolaeth hwb cymunedol.<br>Costau ar gyfer mynychu sesiynau yn cael eu cadw mor isel a sy'n bosib. | Yn hanesyddol, roedd canolfannau dydd traddodiadol wedi eu lleoli mewn mannau penodol ar draws y sir. Drwy'r datblygiadau newydd, mae'r cynigion cymunedol sydd ar gael yn llawer ehangach na'r ddarpariaeth flaenorol. O ganlyniad, bydd mwy o wasanaethau ar gael yn lleol o fewn cymunedau gyda llai o angen i deithio er mwyn gallu cymryd rhan. Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd i edrych ar gludiant ar draws cymunedau ac felly gobeithir y bydd hyn yn gwella'r mynediad at y gwasanaethau hyn. Disgwylir i'r datblygiadau felly gael effaith gadarnhaol.<br>Polisi Codi Tâl yn golygu y gallem godi tâl am fwy o ddarpariaethau dydd, ac fe all hyn gael effaith negyddol ar unigolion fyddai'n dymuno cymryd rhan. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Dim i'w nodi | Dim wedi ei adnabod |
| **Hawliau Dynol** | Dim i'w nodi | Dim i'w nodi |
| **Arall** | Dim i'w nodi | Dim i'w nodi |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Nid ydym yn ymwybodol o fylchau amlwg mewn perthynas â'r darpariaethau dan sylw.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Mae'r Adran yn ddiweddar wedi adolygu eu Polisi Codi Tâl sydd yn rhoi'r hawl i'r Cyngor godi tâl am fwy o wasanaethau cefnogol yn y gymuned. Mi allai hynny effeithio ar allu unigolion i ddefnyddio'r holl ystod o gynigion y byddent yn dymuno ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae gweithdrefn mewn lle i fod yn cynnig asesiadau ariannol i unigolion er mwyn penderfynu faint y gallen nhw gyfrannu at eu gofal ac ystyrir fod hyn yn lleihau'r effaith negyddol yn sylweddol mewn perthynas â'r grwpiau mwyaf bregus.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Yn gyffredinol, holl hanfod y cynnig ydi i gynnig mwy o gyfleon i unigolion ddefnyddio'r darpariaethau, a sicrhau fod y darpariaethau hynny yn fwy agored, hyblyg a chymunedol. Mae'n naturiol iawn yn helpu i ddileu gwahaniaethu rhwng y darpariaethau sydd ar gael o fewn wahanol ardaloedd ac i wahanol grwpiau, ac yn ei natur yn meithrin perthnasau da rhwng grwpiau gwahanol drwy annog cymunedau i gynnal y ddarpariaeth yn lleol.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Drwy sicrhau fod cynigion ar gael ar lefel mwy lleol, y gobaith gyda'r model newydd fydd i sicrhau darpariaeth fwy cyson ar draws y sir, gan gynnwys mewn ardaloedd fwy gwledig. Yn ogystal, fel rhan o'r gwaith mae llawer o ystyriaeth i ddatblygiadau cludiant cymunedol. Byddai hwyluso cludiant a mynediad fel hyn yn lleihau'r anghyfartaledd o safbwynt daearyddol ar draws y sir.

**10. Sut mae’r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â  gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â  pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae anghenion iaith unigolion ar draws y sir yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynnig darpariaethau ac mae'r cynigion cymunedol newydd yn cyfrannu'n sylweddol at allu unigolion i gyfranogi yn lleol o fewn eu cymunedau, a hynny yn y Gymraeg gan gynyddu'r cyfleon iddynt ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i’r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Cynnwys - Mae gweithwyr cymdeithasol yn trafod yn gyson efo unigolion ynghylch yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw, ac mae’r wybodaeth a rennir yn cefnogi’r angen am ystod o gynigion cymunedol i geisio sicrhau bod darpariaethau yn diwallu anghenion cymaint o bobl a phosib. Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau mudiadau sydd yn cynrychioli’r boblogaeth hŷn.

Cydweithio - Rydym yn cydweithio’n eang ar bob rhan o’r gwaith yma gyda Iechyd, y trydydd sector, hybiau a mentrau cymunedol.

Atal - Holl bwrpas yr adolygiad yma yw i wella’r ffordd yr ydym yn gallu cefnogi unigolion o fewn eu cymunedau. Mae hyn yn golygu darparu mwy na dim ond gofal dydd ‘traddodiadol’ yn unig – a sicrhau fod cynigion ar gael i bobl sydd ddim eto angen asesiad anghenion. Mae cefnogi unigolion i gadw’n heini ac i gymdeithasu yn arwain at nifer o fuddion gan gynnwys lleihau unigedd a chefnogi bobl i aros yn annibynnol yn ddiogel.

Er enghraifft mae dosbarthiadau Dementia Actif Gwynedd yn cynnwys ymarferion ysgafn gyda’r nod o wella cydbwysedd, cryfder, balans a chydlynu – oll tra yn cael hwyl. Mae na hefyd amser ymhob sesiwn i sgwrsio, hel atgofion a chael cefnogaeth cymheiriaid dros baned – gan ddod a buddion sylweddol i unigolion â dementia a’u gofalwyr hefyd.

Hirdymor - Mae Adroddiad Llechen Lân yn amlygu’r cynnydd sylweddol sydd yn wynebu’r adran o ran cefnogi unigolion dros 65 efo wahanol anghenion i’r dyfodol. Mae’n nodi y bydd cynnydd o 77% yn y boblogaeth 80+ yng Ngwynedd erbyn 2047. Bydd cynnydd yn y galw am

wasanaethau i gefnogi unigolion, teuluoedd a'u gofalwyr hefyd, ac mae newid ein modelau o gefnogi yn cael ei amlinellu'n hanfodol i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol.

Integreiddio - Rydym mewn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i sicrhau bod y model newydd yn cefnogi eu gwaith, yn cyfoethogi'r cynigion sydd ganddyn nhw a'n bod, gyda'n gilydd, yn cynnig ystod o ddarpariaeth sy'n briodol i amrywiol anghenion trigolion Gwynedd.

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Bydd

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

--

**Partneriaeth:**

Ers llunio'r fersiwn cyntaf o asesiad effaith cydraddoldeb oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal dydd mewn rhai ardaloedd yn unig, rydym wedi cydweithio'n gyson gyda hybiau cymunedol i'w cefnogi i greu cynigion sy'n adlewyrchu anghenion eu hardal nhw. Mae'r ystyriaethau cydraddoldeb ac iaith ar ei synnwyr ehangach yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn a bydd y Cyngor yn cefnogi partneriaid cymunedol yn hyn o beth.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Mae'r darpariaethau newydd yn cynnig mwy o ddewis i bobl Gwynedd a'u teuluoedd a'u gofalwyr. O ganlyniad, rydym o'r farn y bydd y datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol iawn ar unigolion ar draws Gwynedd, yn benodol o safbwynt eu gallu i gyfranogi i'r gymdeithas ac i gael cefnogaeth i'w galluogi i fyw yn annibynnol cyhyd a phosib.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Dim effaith negyddol sylweddol wedi ei adnabod.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a’r cyfiawnhad dros barhau**

Amherthnasol

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod.

Fodd bynnag, cydnabyddir fod ymgysylltu parhaus yn hollbwysig wrth barhau i ddatblygu a byddwn yn gweithio i adnabod os yw'r cynigion yn cyfarch yr angen ac a oes unrhyw fylchau yn hynny o beth. Bydd y cynigion yma yn dynamig ac yn esblygu'n gyson.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

X

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

x

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i adolygu'r ddarpariaeth a gweithio tuag at sicrhau lleihau unrhyw fylchau mewn darpariaethau ar draws y sir | Parhaus | Parhaus | Sian Edith Jones | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Cynnal ymarferion ymgysylltu ymhen peth amser i gasglu barn defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr ar y cynigion newydd | i'w gytuno | Sian Edith Jones | Na |
| Sicrhau fod sgyrsiau Beth sy'n Bwysig yn parhau gan y gweithwyr cymdeithasol er mwyn i ni allu derbyn adborth am anghenion unigol ac os ydym yn eu diwallu | parhaus | Sian Edith Jones | Na |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Craffu Gofal |
| DYDDIAD | 14 Gorffennaf 2026 |
| EITEM | GRŴP TASG A GORFFEN CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
| PWRPAS | Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen |
| CADEIRYDD Y GRŴP TASG A GORFFEN | Cynghorydd Menna Baines |
| AWDUR | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Y Gymraeg a Chraffu |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1af o Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar Gwynion, Ymholiadau a Diolchiadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) i gyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gofal ar 25 Medi 2025.

Roedd yr adroddiad yn darparu:

- gwybodaeth am niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy adran
- y rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau
- crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd
- camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd.

1.3 Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol a phenderfynwyd sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach.

1.4 Datblygwyd briff ar gyfer y gwaith, ac fe’i mabwysiadwyd ar 18 Rhagfyr 2025 gan y Pwyllgor Craffu Gofal. Etholwyd 5 aelod i fod yn rhan o’r grŵp tasg a gorffen sef y Cynghorwyr Menna Baines, Elwyn Jones, Sian Williams, Angela Russell ac Elin Walker Jones.  Diweddarwyd y briff i

gynnwys yr aelodaeth, swyddogion perthnasol ac amserlen, ac mae copi o'r briff wedi ei ddiweddaru i'w weld yn Atodiad A.

1.5 Cyfarfu aelodau'r grŵp tasg a gorffen ar 27 Chwefror 2026 er mwyn sicrhau:

- bod yr aelodau yn deall y trefniadau delio gyda chwynion ac yn derbyn gwybodaeth gryno am bob cwyn a dderbyniwyd yn ystod 2024-2025
- gwell dealltwriaeth o'r rhesymau tu cefn i ddewis unigolion i gwyno yn Saesneg ac a oes modd gwneud rhywbeth i annog mwy i gwyno yn Gymraeg
- bod cefnogaeth ddigonol o ran diogelu i staff sy'n deilio gydag achwynwyr cyson.

1.6 Dymuna'r grŵp ddiolch i'r holl swyddogion a thimau am eu gwaith yn y maes hwn.

## 2. <u>TRAFODAETHAU'R GRŴP TASG A GORFFEN</u>

2.1 Cyflwynwyd papurau rhag-blaen i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror. Cafwyd cyfle i dderbyn trosolwg o'r drefn cwynion, gwybodaeth bellach am gwynion y ddwy adran dan sylw, y daflen cofnodi cwyn, a'r polisi achwynwyr cyson. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau hefyd ofyn cwestiynau i'r swyddogion.

### 2.2 Trosolwg o'r drefn cwynion

2.2.1 Adroddwyd bod y ddwy adran berthnasol yn dilyn canllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch pholisïau pryderon a chwynion. Ategwyd bod y rhain wedi eu cynnwys yn y rhaglen a chroesawyd unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan yr aelodau.

2.2.2 Nododd yr aelodau bod y wybodaeth ychwanegol gefndirol yn ddefnyddiol ond mynegwyd syndod nad yw'r canllawiau wedi eu diweddaru gan Lywodraeth Cymru ers 2014. Nodwyd bod llawer o ddatblygiadau wedi bod ers ei gyhoeddi yn 2014, megis y defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol, ac y dylai'r canllawiau adlewyrchu'r byd presennol. Awgrymwyd y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau mwy diweddar a chyfredol.. Ategwyd hefyd y dylid ystyried ychwanegu dyddiadau cyhoeddi i ddogfennaeth polisïau'r Cyngor.

2.2.3 Roedd yr aelodau o'r farn y dylid croesawu cwynion oherwydd bod modd dysgu a gwella darpariaeth yn eu sgil. Ategodd swyddogion bod y gwaith o gefnogi a diogelu'r cyhoedd yn waith emosiynol sydd yn gysylltiedig yn aml gydag anniddigrwydd ac anfodlonrwydd, ac yn naturiol felly yn arwain at dderbyn rhai cwynion am resymau amrywiol.

2.2.4 Eglurwyd bod cwynion ffurfiol a chwynion anffurfiol yn cael eu cyflwyno am resymau amrywiol, a bod swyddogion cwynion yn dehongli ac yn gwahaniaethu rhwng y cwynion er mwyn penderfynu pa broses sydd yn fwyaf addas ar gyfer cwyn penodol. Cadarnhawyd bod llawer o achosion yn gallu cael eu datrys ar y pryd ac ar lafar gan swyddogion a rheolwyr, sydd yn aml yn lleihau'r nifer o achosion sydd yn datblygu i fod yn gwynion ffurfiol. Nodwyd nad yw cwynion sydd yn cael eu datrys o fewn 24 awr yn cael eu cofnodi fel cwyn ffurfiol.

**2.3 Cwynion**

2.3.1 **Cyffredinol**

Cadarnhawyd bod tua 26 cwyn yn cael eu derbyn drwy'r broses gwynion fel arfer bob blwyddyn. Atgoffwyd aelodau y dylid cofio nad yw'r ffigwr yma'n adlewyrchu pob pryder sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn. Ar gyfartaledd fel arfer derbynnir tua 25 cwyn y flwyddyn.

2.3.2 Edrychwyd ar y cwynion o ran themâu a thrafodwyd a oedd themâu penodol yn ymddangos. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd themâu penodol a chadarnhawyd hynny gan swyddogion. Ategodd y swyddogion bod llawer o gwynion yn cael eu cyflwyno ar hap a ddim yn dilyn patrwm. Sicrhawyd yr aelodau os oes unrhyw batrymau neu dueddiadau yn dod i'r amlwg bod y gŵyn yn derbyn sylw teilwng ac yn cael ei gyfeirio at Bennaeth Cynorthwyol yr Adran er mwyn ei fonitro yn ofalus.

2.3.2 **Cwynion Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Rhoddwyd trosolwg o'r cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac ystyriwyd natur y cwynion a'r modd y cawsant eu datrys gan y Cyngor. Eglurwyd y broses addas dan sylw i ddatrys y cwynion a gohebu ag achwynwyr. Nodwyd bod cwynion yn cael eu cyflwyno ar lefelau amrywiol, mewn lleoliadau gwahanol o fewn yr adran. Atgoffwyd bod rhai cwynion yn cael eu cyflwyno ar lafar, sydd yn cael eu datrys yn syth gan Reolwyr, ac na fydd y cwynion yn mynd ymlaen i gael eu datrys drwy broses ffurfiol.

2.3.3 Awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol i'r ddwy adran gysoni'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth am gwynion a chynnwys colofn i adlewyrchu'r gwersi sydd wedi eu dysgu ymhob achos. Cadarnhaodd y swyddogion bod modd gwneud hyn ar gyfer y dyfodol.

2.3.4 **Cwynion Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Rhoddwyd trosolwg o’r cwynion a dderbyniwyd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac ystyriwyd natur y cwynion a’r modd y cawsant eu datrys gan y Cyngor. Eglurwyd bod y broses yr un peth yn y ddwy adran.

2.3.5 Holwyd a oes unrhyw gyswllt rhwng y ffrydiau gwaith rhaglen ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewder a’r protocol a pholisïau cwynion. Mewn ymateb, esboniwyd fod materion diogelwch plant a honiadau yn wahanol i gwynion felly nad yw’r polisi cwynion yn berthnasol yn uniongyrchol mewn achos o'r fath. Eglurwyd bod prosesau gwahanol yn cael eu dilyn yn y sefyllfa oherwydd bod cwyn yn wahanol i honiad. Ystyriwyd y modd y gellir gwahaniaethu rhwng cwyn a honiad, a dywedwyd mai’r Swyddogion priodol sydd yn dehongli materion ac yn cyfeirio materion i’r man priodol. Manylwyd ar y canllawiau a threfniadau amddiffyn plant, gan nodi’r prosesau priodol ac addas.

**2.4 Taflen cofnodi cwyn ac iaith cwyno**

2.4.1 Cadarnhawyd fod taflenni ynghylch cwyno a chanmol ar gael yn Siop Gwynedd, ar wefan y

Cyngor ac mewn pecynnau gan weithwyr cymdeithasol. Trafodwyd effeithlonrwydd a hygyrchedd y taflenni cofnodi cwyn ar gyfer y ddwy adran dan sylw a’r daflen gŵyn corfforaethol. Ystyriwyd pam fod mwy o bobl yng Ngwynedd yn cyflwyno cwynion yn y

Saesneg. Esboniwyd bod swyddogion yn ymateb i unigolion sydd yn cyflwyno cwyn yn yr iaith a ddymunir gan yr achwynydd ar ôl ymgynghori gyda hwy.

2.4.2 Nododd swyddogion eu bod yn rhagweld mwy o gwynion Saesneg, gyda'r defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial. Ymhelaethwyd bod rhai cwynion yn amlwg yn barod wedi eu llunio gyda chymorth deallusrwydd artiffisial ac yn dueddol o fod yn fwy cymhleth i’w hateb. Eglurwyd bod hyn yn achosi her ychwanegol i swyddogion, ac yn gallu cymryd amser.

2.4.3 Canmolwyd y defnydd o Gymraeg clir yn nhaflenni codi cwyn Gwasanaethau Cymdeithasol. Eglurodd y swyddogion eu bod wedi mynychu hyfforddiant ‘Easy Read’ er mwyn sicrhau bod y daflen yn ddealladwy i bawb. Awgrymwyd y byddai’n well symleiddio’r iaith yn y daflen codi cwyn Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn cynyddu ei hygyrchedd a sicrhau ei bod yn

haws i ddarllen i bawb. Nodwyd y byddai'r defnydd o Gymraeg clir yn y taflenni yn cynyddu'r nifer o bobl yn cwyno yn yr iaith Gymraeg, ac felly yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

2.4.4 Awgrymodd aelod y dylid ystyried hefyd ychwanegu gwybodaeth am sut i gysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.Roedd yr aelodau eraill yn gefnogol i hyn.

2.4.5 Ar nodyn cadarnhaol adroddwyd bod yr adrannau yn derbyn llawer mwy o ddiolchiadau o gymharu â chwynion, sydd yn galonogol tu hwnt.

**2.5 Polisi Achwynwyr Cyson – Ymddygiad Annerbyniol**

2.5.1 Cafwyd trafodaeth ar y polisi achwynwyr cyson a'r nifer o achosion o ymddygiad annerbyniol sydd yn codi. Cadarnhawyd bod y polisi yma yn bolisi cyffredinol ar draws y Cyngor ac yn berthnasol i bob adran. Nodwyd bod y Cyngor yn gyndyn i weithredu'r drefn hon, ac na fydd yn gweithredu oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol. Eglurwyd bod achwynwyr fel arfer yn cyrraedd y trothwy ar ôl misoedd neu flynyddoedd o achwyno blinderus ac yn achosi rhwystredigaeth i weithwyr ac yn cynyddu eu llwyth gwaith yn sylweddol. Cadarnhawyd nad oes lawer o achosion ar hyn o bryd.

2.5.2 Pwysleisiwyd pwysigrwydd diogelu staff mewn sefyllfaoedd o'r fath lle mae ymddygiad annerbyniol yn codi. Cadarnhawyd bod asesiadau risg yn eu lle i ddiogelu gweithwyr, a bod proses penodol i'w ddilyn i sicrhau bod gweithwyr yn teimlo yn ddiogel ac yn gyfforddus yn eu gwaith. Cyfeiriwyd at y Gofrestr Diogelwch Staff, gan nodi bod diogelwch staff yn flaenoriaeth. Holwyd y staff a oeddent yn teimlo bod ganddyn nhw gefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol. Cafwyd cadarnhad bod staff y ddwy adran yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn ac yn hapus yn eu gwaith.

2.5.3 Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn rhoi'r papurau at ei gilydd a'u parodrwydd i drafod y mater dan sylw yn agored ac adeiladol.

**3. CANFYDDIADAU'R GRŴP TASG A GORFFEN**

3.1 Bu edrych yn fwy manwl ar y system cwynion a'r cwynion a dderbyniwyd yn fuddiol i'r aelodau er mwyn:

- Gwella dealltwriaeth o’r trefniadau sydd yn eu lle i ddelio gyda chwynion yng Nghyngor Gwynedd a’r arweiniad a chanllawiau cenedlaethol
- derbyn gwybodaeth gryno am bob cwyn a dderbyniwyd yn ystod 2024-2025 a

  deall rhesymau tu cefn i ddewis unigolion i gwyno yn Saesneg a’r angen i ddelio gyda chwyn yn iaith ddewisol yr achwynydd

- archwilio’r polisi delio gydag achwynwyr cyson ac ymddygiad annerbyniol

3.2 Cafwyd sicrwydd bod trefniadau cadarn ac addas yn eu lle er mwyn delio gyda chwynion yn y ddwy adran dan sylw a'u bod yn dilyn y canllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag mynegwyd pryder nad yw’r canllawiau cenedlaethol wedi eu diweddaru ers 2014 gan Lywodraeth Cymru ac nad oes sylw i gyfryngau cymdeithasol ynddynt.

3.3 Daethpwyd i’r casgliad nad oes patrwm neu thema amlwg yn ymddangos yn y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2023-2024. Cafwyd sicrwydd hefyd pan fo cwyn yn amlygu diffyg o fewn gwasanaeth bod camau priodol yn cael eu cymryd gan yr adrannau i roi sylw i hyn gan gynnwys trefniadau monitro. Awgrymwyd y dylid sicrhau bod un templed safonol yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar gwynion gan y ddwy adran.

3.4 Canmolwyd yr arddull cyfathrebu a’r iaith a ddefnyddir yn y ffurflenni cwyno gan y ddwy adran. Awgrymwyd y dylid symleiddio’r iaith a ddefnyddir yn y daflen codi cwyn Corfforaethol er mwyn cynyddu ei hygyrchedd a sicrhau ei bod yn haws i ddarllen i bawb. Awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at sut i gwyno neu roi canmoliaeth am wasanaeth a rhoi linc i’r taflenni cwynion yn y neges. Cafwyd cadarnhad bod staff yn ymgynghori gyda’r cyhoedd ynghylch dewis iaith wrth ohebu am gŵyn.

3.5 Derbyniwyd sicrwydd bod y polisi achwynwyr cyson yn weithredol a bod cefnogaeth briodol ar gael i staff.

**<u>ARGYMHELLION Y GRŴP TASG A GORFFEN</u>**

4.1 Er bod sicrwydd wedi ei dderbyn bod y drefn gwynion yn effeithiol credir y dylid gweithredu’r argymhellion canlynol er mwyn annog mwy o drigolion i gyflwyno cwynion a chanmoliaeth, a rhai drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2 **Argymhelliad 1**

Gofyn i'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ohebu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datgan pryder nad yw canllawiau ymdrin â chwynion wedi eu diweddaru ers 2014 ac nad oes ystyriaeth briodol i gyfryngau cymdeithasol fel modd i achwynwyr gysylltu gyda chwynion.

4.3 **Argymhelliad 2**

Cysoni'r wybodaeth a gyflwynir mewn tablau yn yr adroddiadau am gwynion gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa mewn modd cynhwysfawr a chyfredol

4.4 **Argymhelliad 3**

Argymell i'r Aelod Cabinet perthnasol adolygu taflen cofnodi cwynion corfforaethol a'i diwyg a'i gwneud yn debycach i daflenni cofnodi cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hybu a chynyddu hygyrchedd taflenni Cymraeg.

4.5 **Argymhelliad 4**

Gofyn i'r adrannau sy'n delio gyda chwynion nodi bod modd cysylltu â'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar y taflenni cofnodi cwyn.

**4.6 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Oedolion |
| **DYDDIAD** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Diweddariad Llechen Lân |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Angen sylwadau'r pwyllgor ar ddiweddariad i'r data, a'r diweddariad i'r rhaglen gwaith Llechen Lân. |
| **AWDUR** | Jessica Iona Mullan / Alun Gwilym Williams |
| **AELOD CABINET** | Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn amlygu diweddariadau i'r data a chynllun gweithredu adroddiad Llechen Lân (Adroddiad y cyhoeddwyd yn Medi 2024 i amlygu tueddiadau allweddol fydd yn effeithio gwasanaethau pobl hŷn dros y blynyddoedd nesaf).

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

Mae tair rhan sydd angen craffu. Yn gyntaf, y data sydd wedi ei ddiweddaru. Yn ail, y diweddariad i'r rhaglen waith a benderfynwyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol. Yn olaf, beth ddylai'r camau nesaf fod o ran cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu uchafbwyntiau adroddiad diweddariad data Llechen Lân 2026 atodedig (atodiad 1). Mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys pedair adran; diweddariad data, diweddariad dulliau arloesol, diweddariad rhaglen waith a'r camau nesaf.

Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu'r data sydd wedi'i ddiweddaru (Ar ôl derbyn amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru), derbyn adborth gan y pwyllgor craffu ar gynnwys yr adroddiad, a chraffu sut y gallwn symud ymlaen (gan boblogi y camau nesaf o'r adroddiad).

**4. Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir:**

Ym mis Medi 2024 cyhoeddwyd adroddiad Llechen Lân. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu amcanestyniadau a fyddai'n effeithio ar wasanaethau i bobl hŷn dros yr 20 mlynedd nesaf.

Er mwyn creu sail dystiolaeth gadarn, casglodd a dadansoddodd y grŵp Tasg a Gorffen ddata lleol, sirol a chenedlaethol, a darllen llenyddiaeth ryngwladol.

Ymhelaethodd Llechen Lân ar y sefyllfa bresennol drwy:

- Rhagweld sut bydd y boblogaeth yn newid dros yr 20 mlynedd nesaf yng Ngwynedd.
- Ystyried sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y galw am ofal.
- Edrych ar ein gallu i ddiwallu'r angen, gan gymharu gyda siroedd eraill cyffelyb.
- Rhagfynegi'r pwysau ariannol disgwyliedig.

Mae'r casgliadau llawn wedi eu amlinellu yn adroddiad gwreiddiol Llechen Lân.


**Diweddariad data 2026**

Wrth gyhoeddi'r adroddiad cyntaf, nid oedd modd defnyddio'r rhagamcanion poblogaeth ddiweddaraf oherwydd oedi gan Lywodraeth Cymru wrth eu cyhoeddi. Seiliwyd data'r adroddiad ar amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, wedi eu haddasu rhywfaint i adlewyrchu'r lleihad ym mhoblogaeth Gwynedd yng Nghyfrifiad 2021. Erbyn hyn mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf felly'r nod cyntaf yw ail gyflwyno'r model gwreiddiol gyda'r rhagamcanion poblogaeth newydd. Mae manylion llawn y diweddariad data hwn i'w weld yn atodiad 1: Diweddariad Llechen Lân 2026.

***Cymhariaeth poblogaeth (canran)***

Dangosodd yr ymchwil Llechen Lân gwreiddiol fod yr angen am ofal yn cynyddu gydag oedran, ac felly ei bod yn ddefnyddiol gwahanu'r boblogaeth yma i ddau grŵp oed, sef 65 i 79 oed a 80 oed a hŷn. Mae'r cynnydd mwy yn y boblogaeth yn cael ei ragweld yn y ddau grŵp oed 65 i 79, a 80 a hŷn.


Yn ogystal, mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn ymestyn tan y flwyddyn 2047 ac yn dangos - o ran y grŵp oedran 80+ yn benodol, y rhagwelir cynnydd pellach o fewn y grŵp oedran yma y tu hwnt i gyfnod amser y model Llechen Lân wreiddiol, hynny yw mae'r cynnydd yn cario yn ei flaen hyd at o leiaf 2047.




*Graff 1 a 2 – Newid canrannol amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)*

***Heriau Gweithlu:***

Mae'r infograffeg canlynol yn tynnu sylw at yr effaith mae'r newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn ei gael ar yr amcanestyniadau gweithlu (yn cynnwys gofalwyr cartref, gweithlu cartrefi gofal preswyl/ nyrsio, gweithwyr cymdeithasol/ therapyddion, a'r meysydd arloesol). Mae'r niferoedd ychwanegol o staff fydd eu hangen yn unol a'r model newydd wedi eu lliwio'n las.





*Infograffig 1: Cyfanswm rhagamcanion gweithlu fydd ei angen yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd).*

***Heriau Cyllideb:***

Mae'r infograffig hon yn tynnu sylw at yr effaith mae'r newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn ei gael ar yr amcanestyniadau cyllid o'r model gwreiddiol.

Mae’n bwysig cofio fod costau wedi eu cyfrifo ar sail prisiau 2023-24. Mae effaith chwyddiant rhwng rŵan a 2033/2043/2047 wedi ei anwybyddu fel ein bod yn cymharu debyg wrth debyg.




*Infograffig 2: Cyfanswm rhagamcanion cyllid yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer gofal cartref, preswyl a nyrsio.*

### *Diweddariad Dulliau Arloesol*

Mae’r heriau uchod ar y sail nad oes unrhyw newid i'n dulliau gweithredu, a bod gofal a chefnogaeth yn parhau i gael ei ddarparu yn y ffyrdd traddodiadol.

Yn yr adroddiad gwreiddiol trafodwyd rhai dulliau arloesol a all gael eu defnyddio i leihau y galw ar ofal lle yn berthnasol, a cynnig opsiynau tu hwnt i ofal ‘traddodiadol’. Roedd rhain yn cynnwys gwaith cymunedol, gweithio ar sail cryfder, taliadau uniongyrchol, Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial (AI) a tai gofal ychwanegol.

***Teleofal / Taliadau Uniongyrchol:***


Mae’n anodd cael data ar gyfer newidiadau rhai o’r meysydd uwchben oherwydd eu bod yn anodd meintioli felly mae’r diweddariad data isod yn rhoi diweddariad ar sut mae darpariaeth Cyngor Gwynedd wedi newid dros y dair mlynedd ddiwethaf ar gyfer taliadau uniongyrchol a teleofal.

| | **Teleofal (Niferoedd)** | **Taliadau Uniongyrchol (Niferoedd)** |
|---|---|---|
| **2023** | 1,396 | 57 |
| **2026** | 1,485 | 119 |
| **% cynnydd** | 6% | 109% |

***Tai Gofal Ychwanegol:***

Comisiynwyd cwmni ymgynghorol i fodelu yr angen am wahanol fathau o lety gyda gofal i'r dyfodol yng nghyd destun tystiolaeth Llechen Lân, dyheadau defnyddwyr gwasanaeth a datblygiadau yn y maes yn gyffredinol. Mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys rhagamcan o'r angen am nifer o wahanol fathau o ddarpariaeth i'r dyfodol; yn yr adroddiad yma (Atodiad 1) canolbwyntir ar y tafluniad o'r cynnydd yn y nifer o leoedd mewn tai gofal ychwanegol gan bod hwnnw'n rhan allweddol o'r darlun Llechen Lân.

O ran y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol, mae'r adroddiad (Mehefin 2026) yn rhagamcanu y bydd angen cynyddu'r ddarpariaeth ar draws Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf fel a ganlyn:




*Graff 3 – Rhagamcanion angen am Dai Gofal Ychwanegol yng Ngwynedd hyd 2043 (adroddiad Housing LIN)*

### *Crynodeb Diweddariad Dulliau Arloesol*

Dengys y data uchod fod cynnydd wedi ei wneud ers yr adroddiad llechen lan wreiddiol o ran darparu gofal a chefnogaeth mewn ffyrdd amgen. Yn ychwanegol i deleofal a thechnoleg safonol, disgwylir hefyd bydd datblygiadau technoleg a deallusrwydd artiffisial yn arwain at bobl yn cael gofal a chymorth yn fwy amserol a mewn ffyrdd amgen fydd yn golygu na fyddant yn dod mewn i'r 'system' draddodiadol. Mae'n anodd mesur effaith tebygol deallusrwydd artiffisial ar hyn o bryd.

### Diweddariad Rhaglen Waith

Roedd adroddiad gwreiddiol Llechen Lân yn amlinellu rhaglen waith a oedd yn cynnwys nodau tymor byr, tymor hir a chyffredinol i'w cyflawni. Mae Atodiad 2 (Diweddariad rhaglen waith Llechen Lân 2026) yn amlinellu'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y rhaglen waith hwn ers cyhoeddi adroddiad Llechen Lân.

**Camau nesaf**
Mae'r diweddariad ar gyfer y rhaglen waith yn tynnu sylw at sawl maes a amlinellir yn cynllun gweithredu adroddiad Llechen Lân. Ond mae'r data wedi'i ddiweddaru yn awgrymu bod amcanestyniadau yn y dyfodol yn fwy eithafol nag yr oeddem wedi ei ragweld, ac mae llawer mwy o waith i'w wneud.

Mae'r adran camau nesaf o fewn yr adroddiad atodedig (atodiad 1) yn wag ar hyn o bryd. Y bwriad yw I'r Bwrdd Llechen Lan ddiweddaru y camau nesaf ar ol trafodaeth gyda'r pwyllgor craffu a'r tim arweinyddiaeth.

## 5. Ymgynghori

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Nid yw aelodau o'r Cyhoedd / defnyddwyr gwasanaeth wedi'u cynnwys wrth greu'r adroddiad Llechen Lan yn benodol, gan ei fod yn adroddiad yn canolbwyntio ar ddata yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r cyhoedd wedi bod yn rhan o brosiectau sydd wedi arwain o raglen waith Llechen Lân, e.e. ymgynghoriad ar anghenion lletya pobl hyn i'r dyfodol.

**A ydych wedi ystyried cydweithio?**

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn trwy gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor, mae hefyd yn trafod adroddiad a gomisiynwyd gyda HousingLIN. Mae'r rhaglen waith presennol yn trafod gwaith sy'n digwydd mewn sawl adran y Cyngor, sefydliadau allanol, sefydliadau'r trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth.

**Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

Gweithredu ar y rhaglen waith.

**Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

Prif nod yr adroddiad hwn yw cynllunio hirdymor a addasu gwasanaethau pobl hŷn i fod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

Fel gydag adroddiad gwreiddiol Llechen Lân, mae'r data hwn yn awgrymu bod angen newidiadau mawr. Mae'r newidiadau hyn yn ehangach na'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen mewnbwn a chydweithio gan adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar y rhaglen waith presennol ac yn y dyfodol.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

**8. Camau Nesaf**

Ar ôl trafod yr adroddiad hwn gyda'r pwyllgor craffu, hoffem adborth ar unrhyw newidiadau a argymhellir i'r adroddiad. Ymhellach i hyn hoffem drafod pa gamau nesaf y dylid eu dilyn, yn gyntaf, a ddylid ailgyhoeddi'r adroddiad gyda'r data diweddaredig. Yn ail, mae angen cynllunio a chytuno ar y camau nesaf i sicrhau bod gan y Cyngor camau glir a rhaglen waith fanwl i'w ddilyn, i geisio ein galluogi i ddiwallu yr anghenion gofal a ragwelir dros yr ugain mlynedd nesaf.

**Gwybodaeth Cefndir**

Adroddiad gwreiddiol Llechen Lân: LLechen Lân: gwasanaethau cymdeithasol pobol hŷn i'r dyfodol

**Atodiadau**

Atodiad 1: Adroddiad diweddariad data Llechen Lân
Atodiad 2: Diweddariad rhaglen waith Llechen Lân

# LLECHEN LÂN

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## POBL HŶN I'R DYFODOL

***Awduron:*** *Jessica Mullan, Manon Pritchard, Elin Jones, Emyr Edwards, Gwyn Llŷn Parry, Lois Owens, Alun Williams, Aled Davies, Mari Wynne Jones, Dylan Owen*


**DIWEDDARIAD DATA 2026**

**Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2026**

CYNGOR GWYNEDD


# Y GWEITHLU FYDD EI ANGEN I DDARPARU GOFAL






# Y CYLLID FYDD EI ANGEN I DDARPARU GOFAL CARTREF, PRESWYL A NYRSIO






*Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys chwyddiant

## Tabl Cynnwys

**Cefndir** .......... **4**

**Rhan 1: Diweddariad Data** .......... **5**

Dull a Rhagdybiaethau: .......... 5

Amcanestyniadau Poblogaeth Oedran 65+: .......... 6

Diweddariad amcanestyniadau heb ymyrraeth: .......... 9

Gofal Preswyl / Nyrsio (Heblaw Dementia) .......... 10

Gofal Preswyl / Nyrsio (Dementia) .......... 12

Gofal Cartref .......... 14

Staffio: .......... 16

Cyllid: .......... 18

Crynodeb Diweddariad Data: .......... 21

**Rhan 2: Dulliau Arloesol** .......... **22**

Y 'Mitigations' / Dulliau Arloesol .......... 22

Taliadau uniongyrchol .......... 23

Teleofal/technoleg .......... 23

Tai gofal ychwanegol .......... 23

Diweddariad gweithio tuag at y cymedr gwledig .......... 24

**Rhan 3: Diweddariad Rhaglen Waith** .......... **26**

**Rhan 4: Camau Nesaf** .......... **27**

**Llyfryddiaeth:** .......... **28**

**Atodiad 1: Data Cyllid cefndirol i rhan 2** .......... **29**

## Cefndir

Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd yr adroddiad Llechen Lân ym mis Medi 2024. Tynnodd yr adroddiad sylw at y pwysau a ragfynegwyd i wynebu Cyngor Gwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf. Cyfeiriodd yn bennaf at heriau fyddai'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol (gwaith henoed) Cyngor Gwynedd, ond yn ehangach nodwyd y pwysau cynyddol ar bob adran (e.e. Tai, Cyllid, Addysg, Economi) a thrigolion Gwynedd.

Wrth gyhoeddi'r adroddiad cyntaf, nid oedd modd defnyddio'r rhagamcanion poblogaeth ddiweddaraf oherwydd oedi gan Lywodraeth Cymru wrth eu cyhoeddi. Seiliwyd data'r adroddiad ar amcanestyniadau poblogaeth sail-2018, wedi eu haddasu rhywfaint i adlewyrchu'r lleihad ym mhoblogaeth Gwynedd yng Nghyfrifiad 2021.

Erbyn hyn mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf, ac felly nod cyntaf yr adroddiad byr yma yw diweddaru'r model gyda'r rhagamcanion poblogaeth newydd. Bydd manylion y diweddariad hwn yn cael eu dangos yn llawn yn rhan 1 o'r adroddiad. Yn fyr, mae'r data newydd yn cadarnhau cyfeiriad cyffredinol y rhagamcanion blaenorol ond yn rhagweld hyd yn oed mwy o gynnydd yn y boblogaeth hynaf yng Ngwynedd. Os yw anghenion gofal yn aros yn gyson y rhagamcan yw y bydd angen mwy o ofal na ddisgwyliwyd yn y model gwreiddiol.

Yr ail nod yw rhoi diweddariad ar yr argymhellion a amlygwyd ar ddiwedd yr adroddiad Llechen Lân gwreiddiol. Mae bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r adroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi, felly mae'n amser addas i adlewyrchu ar y gwaith sydd wedi'i wneud a'r gwaith sydd angen ei wneud. Bydd adran 3 yn diweddaru'r rhaglen waith.

# Rhan 1: Diweddariad Data

## Dull a Rhagdybiaethau:

Mae'r dull a'r rhagdybiaethau ar yr un sail â'r adroddiad gwreiddiol (Tudalen 16 o'r adroddiad ac Atodiad 1). Yr unig ddiweddariad i'r data yw'r amcanestyniadau poblogaeth. Does dim newid i sail y gwaelodlin a ddefnyddiwyd ar gyfer y model gwreiddiol (data oriau gofal ar sail cyfanswm oriau gofal wythnosol wythnos yn cychwyn Sul 7/5/2023; gwybodaeth gweithlu a chostau wedi'u cadw ar yr un sail â'r model gwreiddiol).

Cyhoedda Llywodraeth Cymru ragamcanion poblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol bob ychydig o flynyddoedd. Cyhoeddwyd y rhagamcanion diweddaraf yn Nhachwedd 2025, yn seiliedig ar ddata poblogaeth 2022 ac felly yn cymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau ddaeth i'r amlwg yng Nghyfrifiad 2021 yn ogystal ag unrhyw newidiadau demograffig eraill ers cyhoeddi'r rhagamcanion blaenorol oedd ar sail 2018. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi rhagamcanion poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru yn amlach na hyn (gyda'r diweddariad diwethaf yn Ebrill 2026) ond dim ond bob ychydig o flynyddoedd y gwneir ymarferiad pellach ar y rhain gan Lywodraeth Cymru i'w dadelfennu fesul ardal awdurdod lleol.

Fel gyda'r adroddiad Llechen Lân gwreiddiol, mae'n bwysig cofio mai model yw hwn, sy'n defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon lefel-uchel o'r galw am wasanaethau gofal pobl hŷn i'r dyfodol. Dylid ymdrin â'r canlyniadau fel rhagamcan o'r hyn allai ddigwydd yn hytrach na chyfrifiad manwl-gywir; mae'n bosib bydd angen diweddaru'r rhagolygon i'r dyfodol yng ngoleuni profiad, neu gynnal ymchwil pellach i gadarnhau rhai agweddau.

Yn niwedd Ebrill 2026 rhyddhawyd amcanestyniadau poblogaeth sail 2024 ar gyfer Cymru gyfan gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Nid oes data cyfatebol wedi cael ei ryddhau ar gyfer Gwynedd. Er fod newidiadau sylweddol i'w gweld rhwng amcanestyniadau sail 2022 a sail 2024 ar gyfer y boblogaeth gyfan yng Nghymru, mae'r canran newid yn debyg ar gyfer y grŵp oed hynaf (80 oed a hŷn) sydd â'r anghenion gofal uchaf. Ar y sail yma, mae'n gwneud synnwyr i barhau gyda'r diweddariad o ddata Gwynedd ar sail amcanestyniadau poblogaeth sail 2022.

## Amcanestyniadau Poblogaeth Oedran 65+:

Dengys yr amcanestyniadau diweddaraf fwy o gynnydd na'r amcanestyniadau gwreiddiol yn yr oedrannau hynaf yng Ngwynedd dros y deg ac ugain mlynedd nesaf.

Nodyn i'w gofio - oherwydd natur amcanestyniadau poblogaeth, maent yn fwy dibynadwy yn y 10 mlynedd gyntaf a mwy ansicr yn y tymor hwy.

Dangosodd yr ymchwil Llechen Lân wreiddiol fod yr angen am ofal yn cynyddu gydag oedran, ac felly ei bod yn ddefnyddiol gwahanu'r boblogaeth yma i ddau grŵp oed, sef 65 i 79 oed a 80 oed ac hŷn. Ac mae'r cynnydd mwy yma yn y boblogaeth yn cael ei ragweld ar gyfer y ddau grŵp oed 65 i 79, a 80 a hŷn.

Yn ogystal, mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn ymestyn tan y flwyddyn 2047 ac yn dangos - o ran y grŵp hynaf (80+) yn benodol, y rhagwelir cynnydd pellach o fewn y grŵp oedran yma y tu hwnt i gyfnod amser y model Llechen Lân wreiddiol.

Esbonia'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) beth yw'r rhesymau y tu ôl i'r tueddiadau yma:


- Gwelwyd nifer uwch na'r arfer o enedigaethau ar ôl yr ail ryfel byd ac yn y 60au. Erbyn 2032, bydd yr unigolion hyn a anwyd ar ôl yr ail ryfel byd o gwmpas 85 oed a'r rhai a anwyd yn y 60au o gwmpas 67 oed.
- Erbyn 2047, gyda'r nifer uwch o bobl a aned yn y 60au nawr yn eu 80au, bydd disgwyl i fwy o bobl fod yn y grwpiau oedran hŷn; mae hefyd disgwyl bydd cynnydd mewn disgwyliad oes.

Mae'r tablau a'r graffiau isod yn dangos hyn yn fwy manwl.

- **Cymhariaeth poblogaeth (Nifer):**

Tabl 1 – Amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

| | 65-79 | | 80+ | |
|---|---|---|---|---|
| | Model Gwreiddiol | Model Newydd | Model Gwreiddiol | Model Newydd |
| **2021** | 19,823 | 19,823 | 7,451 | 7,451 |
| **2033** | 21,768 | 23,006 | 9,601 | 10,000 |
| **2043** | 21,315 | 24,029 | 11,042 | 11,930 |
| **2047** | | 23,604 | | 13,192 |





Graff 1 a 2 – Amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

Mae hefyd yn ddefnyddiol i edrych ar y newid yma fel canran, lle mae cynnydd o 77% yn cael ei amcan ar gyfer y boblogaeth 80 oed a hŷn erbyn 2047 o'i gymharu gyda 2021.

- **Cymhariaeth poblogaeth (Canran)**

Tabl 2 – Newid canrannol amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

| | 65-79 | | 80+ | |
|---|---|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **2021** | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **2033** | 10% | 16% | 29% | 34% |
| **2043** | 8% | 21% | 48% | 60% |
| **2047** | | 19% | | 77% |




Graff 3 a 4 – Newid canrannol amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

## Diweddariad amcanestyniadau heb ymyrraeth:

Mae’r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn amlwg am gael effaith uniongyrchol ar y model gofal gwreiddiol.

Mae’r adroddiad gwreiddiol yn dangos manylder dadansoddiad oedran ar gyfer y tdair prif ffrwd gofal ‘traddodiadol’ (Gofal Preswyl/ Nyrsio (heblaw Dementia), Gofal Preswyl/ Nyrsio (Dementia), Gofal Cartref). Yn fras mae’n dangos fod yr angen am y dair ffrwd gofal yn cynyddu gydag oedran. Mae hi felly yn ddefnyddiol i edrych ar y data mewn dau grŵp oed sef 65-79 oed lle mae darpariaeth gofal is, a 80 + oed lle mae darpariaeth gofal uwch. Mae hyn yn golygu bydd y cynnydd pellach yn y rhagamcanion poblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran hynaf yn cael effaith mawr ar y ffrydiau gofal yma.

Mae’n bwysig nodi, fel y model gwreiddiol mae’r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar y newidiadau yn y boblogaeth e.e. cymdeithas sy'n heneiddio, ac nid ar unrhyw newidiadau ffordd o fyw, iechyd neu dechnolegol. Mae'r amcanestyniadau hyn hefyd yn seiliedig ar wasanaethau cymdeithasol Gwynedd yn gweithredu yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd.

Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at ystadegau newydd gan yr ONS (2026) fod disgwyliad oes iach (amser cyfartalog yn byw mewn iechyd da yn seiliedig ar gyfraddau marwolaethau cyfredol a sut mae unigolion yn gweld eu hiechyd) wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Os yw hyn yn parhau i waethygu mae yna bosibilrwydd y bydd mwy o unigolion yn y grŵp oedran 65-79 angen gofal, a mwy o unigolion o dan 65 angen cefnogaeth (ONS, 2026).

Yng Ngwynedd, fel yng Nghymru gyfan, mae disgwyliad oes iach adeg geni wedi lleihau dros y deng mlynedd diwethaf. Ar gyfer merched yng Ngwynedd, roedd disgwyliad oes oed geni yn 66.6 oed yn 2012-2014 ond erbyn 2022-2024 roedd wedi lleihau i 62.5 oed – lleihad o tua 4 mlynedd. Ar gyfer dynion roedd disgwyliad oes oed geni yn 65.4 oed yn 2012-2014 ond erbyn 2022-2024 roedd wedi lleihau i 62.3 oed – lleihad o tua 2 flynedd (ONS, 2026). Dengys y data yma fod iechyd poblogaeth Gwynedd, fel Cymru gyfan a Phrydain, yn gwaethygu. Mae disgwyl felly i bobl dreulio lai o’u bywyd mewn iechyd cyffredinol ‘da’, a bydd hyn yn cael effaith ar angen gofal y boblogaeth.


Dyma fanylion y rhagamcanion nifer oriau gofal ar gyfer y dair ffrwd gofal, gan gymharu rhwng y model gwreiddiol a’r model newydd.

## Gofal Preswyl / Nyrsio (Heblaw Dementia)

Tabl 3 – Rhagamcanion angen gofal preswyl / nyrsio (heblaw dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | **Nifer oriau gofal** | | **Canran Newid o'r Angen Presennol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **Angen/Capasiti Presennol** | 12,326 | 12,326 | 0% | 0% |
| **Angen + Rhestr Aros** | 13,275 | 13,275 | 8% | 8% |
| **2033 (Cynnwys RhA)*** | 16,013 | 17,228 | 30% | 40% |
| **2043 (Cynnwys RhA)*** | 18,835 | 21,441 | 53% | 74% |
| **2047 (Cynnwys RhA)*** | | 23,057 | | 87% |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*




Graff 5 – Rhagamcanion angen gofal preswyl / nyrsio (heblaw dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

*Cynnwys RA = Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*

**Tu ôl i’r data:**


Dangosa’r tabl a’r graff uchod fod y cynnydd pellach yn y grwpiau oed hynaf yn cael effaith sylweddol ar angen gofal preswyl / nyrsio (heblaw dementia). Dangosa’r data os na fydd newid yn y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu neu newid ar iechyd y boblogaeth wrth heneiddio, gallai’r angen mewn gofal gynyddu hyd at 87% erbyn 2047 o’i gymharu gyda’r ddarpariaeth yn ystod 2023. Roedd y model gwreiddiol yn amcan cynnydd o 53% erbyn 2043.

## Gofal Preswyl / Nyrsio (Dementia)

Tabl 4 – Rhagamcanion angen gofal preswyl / nyrsio (dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | Nifer oriau gofal | | Canran Newid o'r Angen Presennol | |
|---|---|---|---|---|
| | Model Gwreiddiol | Model Newydd | Model Gwreiddiol | Model Newydd |
| **Angen/Capasiti Presennol** | 5,220 | 5,220 | 0% | 0% |
| **Angen + Rhestr Aros** | 5,597 | 5,597 | 7% | 7% |
| **2033 (Cynnwys RhA)*** | 6,831 | 7,267 | 31% | 39% |
| **2043 (Cynnwys RhA)*** | 8,004 | 8,978 | 53% | 72% |
| **2047 (Cynnwys RhA)*** | | 9,673 | | 85% |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*




Graff 6 – Rhagamcanion angen gofal preswyl / nyrsio (dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

*Cynnwys RA = Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*

**Tu ôl i'r data:**

Dangosa'r tabl a'r graff uchod fod y cynnydd pellach yn y grwpiau oed hynaf yn cael effaith sylweddol ar angen gofal preswyl / nyrsio (dementia). Dangosa'r data os na fydd newid yn y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu neu yng nghyffredinrwydd dementia, gallai'r angen mewn gofal gynyddu hyd at 85% erbyn 2047 o'i gymharu gyda'r ddarpariaeth yn 2023. Roedd y model gwreiddiol yn amcan cynnydd o 53% erbyn 2043.


Mae'n bwysig nodi: wrth ragamcanu faint o unigolion fydd angen gofal preswyl/nyrsio dementia yn y dyfodol rydym wedi defnyddio rhagfynegai poblogaeth, ond nid ydym wedi defnyddio rhagfynegai ar sut mae niferoedd dementia yn tyfu. Mae ymchwil yn dangos fod cyfradd dementia yn cynyddu, nid dim ond oherwydd oed, ond o ganlyniad i nifer o resymau gwahanol e.e. ffordd o fyw a llygredd aer (Alzheimer's Society, 2021). Mae'r adroddiad yma yn canolbwyntio ar y newid mewn demograffeg yn unig.

## Gofal Cartref

Tabl 5 – Rhagamcanion angen gofal cartref yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | Nifer oriau gofal | | Canran Newid o'r Angen Presennol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **Angen/Capasiti Presennol** | 8,393 | 8,393 | 0% | 0% |
| **Angen + Rhestr Aros** | 9,893 | 9,893 | 18% | 18% |
| **2033 (Cynnwys RhA)*** | 12,130 | 12,836 | 45% | 53% |
| **2043 (Cynnwys RhA)*** | 13,664 | 15,214 | 63% | 81% |
| **2047 (Cynnwys RhA)*** | | 16,366 | | 95% |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*




Graff 7 – Rhagamcanion angen gofal cartref yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

*Cynnwys RA = Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*

**Tu ôl i'r data:**

Dangosa'r tabl a'r graff uchod fod y cynnydd pellach yn y grwpiau oed hynaf yn cael effaith sylweddol ar angen gofal cartref. Dangosa'r data os na fydd newid yn y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu neu yn iechyd y boblogaeth wrth heneiddio, gallai'r angen

am ofal gynyddu hyd at 95% erbyn 2047 o'i gymharu gyda'r ddarpariaeth yn 2023. Roedd y model gwreiddiol yn amcan cynnydd o 63% erbyn 2043.


Dyma fanylion rhagamcanion y model gwreiddiol a'r model newydd o ran y nifer staff gofal fyddai ei angen i ddiwallu'r angen am ofal a ragwelir (yn cynnwys gweithlu mewnol y Cyngor a darparwyr allanol sy'n gweithredu yng Ngwynedd):

## Staffio:

<u>Tabl 6 – Rhagamcanion angen staffio gofal 'traddodiadol' yn unig yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed</u>

| | Nifer staff | | Canran Newid o'r Angen Presennol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **Staff Presennol** | 1,647 | 1,647 | | |
| **Staff Ychwanegol Rhestr Aros** | 185 | 185 | | |
| **2033 (Cynnwys RhA)*** | 2,228 | 2,378 | 35% | 44% |
| **2043 (Cynnwys RhA)*** | 2,578 | 2,902 | 57% | 76% |
| **2047 (Cynnwys RhA)**** | | 3,122 | | 90% |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros, canrannau yn dangos newid yn erbyn 'baseline' presennol heb y rhestr aros.*




<u>Graff 8 – Rhagamcanion angen staffio gofal 'traddodiadol' yn unig yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed</u>

**Tu ôl i'r data:**

Roedd yr adroddiad Llechen Lân gwreiddiol yn trafod anghenion gweithlu fwy eang, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol/therapyddion, a'r meysydd arloesol. Mae'r inffograffeg ar dudalen 2 yn dangos y cynnydd pellach ar gyfer y gweithlu eang yma, i

gadw'r cysondeb gyda'r inffograffeg yn yr adroddiad gwreiddiol. I gadw cysondeb gyda gweddill yr adroddiad mae'r tabl uchod a'r drafodaeth isod yn canolbwyntio ar angen gweithlu y meysydd fwy 'traddodiadol' o ofal yn unig (Gofal preswyl/ nyrsio ac gofal cartref).

Pan ysgrifennwyd y papur Llechen Lân gwreiddiol roedd 1,647 o staff yn gweithio yn y meysydd gofal 'traddodiadol'. O'r data amcangyfrifwyd byddai angen 185 o aelodau staff ychwanegol i gyfarch y rhestr aros fel yr oedd ar y pryd.

Dangosa'r tabl uchod fod y cynnydd pellach yn y grwpiau oed hynaf yn cael effaith sylweddol ar angen staffio. Dangosa'r data os na fydd newid yn y ffordd mae gofal yn cael ei ddarparu neu ar iechyd y boblogaeth wrth heneiddio, gallai'r angen mewn staff gynyddu hyd at 90% erbyn 2047 o'i gymharu gyda'r lefel staff gwreiddiol. Roedd y model gwreiddiol yn amcan cynnydd o 57% erbyn 2043.

## Cyllid:

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at yr effaith y mae'r newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn ei chael ar yr amcanestyniadau cyllid. Mae'r tabl hwn yn tynnu sylw at gost ariannol y dair ffrwd gofal traddodiadol; gofal cartref, gofal preswyl/ nyrsio (heblaw dementia) a gofal preswyl/ nyrsio (dementia).


Mae gofal cartref yn ffurfio tua 26% o'r cyfanswm costau dan sylw; gofal preswyl / nyrsio (heblaw dementia) yn ffurfio tua 53%; a gofal preswyl / nyrsio (dementia) yn tua 21% (ar sail llinell sylfaen cyllideb 2023). Gellir gweld dadansoddiad manwl o'r dair ffrwd ar wahân yn atodiad 1.

Mae'n bwysig cofio fod costau wedi eu cyfrifo ar sail prisiau 2023-24. Mae effaith chwyddiant rhwng rŵan a 2033/2043/2047 wedi ei anwybyddu fel ein bod yn cymharu debyg wrth debyg.

Tabl 7 – Cyfanswm rhagamcanion cyllid yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | £M | |
|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **2023 Cyllid Presennol** | 45.6 | 45.6 |
| **2023 Rhestr Aros** | 4.5 | 4.5 |
| **2033(Cynnwys RhA) *** | 60.3 | 65.0 |
| **2043 (Cynnwys RhA)*** | 69.8 | 79.8 |
| **2047 (Cynnwys RhA)*** | | 85.8 |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros*




Graff 9 – Rhagamcanion cyllid y tri ffrwd gofal 'traddodiadol' yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

*Cynnwys Rh.A = Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros.*

**Tu ôl i'r data:**

Roedd yr adroddiad blaenorol yn dangos y byddai angen cyllid ychwanegol o £4.5m i ddiwallu'r gofal ychwanegol oedd ei angen ond ddim yn cael ei ddarparu ar y pryd ar draws y dair ffrwd gofal. Ar ben hynny byddai'r newid demograffeg a ragamcanwyd yn y model gwreiddiol yn golygu y byddai angen £10.2m ychwanegol erbyn 2033, a £19.7m ychwanegol erbyn 2043.

Mae'r model newydd yn amcangyfrif symiau uwch ar gyfer effaith y newid demograffeg; bydd angen **£14.9m ychwanegol erbyn 2033** a **£29.7m erbyn 2043**. Yn ogystal mae'r rhagamcanion newydd yn galluogi amcangyfrif y ffigwr ychwanegol fydd ei angen **erbyn 2047**, sef **£35.7m**.

## Adlewyrchu demograffi yn y gyllideb:

Yn y gorffennol fe fu gan y Cyngor drefn ar gyfer rhoi ychwanegiad demograffi blynyddol yng nghyllideb yr adran Oedolion er mwyn adlewyrchu pwysau ariannol anorfod yn deillio o gynnydd yn y boblogaeth oedran hŷn. Cafodd y drefn yma ei ‘rhewi’ o 2023/24 ymlaen yn dilyn y gostyngiad bychan yn y boblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 a thra’n aros am y rhagamcanion poblogaeth newydd.

Fe ellid ailgyflwyno trefn debyg gan seilio hynny ar y model rhagolygon cyllidol newydd a amlinellir uchod. Byddai hynny yn golygu adio symiau blynyddol o dros £1m ar gyfartaledd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf:

Tabl 10 – Addasiad demograffeg blynyddol fyddai ei angen i adlewyrchu’r cynnydd costau a fodelwyd uchod, 2027/28 i 2034/35 (heb gynnwys effaith Rhestr Aros)

| **Blwyddyn gyllidol** | **Addasiad demograffeg posibl £’000 *** |
|---|---:|
| 2027/28 | 850 |
| 2028/29 | 1,434 |
| 2029/30 | 1,420 |
| 2030/31 | 1,416 |
| 2031/32 | 1,071 |
| 2032/33 | 1,010 |
| 2033/34 | 1,523 |
| 2034/35 | 1,809 |

* union sail y model cyllidol arfaethedig yn cael ei fireinio, felly gallai’r symiau yma newid

## Crynodeb Diweddariad Data:

Mae'r diweddariad data uchod yn tynnu sylw at y ffaith bod yr argyfwng gofal yn cynyddu ar gyfradd fwy brawychus nag a feddyliwyd yn flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod yr angen i symud i ffwrdd o ddulliau gofal traddodiadol a chael Llechen Lân i'r ffordd rydym yn gweithio yn bwysicach nag erioed.

Mae adran 2 yn symud i drafod sut mae'r dulliau arloesol; taliadau uniongyrchol a teleofal wedi newid dros y dair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn amlinellu gwaith sydd wedi digwydd yn y maes tai gofal ychwanegol. Mae adran 3 wedyn yn mynd ymlaen i drafod yr hyn sydd wedi'i gyflawni ar y rhaglen waith, pa waith sydd angen parhau ac mewn rhai achosion pa waith sydd dal i'w ddechrau.

Mae'r ffigurau hyn yn amlinellu'r newid yn y deng ac ugain mlynedd nesaf ond mae'n bwysig nodi bod y cynnydd hwn yn digwydd nawr ac mae angen cychwyn cynllunio a newid nawr.

# Rhan 2: Dulliau Arloesol

## Y 'Mitigations' / Dulliau Arloesol

Yn yr adroddiad gwreiddiol trafodwyd rhai dulliau arloesol a all gael eu defnyddio i leihau y galw ar ofal lle yn berthnasol, a cynnig opsiynau tu hwnt i ofal 'traddodiadol'. Roedd rhain yn cynnwys gwaith cymunedol, gweithio ar sail cryfder, taliadau uniongyrchol, technoleg a deallusrwydd artiffisial (AI) a thai gofal ychwanegol.

Mae'r diweddariad data yma yn canolbwyntio ar daliadau uniongyrchol, teleofal a thai gofal ychwanegol. Mae'r rhan yma yn rhoi diweddariad ar sut mae'r oriau/niferoedd o ddefnydd taliadau uniongyrhcol a theleofal wedi newid yn y dair blynedd diwethaf . Yna, aiff ymlaen i dynnu sylw at ganfyddiadau newydd o'r adroddiad Tai LIN (Mehefin 2026) a gwblhawyd yn ddiweddar ar yr angen y maent yn ei ragweld ar gyfer tai gofal ychwanegol yn y dyfodol.

Bydd rhan 3 yn diweddaru mwy ar y gwaith sydd wedi digwydd yn y dair blynedd diwethaf yn y meysydd arloesol i gyd.

## Taliadau uniongyrchol

Yn yr adroddiad gwreiddiol oedd yn cynnwys data Mai 2023, roedd 1,583.75 awr o ofal yn cael ei ddarparu yn wythnosol drwy daliadau uniongyrchol. Erbyn Mai 2026 roedd 2,656 awr o ofal yn cael ei ddarparu drwy daliadau uniongyrchol. Mae hyn yn gynnydd o tua 1,072 awr, neu 68%, mewn tair blynedd. Er mwyn cael darlun llawn o daliadau uniongyrchol mae hefyd yn bwysig i edrych ar nifer yr unigolion sydd yn eu derbyn, gan ei fod yn bosib i'r data oriau gael ei effeithio gan lefelau anghenion.

Wrth edrych ar y data yma fesul unigolyn sydd yn derbyn taliadau uniongyrchol, mae tuedd tebyg i'w weld. Yn mis Mai 2023 roedd 57 o unigolion yn derbyn taliadau uniongyrchol, ond erbyn Mai 2026 roedd 119 unigolyn. Mae hyn yn gynnydd o 62 unigolyn, sef 109%.

Dangosa hyn gynnydd sylweddol mewn darpariaeth ac yn y nifer o unigolion sydd yn derbyn taliadau uniongyrchol mewn tair blynedd. Dylid bod yn ymwybodol fod y niferoedd cychwynnol yn 2023 yn eithaf bach sydd yn effeithio ar faint y canran newid, a byddai'n ddefnyddiol i barhau i edrych ar y data yma i weld os fydd cynnydd tebyg yn parhau i gael ei weld. Mae'n werth nodi hefyd bod y duedd i fyny yn debygol o lefelu dros amser. Gan nad yw taliadau uniongyrchol yn aml ar gael i unigolion ag anghenion dwys, mae'n anoddach dros amser i barhau i gynyddu niferoedd taliadau uniongyrchol.

## Teleofal/technoleg


Yn yr adroddiad gwreiddiol oedd yn cynnwys data o Mai 2023 roedd 1,396 unigolyn yn gwneud defnydd o deleofal/technoleg. Erbyn Mai 2026 roedd 1,485 unigolyn. Mae hyn yn gynnydd o 89 unigolyn, neu 6%, mewn tair blynedd.

Dylid bod yn ymwybodol fod y niferoedd cychwynnol yn 2023 yn eithaf bychan sydd yn effeithio ar faint y canran newid, a byddai'n ddefnyddiol i barhau i edrych ar y data yma i weld os fydd cynnydd tebyg yn parhau i gael ei weld. Mae Rhan 3 yn amlinellu pa waith sydd wedi digwydd yn y maes yma dros y dair blynedd diwethaf.

## Tai gofal ychwanegol

Comisiynwyd cwmni ymgynghorol i fodelu yr angen am wahanol fathau o leoliadau gofal i'r dyfodol yng ngoleuni cyfeiriad Llechen Lân, dyheadau defnyddwyr gwasanaeth a datblygiadau yn y maes yn gyffredinol. Mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys rhagamcan o'r angen am nifer o wahanol fathau o ddarpariaeth i'r dyfodol; yn yr adroddiad yma canolbwyntir ar y tafluniad o'r cynnydd yn y nifer o leoedd mewn tai gofal ychwanegol gan bod hwnnw'n rhan allweddol o'r darlun.

O ran y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol, mae'r adroddiad (Mehefin 2026) yn rhagamcanu y bydd angen cynyddu'r ddarpariaeth ar draws Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf fel a ganlyn:




Graff 10 – Rhagamcanion angen am Dai Gofal Ychwanegol yng Ngwynedd hyd 2043 (adroddiad Housing LIN)

Fe fydd angen ystyried ail-ymweld â sail y model yma a meintioli'r angen tebygol yng ngoleuni effaith y rhagamcanion poblogaeth diwygiedig fel a amlinellir uchod.

## Diweddariad gweithio tuag at y cymedr gwledig

Yn ystod y prosiect Llechen Lân gwreiddiol crëwyd model yn dangos effeithiau posib lleihau yr angen am ofal cartref a preswyl, fel bod darpariaeth Gwynedd yn debycach i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu mewn cynghorau gwledig eraill. Disgrifiwyd hyn fel 'cymedr gwledig' a'r nod oedd cyrraedd lefel tebyg i siroedd gwledig eraill Cymru erbyn 2043. Er mai darlun yn unig oedd hwn i ddangos effaith posib newid darpariaeth gofal, mae'n ddefnyddiol edrych ar ddata diweddaraf Gwynedd i weld sut mae'n cymharu gyda'r model gwreiddiol. Mae'r gwaith yma am parhau i'r dyfodol.

*Gofal Preswyl:*

Mae'r data yn dangos twf mewn angen gofal preswyl rhwng 2023 a 2026 yn cyd-fynd gyda rhagamcanion y model. Mae twf o 10% wedi ei weld rhwng 2023 a 2026. Mae lefel y ddarpariaeth gofal preswyl yn parhau i fod yn uwch na'r lefel yng ngweddill siroedd gwledig Cymru.  Awgrymir dylid parhau i edrych ar y data yma yn rheolaidd i weld os yw'r twf yma yn parhau ar yr un raddfa, a gwneud mwy o waith cefndirol i weld be sydd yn arwain at y cynnydd yn y lleoliadau preswyl.

*Gofal Cartref:*

Dengys y data gofal cartref ddarlun gwahanol, lle mae'r lefel o ofal cartref traddodiadol sy'n cael ei ddarparu yn ymddangos i fod wedi lleihau ers 2023. Mae hyn yn wahanol i'r model. Dylid nodi fod gwaith tacluso data dros y ddwy flynedd diwethaf yn golygu bod y data yma yn llai dibynadwy. Mae'n bosib fod hyn hefyd yn arwydd o effaith buan rhai o'r dulliau arloesol drafodwyd uchod (taliadau uniongyrchol a teleofal ayyb), ond gwyddom fod rhestrau aros yn parhau am ofal cartref, ac ar llawr ddaear mae'n ymddangos fod y galw am ofal cartref yn uwch nag erioed. Mae'n rhy fuan i dynnu casgliadau pendant o'r data yma. Awgrymir dylid parhau i sicrhau safon y data yma a cadw llygad ar y tueddiadau, a wedyn gellir tynnu canlyniadau mwy pendant o'r data dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r dulliau arloesol wreiddio.

## Rhan 3: Diweddariad Rhaglen Waith

Rydym wedi amlinellu'r gwaith sydd wedi'i wneud ym mhob ffrwd waith yn y daenlen Excel atodedig.

# Rhan 4: Camau Nesaf

## Llyfryddiaeth:

Alzheimer's Society (2021). *Risk factors for dementia*. [Ar lein] Alzheimer’s Society. Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/pdf/factsheet_risk_factors_for_dementia.pd

Llywodraeth Cymru (2026). *Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2024* [Ar Lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/amcanestyniadau-poblogaeth-cenedlaethol-sail-2024-html

Llywodraeth Cymru (2025). *Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol: sail-2022* [Ar Lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/amcanestyniadau-poblogaeth-awdurdodau-lleol-sail-2022

ONS (2026). *Health state life expectancy, all ages, UK - Office for National Statistics*. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk.

The Health Foundation. (2022). *Healthy life expectancy trends in the UK: a watershed moment*. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.health.org.uk/reports-and-analysis/analysis/healthy-life-expectancy-trends-in-the-uk-a-watershed-moment.

# Atodiad 1: Data Cyllid cefndirol i rhan 2

- **Cyllid gofal Preswyl/ Nyrsio (Heblaw Dementia):**

Tabl 11 – Rhagamcanion cyllid gofal preswyl/nyrsio (heblaw dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | £M | |
|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **2023 Cyllid Presennol** | 24.4 | 24.4 |
| **2023 Rhestr Aros** | 1.2 | 1.2 |
| **2033 *** | 30.9 | 33.3 |
| **2043 *** | 36.4 | 41.4 |
| **2047 *** | | 44.6 |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros*

- **Cyllid gofal Preswyl/ Nyrsio (Dementia):**

Tabl 12 – Rhagamcanion cyllid gofal preswyl/nyrsio (dementia) yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | £M | |
|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **2023 Cyllid Presennol** | 9.4 | 9.4 |
| **2023 Rhestr Aros** | 1.1 | 1.1 |
| **2033 *** | 12.9 | 13.7 |
| **2043 *** | 15.1 | 17.0 |
| **2047 *** | | 18.3 |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros*

- **Cyllid Gofal Cartref:**

Tabl 13 – Rhagamcanion cyllid gofal cartref yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd sail 2018 (Model Gwreiddiol) a sail 2022 (Model Newydd) ar gyfer y boblogaeth 65-79 oed a 80+ oed

| | £M | |
|---|---|---|
| | **Model Gwreiddiol** | **Model Newydd** |
| **2023 Cyllid Presennol** | 11.8 | 11.8 |
| **2023 Rhestr Aros** | 2.1 | 2.1 |
| **2033 *** | 16.5 | 18.0 |
| **2043 *** | 18.4 | 21.4 |
| **2047 *** | | 23.0 |

**Ffigyrau y dyfodol yn cynnwys rhestr aros*

| Amserlen | Argymhelliad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | **Paratoi a gweithredu cynlluniau i weithredu'n arloesol:** | |
| **Tymor Byr** | Cwblhau asesiad anghenion tai/llety i bobl hŷn; | Penaethiaid Oedolion a Tai |
| **Tymor Byr** | Hyrwyddo gwaith cymunedol ar sail cryfder; taliadau uniongyrchol; TAG (Technoleg Alluoga Gofal); | Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Byr** | Rheoli a chomisiynu gofal yn effeithiol ac effeithlon; | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Tymor Byr** | Symleiddio'r systemau a chynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol | Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Byr** | Datblygu a hyrwyddo'r gwasanaeth TAG (Technoleg Alluoga Gofal) ymhellach | Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Byr** | Darparu gwasanaethau gwybodaeth | Pennaeth Oedolion a'r Tim Rheoli Corfforaethol |
| **Tymor Byr** | Datblygu academi gofal | Uned Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr** | Cydweithio ar draws y Cyngor ac ar draws sectorau i ganfod datrysiadau ar y cyd. | Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Byr** | Sicrhau trosolwg rheolaidd a gofalus gan Gynghorwyr ac uwch swyddogion ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cadw golwg ar gynnydd. | Aelod Cabinet â Chyfrifoldeb dros Wasanaethau Oedolion, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Tymor Byr** | Datblygu ac ehangu cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Byr** | Datblygu cynlluniau cyllidebu wedi eu seilio ar dystiolaeth yn ôl yr adroddiad hwn. | Pennaeth Cyllid |
| **Tymor Canolig/ Hir** | Gweithredu'n rhagweithiol ac ataliol ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |

| | | |
|---|---|---|
| **Tymor Canolig/ Hir** | Cydweithio ar draws y Cyngor i ganfod datrysiadau i gefnogi unigolion i fyw eu bywyd gorau yn eu cynefin a'u cymuned. | Prif Weithredwr, Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| **Tymor Canolig/ Hir** | Datblygu ac ehangu cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |
| **Tymor Canolig/ Hir** | Datblygu cynlluniau cyllidol ar gyfer y degawdau nesaf ar sail y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac ar gyfer sicrwydd ariannol y dyfodol I'r Cyngor. | Pennaeth Cyllid |
| **Cyffredinol** | Codi ymwybyddiaeth o'r heriau a'r angen am adnoddau. | Cynghorwyr, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Statudol. |
| **Cyffredinol** | Hyrwyddo a phwysleisio bod heriau'r dyfodol yn ehangach na'r adran Oedolion, a bod gan holl adrannau'r cyngor gyfraniadau i'w gwneud. | Prif Weithredwr, Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| **Cyffredinol** | Gweithredu i leihau allfudo ieuenctid o'r sir. | Cynghorwyr, Prif Weithredwr, Tim Rheoli Corfforaethol. |
| **Cyffredinol** | Cynllunio cyllidebau ar sail tystiolaeth ac anghenion. | Pennaeth Cyllid, Prif Weithredwr. |

| Diweddariad Mehefin 2026 | RAG Rating |
| --- | --- |
| | |
| Yn y broses o gwblhau. Ymgynghoriad wedi cau gyda dros 200 o ymatebion. Wedi derbyn yr adroddiad terfynol ac angen penderfynu ar y camau nesaf | |
| Newyddion mewnol wythnosol gwasanaethau cymdeithasol. Wedi datblygu'r strwythur i gael fwy o arweiniad ar yr elfennau TU, TAG ayyb, ond angen hybu capasiti ymhellach. | |
| Grŵp prosiect yn edrych ar y model gofal cartref i'r dyfodol. Angen penderfyniad a gweithredu erbyn y gytundeb gwreiddiol ddod i ben yn Hydref 2027. Angen dod a'r polisi dewis at ei gilydd a chael 'sign off' arno. | |
| Gwaith ar y gweill i symleiddio systemau:<br>- Mosaic – Disodli'r feddalwedd cofnodi gwybodaeth bresennol o WCCIS i Mosaic.<br>- Airweinydd newydd i'r tîm Taliadau Uniongyrchol.<br>- Defnyddio modiwl Dewis Cymru ar gyfer PA's TU. | |
| Arweinydd newydd i'r maes. Gwaith i archwilio dulliau arloesol ar y gweill.<br>– 2 peilot TAG AI: 'Intelligent Lilli' wedi treialu. Peilot 'magic notes' wedi cychwyn Ionawr 2026 a wedi cael ei ehangu i'r gweithlu yn Mehefin 2026, hyn yn rhyddhau llawer o adnoddau. | |
| Helpu'n Hun wedi cael ei lansio - Dewis Cymru wedi cael ei adnabod fel yr un cyfeirlyfr dros Gymru, cael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.<br>- Gwaith ar y gweill i ddiweddaru tudalen hafan IAA. Datblygu App i Ofalwyr Di-Dal. | |
| Yr academi wedi ei lansio a lefel uchel o ddiddordeb a cheisiadau, 6 Hyfforddai wedi penodi Mawrth 2025 wedi bod yn lwyddiant ac angen adeiladu arno. 6 cyfle hyfforddai 2026 wedi cael ei penodi. | |

Nifer o prosiectau yn gweithio ar y cyd gyda’r GIG, 3ydd sector, rhanbarthol, yn cynnwys: -
Gweithgor Cefnogi Pobl.

- Gwaith ysbyty - dashboard ‘right patient right place’.
- Dewis Cymru yn cael ei adnewyddu i fod yr un cyfeirlyfr dros Gymru i gael ei ddefnyddio gan bawb.
- Cydweithio gydag Mantell Gwynedd ar monitro gwerth cymdeithasol mudiadau 3ydd sector.

Awgrymu trefnu cyfarfod yn haf 2026 i drafod unrhyw gynnydd ag cynlluniau i 2026/27.

Grŵp gofalwyr di-dâl yn cyfarfod bob chwarter ag yn gweithredu ar bwyntiau sydd yn codi yn y grŵp e.e. datblygu App Oedolion i cyd-fynd gyda App plant. Angen amserlen/targedau ar rhain yn y grwp nesaf.

Bwriad defnyddio’r model ariannol diwygiedig sydd yn yr adroddiad yma fel sail ar gyfer addasiad demograffig blynyddol yn y gyllideb – union fanylion hyn yn cael ei drafod.

[redacted]

Adolygu’r model gofal cartref .
Cytundebau trydydd sector.

Gweithgor Cefnogi Pobl
Cytundebau trydydd sector
Hybiau yn y Llyfrgelloedd

Gweler uchod tymor Byr

Gweler uchod tymor Byr

Mae'r Argymhelliad yma wedi ei ychwanegu at Cynllun y Cyngor. Bwrdd Nol i Wynedd (Cadeirydd Catrin Thomas) ar fin dechrau. £200k cyllid ar gyfer ceisio hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw a gweithio.

Bwriad defnyddio'r model ariannol diwygiedig sydd yn yr adroddiad yma fel sail ar gyfer addasiad demograffig blynyddol yn y gyllideb – union fanylion hyn yn cael ei drafod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a’r Trydydd Sector |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Ystyried a yw'r Compact diwygiedig yn darparu sail gadarn ar gyfer perthynas fwy cyson, effeithiol a chydweithredol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector |
| **AWDUR** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1. Mae'r Compact yn gosod fframwaith newydd ar gyfer y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector.

1.2. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried a yw'r trefniadau arfaethedig yn mynd i'r afael â'r anghysondebau a nodwyd gan y sector a swyddogion y Cyngor, ac a fydd yn cryfhau cydweithio, comisiynu a chyfathrebu er budd cymunedau Gwynedd.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried:

- *A yw'r Compact yn gosod egwyddorion a disgwyliadau clir ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector?*
- *A yw'r trefniadau arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan y sector a swyddogion y Cyngor?*
- *A yw'r Compact yn darparu sail gadarn ar gyfer cydweithio yn y dyfodol?*
- *A oes unrhyw argymhellion pellach ynglŷn â gweithredu a monitro'r Compact?*

**3. Cefndir / Cyd-destun**

3.1. Mae Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector wedi gweithio mewn partneriaeth ers nifer o flynyddoedd i gefnogi trigolion a chymunedau'r sir. Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys ystod eang o elusennau, mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant pobl Gwynedd a darparu gwasanaethau sy'n ategu gwaith y Cyngor.

3.2. Mabwysiadwyd y Compact blaenorol rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn 2008, ac fe’i adolygwyd yn 2013.

3.3. Ers hynny mae'r amgylchedd gweithredu wedi newid yn sylweddol, gan gynnwys pwysau ariannol cynyddol, gofynion deddfwriaethol newydd, datblygiadau ym maes caffael a chomisiynu, a disgwyliadau uwch ynghylch cyd-gynhyrchu a

gwerth cymdeithasol. O ganlyniad, mae angen adnewyddu'r Compact i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r cyd-destun presennol.

3.4. Yn Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol, "Cyfle wedi'i Golli – Mentrau Cymdeithasol", yn adolygu sut mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod mentrau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant cymunedau, ond nad yw eu potensial yn cael ei wireddu'n llawn gan lawer o awdurdodau lleol. Nodwyd bod diffyg strategaethau cydlynol, diffyg dealltwriaeth o'r sector, a chyfleoedd coll i gydweithio, comisiynu a chaffael gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygiad y sector.

3.5. Nododd Archwilio Cymru fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa i wneud mwy i uchafu effaith y Trydydd Sector, sicrhau gwell gwerth am arian a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau. Roedd yr adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol yn datblygu trefniadau mwy strategol ar gyfer ymgysylltu â'r sector, yn cryfhau cydweithio ar draws adrannau, ac yn gwneud defnydd gwell o drefniadau comisiynu a chaffael i gefnogi mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol.

3.6. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn adleisio'r materion a godwyd yn lleol drwy ymgysylltu â Mantell Gwynedd, a sefydliadau'r sector, sef anghysondeb mewn trefniadau ariannu, diffyg cydlynu corfforaethol, a'r angen i gryfhau trefniadau cydweithio a chyd-gynllunio. Mae'r Compact diwygiedig (atodiad 1) yn gyfle i ymateb i'r heriau hyn drwy osod egwyddorion a disgwyliadau clir ar gyfer perthynas y Cyngor â'r Trydydd Sector yn y dyfodol.

3.7. Mae trefniadau'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector a arferai gael eu hwyluso gan Cyngor Gwynedd wedi eu hoedi ers rhai misoedd, ond bwriedir datblygu trefniadau newydd fydd yn osgoi dyblygu strwythurau ymgysylltu sydd eisoes yn bodoli, sef y Rhwydwaith Trydydd Sector Gwynedd a hwylusir gan Mantell Gwynedd. Bydd hyn yn tynhau perthynas gyda Mantell Gwynedd ac yn sicrhau cydweithio a cyd-ddatblygu tua’r dyfodol.

## 4. Ymgynghori

4.1. Nid datblygu dogfen yn unig oedd bwriad y broses ymgynghori, ond sefydlu set glir o egwyddorion a disgwyliadau i lywio'r berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector i'r dyfodol.

4.2. Cynhaliwyd trafodaethau buan gyda Mantell Gwynedd a swyddogion y Cyngor er mwyn sefydlu'r egwyddorion sylfaenol a ddylai lywio'r berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar themâu megis ymddiriedaeth, tryloywder, cyfathrebu, cydweithio, cyd-gynhyrchu a chysondeb mewn trefniadau ar draws y Cyngor.

4.3. Yn dilyn y gwaith cychwynnol o sefydlu'r egwyddorion, cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu o chwe wythnos ar ddrafft y Compact yn ystod Hydref a Thachwedd 2025. Nod y cyfnod hwn oedd profi'r egwyddorion arfaethedig a cheisio barn ehangach gan sefydliadau'r trydydd sector, rhanddeiliaid ac unigolion.

Cyflwynwyd y Compact hefyd i Rwydwaith Trydydd Sector Gwynedd, a hwylusir gan Mantell Gwynedd, ar 10 Hydref 2025, gan roi cyfle i ystod eang o fudiadau gyfrannu sylwadau ar y cynnwys a'r trefniadau arfaethedig.

4.4. Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r Compact drafft yn gadarnhaol, gyda nifer o ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i sefydlu fframwaith clir ar gyfer y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector. Nodwyd rhai sylwadau penodol am y drafft gan gynnwys:

- Awgrymwyd y dylid ystyried defnyddio teitl mwy eglur megis "Cytundeb Partneriaeth" yn hytrach na "Compact".
- Cafwyd sylwadau ar ddyluniad y ddogfen a'r diagramau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r egwyddor o roi trigolion Gwynedd yn ganolog.
- Teimlwyd bod angen mwy o fanylder mewn rhai rhannau o'r ddogfen er mwyn esbonio sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu gweithredu'n ymarferol.
- Awgrymwyd y dylid pwysleisio bod cyfathrebu'n broses ddwyffordd, gyda chyfrifoldeb ar y ddwy ochr i wrando, rhannu gwybodaeth a chydweithio'n agored.
- Nodwyd pwysigrwydd cyfeirio at Gôd Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru a sicrhau bod egwyddorion y cod yn cael eu hadlewyrchu yn y Compact.
- Derbyniwyd nifer o awgrymiadau golygyddol a geiriol i wella eglurder a chywirdeb y ddogfen.

4.5. Defnyddiwyd yr adborth a dderbyniwyd i fireinio cynnwys y Compact a sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r sector.

4.6. Er bod oedi wedi bod yn y broses o gwblhau'r Compact oherwydd blaenoriaethau a gofynion corfforaethol eraill dros y cyfnod, mae'r gwaith wedi parhau mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd a rhanddeiliaid allweddol. Mae bellach yn amserol symud ymlaen at fabwysiadu'r Compact er mwyn darparu fframwaith cytûn ar gyfer cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector. Mae mewnbwn y Pwyllgor Craffu yn rhan bwysig o'r broses hon cyn cyflwyno'r Compact terfynol i'r Cabinet i'w ystyried a'i fabwysiadu.

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

- Mae'r Compact wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd, mudiadau'r Trydydd Sector ac adrannau'r Cyngor.
- Mae cyfnod ymgysylltu cyhoeddus hefyd wedi ei chynnal yn Hydref 2025 a derbyniwyd nifer o sylwadau ar y Compact Drafft.

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

- Prif ddiben y Compact yw cryfhau trefniadau cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

- Drwy well cynllunio, comisiynu a chyfathrebu, bwriedir atal problemau sy'n deillio o anghysondeb trefniadau a diffyg cydlynu.
- Mae gwaith y trydydd sector yn hanfodol er mwyn cefnogi cymunedau, unigolion a grwpiau er mwyn osgoi problemau i'r dyfodol.

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

- Mae'r Compact yn sefydlu egwyddorion tymor hir ar gyfer gweithio gyda'r sector mewn cyd-destun o heriau ariannol a galw cynyddol am wasanaethau.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

- Mae'r Compact yn cefnogi gweithio trawsadrannol ac yn cyfrannu at nodau llesiant ehangach sy'n ymwneud â chymunedau cryf, cynaliadwy a chydnerth.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

6.1. Disgwylir i'r Compact gael effaith gadarnhaol drwy:
   - Gryfhau gallu mudiadau cymunedol i gefnogi trigolion Gwynedd.
   - Hyrwyddo mynediad tecach at gyfleoedd a gwasanaethau.
   - Cefnogi defnydd o'r Gymraeg drwy waith partneriaeth gyda sefydliadau lleol.
   - Cefnogi cymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

6.2. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ofynion asesu effaith pellach yn cael eu cwblhau fel rhan o'r broses gweithredu

## 7. Camau Nesaf

7.1. Yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu byddwn yn:
   - Ystyried unrhyw argymhellion a dderbynnir.
   - Cwblhau'r fersiwn derfynol o'r Compact.
   - Cyflwyno'r Compact i'r Cabinet i'w fabwysiadu.
   - Sefydlu trefniadau llywodraethu a monitro priodol.

    - Datblygu cynllun gweithredu i gefnogi gweithrediad y Compact ar draws y Cyngor

**Atodiadau**

- Y Compact (Drafft)

# "Y COMPACT"

## CYTUNDEB PARTNERIAETH CYNGOR GWYNEDD A'R TRYDYDD SECTOR



# AMCANION

- Nôd y Trydydd Sector a Chyngor Gwynedd yw cefnogi ei gilydd er mwyn galluogi trigolion a chymunedau Gwynedd i ffynnu.
- Mae'r Cytundeb Cydweithio hwn, a elwir yn "**Compact**", yn sefydlu'r **egwyddorion cydweithio** fydd yn hanfodol i gyflawni hynny.
- Ei nod yw meithrin perthnasoedd a gosod disgwyliadau ar y cyd, yn hytrach na chreu rhwymedigaethau cyfreithiol.

## Pam fod hyn yn bwysig?

- **Trigolion Gwynedd yn Gyntaf:** Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.
- **Gwella Darparu Gwasanaethau:** Mynd i'r afael â materion cymdeithasol yn effeithiol trwy gydweithio.
- **Grymuso Cymunedau:** Mae'r strategaeth yn annog llywodraethiant cyfranogol, gan roi llais cryfach i gymunedau.
- **Effeithlonrwydd:** Er mwyn sicrhau canlyniadau gorau ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau mewn cyfnod o gynni, mae posibl cael budd drwy gydweithio a lleihau dyblygu ymdrechion.


# EGWYDDORION

Er mwyn cyrraedd amcanion Cynllun Corfforaethol Cyngor Gwynedd, mae **cydweithio effeithiol** a defnyddio **adnoddau lleol** yn effeithlon yn hanfodol. Trwy gydweithio â'r trydydd sector, nôd Cyngor Gwynedd yw **sicrhau elw a budd lleol** i drigolion, gan gael y **gwerth gorau am arian** a manteisio ar y **gwerth ychwanegol** y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei gynnig.



Diffinia Llywodraeth Cymru y trydydd sector fel ***sefydliadau annibynnol, anllywodraethol a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion, wedi'u gyrru gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, neu amgylcheddol yn hytrach na thrwy elw. Mae'r sefydliadau hyn yn ail-fuddsoddi'r hyn sydd dros ben i hyrwyddo eu hamcanion.***

# EGWYDDORION CYDWEITHIO



Mae'r egwyddorion canlynol yn dathlu cyfraniad a llwyddiannau'r trydydd sector ac yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gydweithio er mwyn cefnogi ei ffyniant a'i gynaliadwyedd yn y dyfodol.

1. Cyd-fynd â nodau: Bydd ein perthynas gyda'r trydydd sector yn cyfrannu tuag at nodau ac amcanion Cynllun y Cyngor yn unol â blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru er mwyn darparu gwasanaethau sy'n rhoi **pobl Gwynedd yn ganolog** i bopeth rydym yn ei wneud.

2. Cynnwys Cynnar: Er mwyn darparu cefnogaeth ar gyfer twf y 3ydd sector byddwn yn eu **cynnwys o'r cychwyn** lle bo'n briodol ac ymarferol wrth ddatblygu polisïau a dylunio gwasanaethau ac yn adnabod a chyhoeddi cyfleoedd comisiynu a chyfleoedd cyd-gynhyrchu.

3. Gwerth Cymdeithasol: Wrth gomisiynu gwasanaethau, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau **gwerth cymdeithasol a budd lleol** lle bynnag y bo modd, gan barhau i ddarparu nawdd ar gyfer dibenion penodol pan fo hynny'n briodol ac yn bosibl.

4. Atebolrwydd: Wrth ddarparu arian i fudiadau byddwn yn gwneud hynny drwy **gytundeb clir gyda threfniadau monitro ac atebolrwydd.**


5. Gwirfoddolwyr: Rydym yn cydnabod rôl **gwirfoddolwyr** i gynnal y trydydd sector ac yn annog eu cyfraniad yn cefnogi dinasyddiaeth dda a chymunedau iach.

6. Rhannu adnoddau: Er mwyn cefnogi'r sector mewn modd ymarferol byddwn yn **cydweithio i rannu adnoddau** ble fo hynny'n addas.

7. Cyfathrebu Clir: Drwy gyfathrebu **didwyll, clir, parchus a dwyffordd**, byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a safbwyntiau'n llifo rhwng y partneriaid, gan feithrin cyd-ddealltwriaeth, ymddiriedaeth, cydraddoldeb a thegwch.

8. Ymgysylltu: Bydd Cyngor Gwynedd yn **ymgysylltu'n effeithiol** drwy Mantell Gwynedd fel sefydliad ymbarél ac yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd fel fforymau i weithredu'r egwyddorion a'r gweithredoedd a nodir uchod.

# LLYWODRAETHIANT -
# CYNGOR GWYNEDD A'R TRYDYDD SECTOR



# GRŴP CYSWLLT TRYDYDD SECTOR

Bydd Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd yn cynnal cyfarfod **Grŵp Cyswllt Trydydd Sector** yn chwarterol i sicrhau cyfathrebu effeithiol.

Bydd Mantell Gwynedd yn cydweithio gyda'r sefydliadau Trydydd Sector i ddewis cynrychiolwyr addas ar gyfer aelodaeth o'r Grŵp Cyswllt.

**Bydd y Grŵp yn gwneud y canlynol:**

1. Cynnwys aelodaeth gyfartal o gynrychiolwyr y Cyngor a'r trydydd sector.
2. Cyfarfod bob chwarter (yn amlach os oes angen)
3. Bydd cynrychiolwyr y trydydd sector yn cael eu hethol o drawstoriad eang o'r sector a bydd cynrychiolwyr y Cyngor yn cael eu dewis o feysydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trydydd sector
4. Bydd rôl a chyfrifoldebau cynrychiolwyr yn cael eu diffinio'n glir. Disgwylir i gynrychiolwyr y trydydd sector gynrychioli buddiannau'r sector yn ehangach, yn hytrach na buddiannau eu mudiad eu hunain, a sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng y Fforwm a'r sector.
5. Bydd y Cyngor a Mantell Gwynedd (ar ran y trydydd sector) yn cadeirio cyfarfodydd am gyfnod o flwyddyn bob yn ail
6. Bydd y Cyngor yn cymryd cofnodion a sicrhau trefniadau gweinyddol
7. Sicrhau bod grwpiau fforwm y trydydd sector a grwpiau Cyngor perthnasol yn cyfrannu.

# COMISIYNU A CHAFFAEL

Wrth ariannu a chomisiynu gwasanaethau, byddwn yn gweithredu yn unol ag egwyddorion **Cod Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru**, gan hyrwyddo trefniadau teg, tryloyw a chynaliadwy sy'n cefnogi partneriaeth effeithiol â'r trydydd sector.

**Comisiynu**

- Byddwn yn adnabod anghenion pobl Gwynedd, a blaenoriaethu ble mae rhaid.
- Byddwn yn gwrando ar drigolion Gwynedd drwy y broses gyfan.
- Byddwn yn monitro, dadansoddi a gwerthuso canlyniadau.

**Caffael**

- Byddwn yn dryloyw ac yn agored am ein bwriad i gaffael gan flaen rhaglennu ein gweithgareddau caffael.
- Byddwn yn asesu cynigion a gwobrwyo cytundebau ar sail gwerth am arian, gwerth cymdeithasol a budd lleol.
- Byddwn yn dewis o gyfres o fesurau cymdeithasol lleol, sy'n gymesur i'r cytundeb.
- Byddwn yn monitro ac adrodd yn erbyn y cynnydd o wireddu cynigion gwerth cymdeithasol yn ogystal â phwrpas y gytundeb.

Bydd Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi ac yn diweddaru'r holl gyfleoedd comisiynu a chaffael perthnasol ar Sell2Wales.

# MONITRO A GWERTHUSO

**Monitro Cynnydd**

Bydd y Cytundeb "Compact" yn cael ei fonitro a'i werthuso drwy y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector.

**Mesur a Monitro Cynnydd**

Bydd llwyddiant cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cael ei fesur trwy fesurau penodol gan gynnwys;

1. A yw'r bartneriaeth wedi cyfrannu at gryfhau diwylliant o gydweithio? Hynny yw, a yw'n gynaliadwy ac a yw wedi gadael gwaddol ystyrlon?
2. A oes tystiolaeth o fentergarwch a hyblygrwydd o fewn y bartneriaeth i weithredu mewn dull arloesol? Hynny yw, cyflawni canlyniadau na fyddai modd eu sicrhau gan y Cyngor ar ei ben ei hun?
3. Effaith gymdeithasol mesuradwy sy'n dangos gwelliannau ymarferol a chadarnhaol o ganlyniad i'r cydweithio.
4. Gwella ymrwymiad a grymuso cymunedau lleol, gan greu cysylltiadau cryfach a mwy cynhwysol.
5. Gwella darpariaeth gwasanaethau, gan asesu a yw'r gwasanaethau'n fwy effeithiol, effeithlon ac ymatebol i anghenion y gymuned yma yng Ngwynedd.

**Adolygiad Blynyddol o'r Cytundeb**

Bydd y Cytundeb "Compact" yn cael ei adolygu yn flynyddol er mwyn asesu cynnydd yn yr amcanion a amlinellir yn y cytundeb a chynorthwyo gyda chyfeiriad yn y dyfodol.

Dewch i gysylltiad os fydd gennych unrhyw ymholiad:

**Manylion Cyswllt - Grŵp Cyswllt Trydydd Sector:**
trydyddsectorgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2026/27 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Craffu |

1. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, aelodau cabinet, penaethiaid adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27.

2. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 12 Mai 2026 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod y flwyddyn.

3. Darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Roedd yr eitemau yn cynnwys rhai oedd wedi eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol, eitemau a graffwyd a oedd angen dilyniant ac eitemau na lwyddwyd i'w craffu flwyddyn ddiwethaf oherwydd rhesymau amrywiol.

4. Blaenoriaethwyd eitemau yn y cyfarfod gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

5. Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth flaenoriaethu eitemau:

   - *A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?*

- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

6. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o bedwar eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth.

7. Yn dilyn anfon nodyn at y swyddogion perthnasol yn eu hatgoffa o'r amserlen cyflwyno adroddiadau cafodd y Cadeirydd gais i ychwanegu eitemau eraill at y rhaglen waith sef:

| **Dyddiad Cyfarfod** | **Teitl Eitem** |
|---|---|
| 4 Mehefin | Adroddiad Blynyddol Panel Diogelu<br>Adolygiad Polisi Diogelu |
| 16 Gorffennaf | Compact Trydydd Sector |
| 17 Medi | Asesiad Anghenion Poblogaeth |

8. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

9. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion yn codi wrth graffu perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

10. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2026/27

| **Dyddiad** | **Eitemau** | **Rheswm dros graffu** |
|---|---|---|
| **4/6/26** | • Adroddiad Blynyddol Panel Diogelu | Blaengraffu / Angen sicrwydd o ran gweithrediad |
| | • Adolygiad Polisi Diogelu | Blaengraffu / Angen sicrwydd o ran gweithrediad |
| | • Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Tai ac Eiddo | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **16/7/26** | • Gwasanaeth Gofal Dydd | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cwynion Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Grŵp Tasg a Gorffen |
| | • Llechen Lân | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Compact Trydydd Sector | Blaengraffu |
| | | |
| **17/9/26** | • Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ar gyfer Gofal a Chymorth | Blaengraffu |
| | • Cynllun Ymateb i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder | Angen sicrwydd o ran gweithrediad |
| | • Cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | | |

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
| --- | --- | --- |
| **5/11/26** | • Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant | Craffu perfformiad adrannau'r Cygnor |
| | • Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Effaith deddfwriaeth dileu elw mewn cartrefi gofal plant ar allu Cyngor Gwynedd i gartrefu plant mewn gofal | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar / Derbyn sicrwydd bod trefniadau addas mewn lle i barhau i gynnig cartref addas i blant mewn gofal gan gynnwys rhai sydd gydag anghenion dwys a chymhleth |
| | • Adroddiad Blynyddol 2025-26 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd a Oedolion, Iechyd a Llesiant | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | • Gofal Plant | Derbyn sicrwydd bod gwasanaeth addas mewn lle ac yn darparu gwerth am arian |
| | | |
| **21/1/27** | • Adroddiad Perfformiad Tai ac Eiddo | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Gwasanaeth Derwen | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar / Heriau yn y maes |
| | • Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion i gael mynediad at gefnogaeth a gofal | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | | |
| **11/3/27** | • Strategaeth Cymorth Tai a Digartrefedd | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | • Cynllun Gweithredu Tai | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | • Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS) | Mater ar y gofrestr risg / Derbyn sicrwydd bod adnoddau ychwanegol a roddwyd i wella perfformiad yn ddigonol |